# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 13EG MAI, 2021**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Mercher, 5 Mai 2021)

**Geraint Owen**
**Pennaeth Gwasnaethau Democratiaeth**

www.gwynedd.llyw.cymru


**DYDD MERCHER, 5 MAI 2021**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 13 MAI 2021**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod rhithiol drwy Zoom o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU, 13EG MAI, 2021** i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2021/22.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2021/22.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. COFNODION** 5 - 25

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod fel rhai cywir:-

- 4 Mawrth, 2021
- 23 Ebrill, 2021 (Cyfarfod Arbennig)

**5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**6. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**7. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**8. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad.

**9. PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Penodi Cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.

[Yn unol a gofynion adran 14 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, y Cyngor Llawn sydd i benodi cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ac ni all benodi aelod o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y weithrediaeth.]

**10. ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH** 26 - 33

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2020/21** 34 - 87

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

**12. YMESTYN PENODIAD AELOD LLEYG O'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** 88

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**13. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** 89 - 94

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.

**14. YMATEB I RYBUDD O GYNNIG BLAENOROL** 95 - 96

Cyflwyno, er gwybodaeth, llythyr gan Brif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri mewn ymateb i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Glyn Daniels i gyfarfod 1 Hydref, 2020 ynglŷn â'r posibilrwydd o godi tâl ar ymwelwyr am ymweld â rhannau o'r Parc Cenedlaethol.

# Y CYNGOR DYDD IAU, 4 MAWRTH 2021

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Simon Glyn (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Menna Baines, Freya Bentham, Dylan Bullard, Stephen Churchman, Steve Collings, Annwen Daniels, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, W.Roy Owen, Jason Parry, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, John Pughe Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Swyddogion:**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol / Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Hefyd yn bresennol:**
Dafydd Gibbard (Pennaeth Tai ac Eiddo) a Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol – Refeniw a Risg) (ar gyfer eitem 8), Eurig Huw Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) (ar gyfer eitem 9), Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) (ar gyfer eitem 10) a Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid) (ar gyfer eitem 11).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr Nigel Pickavance a Gareth A.Roberts.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr, 2020 fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Roedd yr aelodau wedi derbyn nodyn briffio ymlaen llaw gan y Swyddog Monitro ynglŷn ag eitem 8 ar y rhaglen – Treth Cyngor: Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgowntiau a / neu Godi Premiwm 2021/22.

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 8 ar y rhaglen – Treth Cyngor: Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgowntiau a / neu Godi Premiwm 2021/22:-

- Y Cynghorydd Aled Wyn Jones oherwydd bod teulu agos yn berchnogion ail gartref a thai gwyliau yng Ngwynedd.
- Y Cynghorydd Elfed Roberts oherwydd bod cyswllt agos iddo yn talu'r dreth ar ail gartref.
- Y Cynghorydd Menna Baines oherwydd ei bod yn gydberchennog ar dŷ gwag.
- Y Cynghorydd Gethin Glyn Williams oherwydd bod gan gysylltiadau agos iddo dai gwag ac ail gartrefi.
- Y Cynghorydd Angela Russell oherwydd ei bod yn berchen ar ail gartref.
- Y Cynghorydd Linda Morgan oherwydd bod ganddi deulu sy'n berchen ar ail gartref a chyswllt gyda rhywun sy'n talu'r premiwm.
- Y Cynghorydd Anwen Daniels oherwydd bod gan deulu agos iddi ail gartref yn ei ward.
- Y Cynghorydd Peredur Jenkins oherwydd ei fod wedi cofrestru mewn dau gartref, sef Hafod a'r Hendre.
- Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn oherwydd bod ganddo gyswllt agos â rhywun sy'n talu'r premiwm ail gartref ac eiddo gwag.
- Y Cynghorydd Dewi Roberts oherwydd bod ganddo gyswllt agos â rhywun sydd ag ail gartref.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd y Swyddog Monitro fuddiant personol yn eitem 9 - Adolygiad Blynyddol – Polisi Tâl y Cyngor 2021/22 - ar ran y prif swyddogion oedd yn bresennol, gan fod yr adroddiad yn ymwneud â'u cyflogau.

Ynghyd â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, gadawodd y Swyddog Monitro'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Cydymdeimlwyd â theulu Lucille Hughes, cyn Bennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd a fu farw'n ddiweddar.

Rhoddodd y Prif Weithredwr deyrnged i Gwenan Parry, cyn Bennaeth Gofal Cwsmer, a chyn Bennaeth Oedolion Iechyd a Llesiant y Cyngor, a fu farw'n ddiweddar, a mynegodd ei gydymdeimlad dwysaf â'i theulu yn eu profedigaeth.

Rhoddwyd teyrnged i'r diweddar John B.Jenkins gan y Cynghorydd Owain Williams.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Croesawyd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd i'r cyfarfod yn dilyn anhwylder diweddar.

Nodwyd, i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched ar 8 Mawrth, bod y Cyngor yn bwriadu lansio tudalen ar fewnrwyd y Cyngor, sy'n rhan o waith y Grŵp Prosiect Merched Mewn Arweinyddiaeth, lle byddai gwybodaeth berthnasol am y pwnc yn cael ei rannu gyda staff y Cyngor. Byddai Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol, yn gwneud fideo i bwysleisio pwysigrwydd y dyddiad, a byddai'r Tîm Cyfathrebu yn cylchredeg fideo i ddathlu cyflawniadau merched adnabyddus o'r sir.

Nodwyd y byddai'r Cyngor yn dathlu ei ben-blwydd yn bump ar hugain oed ddechrau mis Ebrill, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, bu'n ffodus iawn i gael tri Phrif Weithredwr dawnus, sef Geraint R.Jones, Harry Thomas, a Dilwyn Williams, y Prif Weithredwr presennol. Ond gyda Mr Williams wedi datgan ei fwriad i ymddeol, byddai'r Cyngor yn symud ymlaen i'r pum mlynedd ar hugain nesaf, dan arweiniad Prif Weithredwr newydd.

Rhoddodd yr Arweinydd air o ddiolch i Dilwyn Williams, ar ran yr holl aelodau, am ei wasanaeth ar hyd y blynyddoedd, a dymunwyd iddo bob hapusrwydd ar ei ymddeoliad.

**5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Dim i'w nodi.

**6. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**7. CWESTIYNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

**8. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A / NEU GODI PREMIWM 2021/22**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor am gadarnhad ffurfiol am 2021/22 i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar anheddau gwag, ac i godi Premiwm o 100% ar eiddo perthnasol o'r fath.

Manylodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Refeniw a Risg) ar ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnydd i gynyddu'r Premiwm ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor i hyd at 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, ynghyd â'r gofynion cyfreithiol. Tynnwyd sylw ganddo hefyd at bwysigrwydd yr Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb, ac atgoffwyd yr aelodau fod rhaid iddynt ei ystyried wrth ddod i benderfyniad. Rhoddwyd esboniad ac arweiniad ar y canfyddiadau, gan dynnu sylw penodol at honiad y gall y bwriad wahaniaethu yn anuniongyrchol ar grwpiau gyda nodweddion gwarchodedig, a'r angen i'r aelodau gydbwyso hyn wrth ddod eu penderfyniad.

Diolchwyd i aelodau o staff y Cyngor, o fwy nag un adran, am sicrhau llwyddiant yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Nododd aelod, er y cytunai â barn y Cabinet fod pwysau cynyddol ar y stoc dai lleol a bod gan berchnogion tai gwyliau'r modd i dalu ychydig mwy, pryderai fod y bwriad i gynyddu argaeledd tai fforddiadwy drwy gynyddu'r Premiwm yn golygu bod y Cabinet wedi camddeall y sefyllfa. Roedd risg y byddai cynyddu'r Premiwm i 100% yn cymell hyd yn oed mwy o berchnogion ail gartrefi i drosglwyddo i'r Dreth Fusnes, a olygai golli'r tai hynny am byth, gan nad oedd yna bwerau i'w cael yn ôl i'r Dreth Ddomestig. Ni chredai fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud digon ynglŷn â'r sefyllfa, a chredai y dylai fod yn ofynnol cael caniatâd cynllunio i drosi tai i'r Dreth Fusnes. Mynegodd ei bryder y byddai'r Cyngor yn colli llawer iawn o incwm yn y pen draw, ac roedd o'r farn ei bod yn gynamserol i gynyddu'r Premiwm i 100%, ac y byddai'n well aros i weld beth fyddai'r sefyllfa yn dilyn Etholiad Senedd Cymru ym mis Mai. Ar sail hynny, cynigiodd welliant i ymlynu at y drefn bresennol o godi Premiwm o 50% ar gyfer 2021/22, gan addasu ail a thrydedd pwynt bwled yr argymhelliad yn yr adroddiad fel a ganlyn:-

*"Ar gyfer 2021/22, bod Cyngor Gwynedd yn:*

- *Caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O <u>50%</u> ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.*
- *Caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O **<u>50%</u>** ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992."*

Eiliwyd y gwelliant.

Yn ystod y drafodaeth ar y gwelliant, cefnogwyd y gwelliant gan aelodau ar y sail:-

- Mai twristiaeth yw un o brif gyflogwyr y sir, a byddai cynnydd pellach yn y Premiwm yn arwain at golli swyddi yn y maes twristiaeth.
- Bod busnesau'r sir ar eu gliniau yn sgil argyfwng y pandemig, a byddai cynyddu'r Premiwm yn arwain at fwy o galedi i berchnogion busnes, gan cynnwys crefftwyr lleol, siopau, tafarndai, bwytai, caffis, clybiau hwylio a golff ac atyniadau twristiaeth.
- Ein bod yn cosbi ein pobl ein hunain, o gofio bod rhai ail gartrefi ym mherchnogaeth pobl leol sydd wedi eu hetifeddu, neu wedi mynd i ffwrdd i weithio, ac yn dymuno dychwelyd i Wynedd i ymddeol.
- Mai'r Cymry sydd wedi gwerthu'r tai i bobl o'r tu allan, ond nad oedd disgwyl i unrhyw un werthu tŷ i berson lleol am bris is na phris y farchnad.
- Nad yw'r Cymry yn dymuno prynu tai sydd ymhell o'r pentrefi, a bod llawer o bobl ifanc yn awyddus i gael tŷ newydd modern.
- Bod y rheolau cynllunio yn atal pobl ifanc broffesiynol rhag adeiladu tai yn eu pentrefi eu hunain, ar sail eu maint, ac er bod modd i ffermwr addasu beudy i'w osod, ni chaiff ei roi yn dŷ parhaol i'w fab sy'n gweithio ar y fferm.
- Bod angen ail edrych ar y sefyllfa a pheidio rhuthro i gynyddu'r Premiwm ar adeg pam rydym yn ceisio dod allan o'r pandemig a chael busnesau yn ôl ar eu traed.
- Nad dyma'r adeg i gynyddu'r Premiwm, yn enwedig gan fod perchnogion ail-gartrefi ond wedi gallu defnyddio'u tai am 2-3 mis llynedd.
- Bod yna berygl y gallasai cynyddu'r Premiwm i 100% gael ei ddehongli fel bod y Cyngor yn wrth-dwristiaeth, a byddai goblygiadau hyn yn bellgyrhaeddol gan fod twristiaeth yn dod â chymaint o incwm i Wynedd.
- Dylid gadael y Premiwm ar y lefel bresennol o 50% am eleni, gan ail-edrych ar y sefyllfa ymhen blwyddyn, yn y gobaith y bydd sefyllfa'r pandemig wedi gwella erbyn hynny.
- Bod nifer y trosglwyddiadau i'r Dreth Fusnes wedi mwy na dyblu ers cyflwyno Premiwm o 50% yn 2016, a byddai'n siŵr o ddyblu eto os cynyddu'r Premiwm i 100%.
- Yn hytrach na chynyddu'r Premiwm, byddai'n well codi 1-2% ychwanegol ar y Dreth Gyngor, os yw'r arian yma am gael ei ddefnyddio i hwyluso mynediad pobl ifanc lleol i dai.
- Byddai'r 4,500 o ymatebwyr oedd yn gwrthwynebu codi'r Premiwm yn ymwybodol bod modd trosglwyddo i'r Dreth Fusnes gan fod y Cyngor yn trafod hynny.
- Bod y canfyddiad mai dieithriaid cyfoethog sy'n berchen ar ail-gartrefi yn ymfflamychol ac yn gamarweiniol.
- Na welid sut y byddai cynyddu'r Premiwm yn helpu pobl leol sy'n methu fforddio tai, gan fod cyfartaledd pris tŷ yng Nghymru bellach yn £200,000.
- Gallai'r Cyngor golli'r arian mae'n bwriadu fuddsoddi yn y Strategaeth Dai wrth i fwy a mwy o berchnogion ail-gartrefi drosglwyddo i'r Dreth Fusnes.
- Bod pobl bellach wedi derbyn y cynnydd o 50%, a dylid aros gyda hynny.
- Os yw pobl yn cael trafferth cynnal ail-gartrefi a etifeddwyd ganddynt, dylent ystyried eu gwerthu.
- Bod agwedd Llywodraeth Cymru tuag at ail-gartrefi yn annerbyniol a'r Ddeddf Llesiant yn gwbl ddi-ystyr.

- Bod angen dwyn pwysau i wneud rhywbeth ynglŷn â'r nifer uchel o dai gwag yng Ngwynedd.
- Byddai cynyddu'r Premiwm yn creu risg y bydd perchnogion ail-gartrefi yn gwerthu eu tai, ac yn troi eu cefnau ar Wynedd yn gyfangwbl.
- Bydd busnesau Gwynedd angen arian yr ymwelwyr pan fydd hi'n ddiogel iddynt ddod yn ôl.
- Bod pobl yn cwestiynu beth oedd pwrpas cymryd rhan yn yr ymgynghoriad os oedd y Cyngor am ddiystyru'r ymatebion.

Gwrthwynebwyd y gwelliant gan aelodau eraill ar y sail:-

- Er y cydnabyddir y byddai cynyddu'r Premiwm i 100% yn golygu y byddai mwy o berchnogion yn trosglwyddo i'r Dreth Fusnes, rhaid blaenoriaethu pobl sy'n methu cael tŷ dros bobl sydd â mwy nag un tŷ.
- Y byddai codi'r Premiwm yn creu incwm i'r Cyngor helpu pobl ifanc a phobl ar incwm isel brynu cartrefi yn eu cymunedau eu hunain, a byddai hefyd yn arf i fynd i'r afael ag anghyfartaledd cymdeithasol o fewn Gwynedd.
- Y dylai'r disgresiwn i gynghorau godi Premiwm fod yn gyfrwng i'w cynorthwyo i adfer y defnydd o gartrefi gwag hirdymor, er mwyn darparu cartrefi diogel a fforddiadwy, a hefyd gynorthwyo cynghorau i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaladwyedd cymunedau lleol.
- Bod y £22.9m o Bremiwm Treth Cyngor y disgwylir ei gasglu dros gyfnod y cynllun yn cyfrannu at nifer o brosiectau i gefnogi pobl yng Ngwynedd fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai arloesol, a bod potensial yma i ddenu mwy o arian er mwyn gwneud mwy i gartrefu trigolion y sir a dechrau dod i'r afael â'r argyfwng tai.
- Nad ymgais oedd yma i gosbi perchnogion ail-gartrefi, ond darparu gweledigaeth a chyflawni sefyllfa deg i bob un o drigolion Gwynedd. Felly byddai cael mwy o arian drwy'r dull yma yn gwneud mwy i gartrefu pobl Gwynedd a chynorthwyo'r Cyngor i leihau anghyfiawnder yn y sir.
- Bod dyletswydd ar y Cyngor dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol, cymunedau ffyniannus a chynaliadwy, ac i sicrhau cartrefi diogel a fforddiadwy i'r trigolion ar draws Gwynedd. Gobeithid y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried eu cyfrifoldebau hwythau dan y Ddeddf yng nghyd-destun yr argyfwng ail-gartrefi, ac yn sicrhau cartrefi i bobl yn eu cymunedau.
- Bod adroddiad Dr Simon Brooks, a gomisiynwyd gan y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, yn gwneud 12 argymhelliad i Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r argyfwng ail-gartrefi. Un o'r argymhellion hynny oedd y dylai cynghorau sy'n canfod bod ail-gartrefi yn broblem gymdeithasol ddifrifol ddefnyddio eu grymoedd trethiannol yn llawn, gan godi Premiwm y Dreth Gyngor ar ail-gartrefi 100%.
- Er y cydnabyddid bod yna risg o ran y 'loophole', byddai'n fwy synhwyrol codi'r Premiwm, ac ar yr un pryd, gofyn i'r Llywodraeth fabwysiadu polisïau cyfochrog i geisio darbwyllo perchnogion i beidio trosglwyddo eiddo o'r Dreth Ddomestig i'r Dreth Fusnes.
- Mai un datrysiad yn unig oedd cynyddu'r Premiwm i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaladwyedd cymunedau lleol, a bod angen edrych hefyd ar eithrio lletyau tymor byr rhag bod yn gymwys ar gyfer y rhyddhad trethi busnes bach, a hefyd newid y Ddeddf Gynllunio fel ei bod yn orfodol cael hawl cynllunio i drosi tŷ annedd yn dŷ haf, neu'n uned wyliau.
- O safbwynt polisi cyhoeddus, byddai'n fwy anodd newid deddfwriaeth gynllunio pe na byddem yn defnyddio'r grymoedd trethiannol sy'n bodoli ar hyn o bryd.
- Bod rhai gwrthwynebwyr yn dweud bod eu ail-gartref wedi bod yn y teulu ers cenedlaethau, a'u bod wedi arfer dod i Wynedd ar eu gwyliau. Er bod hynny'n drist, roedd y sefyllfa yn y wardiau unigol yn llawer mwy trist, gyda 3-4 cenhedlaeth yn

byw mewn tai hollol anaddas, oherwydd bod cyfran helaeth o'r stoc tai yn cael ei ddefnyddio gan bobl sydd â dau gartref.

- Y dylid pwyso ar y Llywodraeth i bennu uchafswm yr anheddau all fod yn ail-gartrefi mewn unrhyw gymuned.
- Nad oedd tai ar gael i bobl leol yn y pentrefi bellach gan fod pobl o'r tu allan yn eu prynu fel tai gwyliau.
- Bydd yr argyfwng tai wedi gwaethygu yn sgil y cynnydd diweddar mewn gweithio o gartref.
- Bod perchnogion tai gwyliau yn dueddol o wario yn yr archfarchnadoedd mawr cyn cyrraedd Gwynedd, yn hytrach na'u bod yn gwario'n lleol.
- Mai'r elfen bwysicaf oedd yr un oedd yn rhoi cyfle tecach i brynwyr tai tro cyntaf gystadlu yn y farchnad dai leol, sef y bobl hynny fyddai'n cyfrannu i'r economi 12 mis y flwyddyn. Dyma hefyd y bobl fyddai'n sicrhau parhad i'r strwythur cymunedol fu mor werthfawr i ni gynnal ein gilydd yn ystod y pandemig.
- Bod trwch perchnogion ail-gartrefi yn dymuno ymweld â chymunedau cytbwys ac iach, gyda siop, tafarn, caffi, ayb, ac felly'n fodlon cyfrannu er mwyn sicrhau bod pobl yn parhau i fyw yn eu cymunedau.
- Bod pobl leol, sydd wedi etifeddu ail-gartref, yn ei chael yn anodd talu morgais, ayb, ar eu tŷ cyntaf, tra ar yr un pryd yn adnewyddu'r ail dŷ.
- Bod dros 2000 ar y rhestr aros am dŷ cymdeithasol yng Ngwynedd a'r cyfartaledd amser aros dros 400 diwrnod. Roedd 59% o drigolion y sir wedi'u prisio allan o'r farchnad dai, a thros 10% o'r stoc tai yn ail-gartrefi bellach.
- Mai Gwynedd oedd y sir gyda'r nifer uchaf o ail-gartrefi a'r nifer uchaf o dai gwyliau, felly os nad ydym ni am wneud dim, pwy fydd yn mynd i'r afael â'r broblem yma?
- Bod rhai aelodau wedi awgrymu aros tan y flwyddyn nesaf cyn ystyried cynyddu'r Premiwm, ond nid oedd amser o blaid y bobl ifanc sy'n methu cael tŷ.
- Bod llawer gormod o bobl Gwynedd yn cael eu prisio allan o'r farchnad leol o fedru prynu cartrefi yn eu cynefinoedd eu hunain. Roedd rhaid ceisio unioni'r cam aruthrol yma, ac roedd y sefyllfa'n gwaethygu. Roedd angen gweithredu ar fyrder, a chredid bod yr argymhelliad i gynyddu'r Premiwm i 100% yn un pwysig, ac yn ymateb i'r argyfwng stoc tai lleol.
- Bod pawb yn cytuno bod tai gwag yn broblem aruthrol yn ein cymunedau ac na ellid creu na chynnal cymunedau bywiog hyfyw gyda thai gwag.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau unigol, eglurwyd:-

- Y cofnodwyd y risg o eiddo yn trosglwyddo o'r Dreth Gyngor i'r Dreth Fusnes yn yng Nghofrestr Risg yr Adran Gyllid gyda sgôr o 10, gyda'r tebygolrwydd uchaf. O ganlyniad, roedd camau ymateb yn ymddangos yng Nghynllun y Cyngor, a bwriedid parhau i roi pwysau ar y Llywodraeth i roi sylw i hyn.
- Bod mwyafrif y tai sy'n trosglwyddo yn aros yn fusnesau, a phrin oedd yr achosion oedd yn dod yn ôl i'r Dreth Ddomestig. Roedd y Gwasanaeth Trethi yn monitro sefyllfa'r eiddo yma, a phe credid nad oeddent yn fusnesau, gellid adrodd arnynt i'r Swyddfa Brisio. O dan y drefn bresennol, roedd yn rhaid i'r Prisiwr gael ei berswadio nad oedd yr eiddo ar gael i'w osod am 140 diwrnod y flwyddyn, nac wedi'i osod am 70 diwrnod y flwyddyn.
- Y bu'r Cyngor yn pwyso ar y Llywodraeth i newid y ddeddfwriaeth fel bod eiddo domestig yn aros yn y Dreth Gyngor, waeth beth oedd ei ddefnydd. Pe byddai'r Llywodraeth yn newid y ddeddfwriaeth yma, byddai hynny'n weithredol o'r dyddiad y deuai'r ddeddfwriaeth i rym, a byddai unrhyw un sydd wedi trosglwyddo i'r Dreth Fusnes yn flaenorol o'r dyddiad yna ymlaen yn dod yn ôl i'r Dreth Gyngor.
- Bod y Cynllun Tai Gwag, sy'n cael ei ariannu drwy'r Premiwm, yn darparu cymorth i ddod â thai yn ôl i ddefnydd. Roedd y cynllun yn rhedeg ers 2-3 blynedd, ac roedd wedi bod yn boblogaidd ac yn llwyddiannus, gyda'r buddsoddiad o dros £2m yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf wedi dod ag 115 o dai gwag yn ôl i ddefnydd. Roedd

£4m ychwanegol wedi'i ddynodi yn y Cynllun Gweithredu Tai dros y 5 mlynedd nesaf er mwyn dod â 250 o dai gwag ychwanegol yn ôl i ddefnydd.

- Y byddai cynyddu'r Premiwm i 100% yn sicr o ddod ag arian ychwanegol i mewn i'r coffrau. Amcangyfrifid y byddai'r swm tua £3m, ond na ellid rhoi ateb pendant gan fod y symudiad o'r Dreth Ddomestig i'r Dreth Fusnes yn lleihau'r ffigur. Roedd y Cyngor yn cael eu digolledu drwy grant ychwanegol yn y flwyddyn ddilynol am Dreth Gyngor "sylfaenol" a gollir trwy'r trosglwyddiad, ond yn colli yn y flwyddyn gyfredol, yn ogystal ag unrhyw ôl-ddyddio gan y Prisiwr.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y gwelliant.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y gwelliant:-

<u>O blaid</u> (17) Y Cynghorwyr:- Stephen Churchman, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Anne Lloyd Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Keith Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dewi Owen, W.Roy Owen, Jason Parry, Mike Stevens a Hefin Underwood.

<u>Yn erbyn</u> (40) – Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Steve Collings, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Simon Glyn, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Aeron M.Jones, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Kevin Morris Jones, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Dafydd Owen, Edgar Owen, Rheinallt Puw, Peter Read, John Pughe Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams a Gruffydd Williams.

<u>Atal</u> (0)

Nododd y Cadeirydd fod y gwelliant wedi colli.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol, ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD ar gyfer 2021/22, bod Cyngor Gwynedd yn:**

- **Caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**
- **Caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 100% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**
- **Caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**

## 9. ADOLYGIAD BLYNYDDOL – POLISI TAL Y CYNGOR 2021/22

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion adroddiad yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i fabwysiadu'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2020/21, yn cynnwys y penderfyniad i godi cyflog swydd y Swyddog Monitro yn syth i uchafswm o tua £70,000, gan nad yw cyflog presennol y swydd yn gystadleuol â swyddi sydd yn ymgymryd â'r cyfrifoldebau cyfatebol mewn awdurdodau lleol rhanbarthol eraill, a bod hynny yn cyflwyno risg sydd yn annerbyniol i weithrediad effeithiol y Cyngor.

Nododd aelod na chredai mai nawr oedd yr amser i godi cyflogau, gyda llawer o bobl y sir yn colli eu gwaith, heb siawns o gael gwaith arall.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i fabwysiadu'r Polisi Tâl ar gyfer 2021/22, yn cynnwys y penderfyniad i godi cyflog swydd y Swyddog Monitro yn syth i uchafswm o tua £70,000.**

**10. CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-23 – ADOLYGIAD 2021/22**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn gwahodd y Cyngor i fabwysiadu Cynllun y Cyngor 2018-23: Adolygiad 2021/22 er mwyn ei weithredu yn ystod 2021/22.

Diolchodd yr Arweinydd i bob aelod o staff y Cyngor am gyfrannu at yr ymateb i argyfwng y pandemig, drwy fod mor barod i addasu i ddulliau gwahanol o weithio, i newid gwaith ac i ymroi i ymateb ac i ddarparu gwasanaethau i drigolion Gwynedd. Nododd fod y cynghorau sir wedi ymateb yn arwrol ac yn effeithiol i'r clefyd, a bod y llywodraethau bellach yn sylweddoli pa mor hanfodol, a pha mor barod i weithredu, y mae awdurdodau lleol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Adolygiad 2021/22 er mwyn ei weithredu yn ystod 2021/22.**

**11. CYLLIDEB 2021/22**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid:-

- Adroddiad yn argymell cyllideb i'r Cyngor ei chymeradwyo ar gyfer 2021/22;
- Penderfyniad drafft y Dreth Cyngor yn seiliedig ar argymhelliad y Cabinet i'r Cyngor (ar sail cynnydd o 3.7%) ynghyd â thablau yn dangos lefel y Dreth Cyngor a'r cynnydd fesul cymuned.

Gan i'r Cyngor benderfynu codi Premiwm o 100% ar ail gartrefi a chartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy (dan eitem 8 uchod), gofynnodd y Pennaeth Cyllid i'r Cyngor gymeradwyo'r fersiwn Premiwm 100% o'r argymhelliad, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Atgoffwyd yr aelodau o rai o'r prif risgiau yn Atodiad 10 i'r adroddiad, a chadarnhaodd y Pennaeth Cyllid, wedi ystyried yr holl risgiau a'r camau lliniaru, ei fod o'r farn bod Cyllideb y Cyngor am 2021/22 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

Yn ystod y drafodaeth, cefnogwyd y cynnig gan aelodau ar y sail:-

- Y byddai cynyddu'r Dreth Gyngor 3.7% yn galluogi i'r Cyngor osgoi'r risg o fethu ymateb i ofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd ar y sail na chafwyd adnoddau gan Lywodraeth Cymru i gwrdd â'r cynnydd mewn angen am ddarpariaeth statudol.
- Pe na fyddai'r Cyngor yn cynyddu'r Dreth Gyngor 3.7%, byddai'n rhaid torri ar y gwasanaethau i'r bobl sydd fwyaf o angen cymorth. Roedd gwaith aruthrol wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf i gefnogi busnesau yn sgil Cofid a Brexit, ac ni ddymunid gweld torri ar y Gwasanaeth Cefnogi Busnes.
- Er na ddymunid codi'r dreth, byddai canlyniadau peidio gwneud hynny yn waeth, ac yn bendant ni ddymunid gweld mwy o dorri ar wasanaethau.
- Bod cymorth ar gael gan y Cyngor i rai sy'n cael anhawster talu'r Dreth Gyngor.
- Na fyddai'n ddarbodus codi llai ar y dreth, yn y gobaith y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu arian ychwanegol dros y misoedd nesaf.
- Y byddai cynnydd is na 3.7% yn y Dreth Gyngor yn golygu y byddai'r Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd mewn peryg' o roi plant mewn risg.
- Mai 3.7% yw'r cynnydd lleiaf y gellir ei osod i gadw'r gwasanaethau i fynd, heb sôn am eu datblygu.

Gwrthwynebwyd y cynnig gan aelodau eraill ar y sail:-

- Mai'r bobl hynny sydd ar gyflogau isel, ond fymryn uwchlaw'r lefel hawlio budd-daliadau sy'n dioddef fwyaf, a bod angen cynllun i helpu'r bobl hynny.
- Y byddai'n anodd iawn cynyddu'r Dreth Gyngor eleni, o ystyried bod busnesau wedi methu bod yn agored, pobl wedi colli eu gwaith a gweithwyr ar ffyrlo wedi colli 20% o'u hincwm.
- Os yw cynghorau am gael mwy o arian gan y Llywodraeth dros y misoedd i ddod, dylid ystyried cynnydd llai yn y Dreth.
- Bod y cynnydd o 3.7% yn frawychus o uchel, a rhwng y pandemig a'r llifogydd a phopeth, y disgwylid y byddai wedi bod yn agosach at 2.7% eleni.
- Y gallai'r Cyngor fod wedi arbed degau o filoedd petai wedi atal staff rhag mynd â cherbydau'r Cyngor adref, a bod angen edrych ble mae'r gwastraff a'i stopio.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau unigol, eglurwyd:-

- Ei bod yn gynamserol i ddweud beth fyddai effaith Cyllideb y Canghellor ar Wynedd. Roedd y swyddogion yn dadansoddi'r ffigurau ar hyn o bryd, ond roedd yn fwy anodd asesu'r ardrawiad gan fod yr arian yn dod i'r awdurdodau lleol trwy law Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gellid bod yn eithaf ffyddiog y byddai'r Cyngor yn derbyn arian i gynorthwyo gydag ymhygliadau'r argyfwng Cofid.
- Bod rhai cynghorau yng Nghymru wedi penderfynu gosod llai o gynnydd ar eu Treth Cyngor yn sgil derbyn grantiau un tro. I raddau, credid bod y cynghorau hynny yn cymryd rhywfaint o risg, ac am wneud toriadau neu arbedion effeithlonrwydd y flwyddyn nesaf er mwyn gallu parhau i gadw'r dreth ar fwy neu lai'r un lefel. Roedd Gwynedd wedi bod yn gyson yn codi'r Dreth fymryn islaw cyfartaledd Cymru yn flynyddol, ac yn ddibynnol ar ganlyniadau'r cytundeb cyflogau staff, ayb, roedd yn bosib', erbyn yr adeg yma'r flwyddyn nesaf, y byddai'r Cyngor mewn gwell sefyllfa i gael llai o gynnydd yn y Dreth Gyngor na'r cynghorau eraill hynny.
- Bod y Cyngor mewn trafodaethau gyda'r banciau ynglŷn â'r posibilrwydd o gyfraddau llog negyddol. Roedd yn debygol bod y Cyngor yn cael amddiffyniad o'r cytundebau cyfredol, ond pan ddeuai'r amser i ail-negodi cytundebau, roedd yn debygol y byddai yna fwy o gost.

**PENDERFYNWYD**

**1. Cymeradwyo'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Cabinet, sef:-**

**(a) Sefydlu cyllideb o £275,669,610 ar gyfer 2021/22 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £194,793,140 a £80,876,470 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 3.7%.**

**(b) Sefydlu rhaglen gyfalaf o £47,085,960 yn 2021/22 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.**

**2. Nodi fod yr Aelod Cabinet dros Gyllid, drwy daflen benderfyniad dyddiedig 18 Tachwedd 2020, wedi cymeradwyo cyfrifiad y symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2021/22 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Y Ddeddf"):-**

**(a) 51,885.56 yw'r swm a gyfrifwyd fel Sylfaen drethiannol Gwynedd yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Cyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd fel ei sylfaen Dreth Cyngor am y flwyddyn.**

**(b) Rhan o ardal y Cyngor – Sylfaen drethiannol Cymuned –**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Aberdaron** | **542.74** | **Llanddeiniolen** | **1,832.32** |
| **Aberdyfi** | **980.22** | **Llandderfel** | **496.58** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Abergwyngregyn** | **117.00** | **Llanegryn** | **157.54** |
| **Abermaw (Barmouth)** | **1,148.25** | **Llanelltyd** | **288.90** |
| **Arthog** | **617.37** | **Llanengan** | **2,105.34** |
| **Y Bala** | **771.50** | **Llanfair** | **311.58** |
| **Bangor** | **3,844.96** | **Llanfihangel y Pennant** | **223.75** |
| **Beddgelert** | **296.64** | **Llanfrothen** | **224.08** |
| **Betws Garmon** | **130.44** | **Llangelynnin** | **407.39** |
| **Bethesda** | **1,696.45** | **Llangywer** | **137.01** |
| **Bontnewydd** | **433.07** | **Llanllechid** | **336.00** |
| **Botwnnog** | **448.54** | **Llanllyfni** | **1,407.84** |
| **Brithdir a Llanfachreth** | **426.50** | **Llannor** | **905.46** |
| **Bryncrug** | **325.38** | **Llanrug** | **1,127.82** |
| **Buan** | **224.84** | **Llanuwchllyn** | **304.53** |
| **Caernarfon** | **3,596.36** | **Llanwnda** | **789.27** |
| **Clynnog Fawr** | **446.26** | **Llanycil** | **198.76** |
| **Corris** | **296.99** | **Llanystumdwy** | **864.34** |
| **Criccieth** | **931.77** | **Maentwrog** | **283.93** |
| **Dolbenmaen** | **603.77** | **Mawddwy** | **346.60** |
| **Dolgellau** | **1,233.10** | **Nefyn** | **1,458.93** |
| **Dyffryn Ardudwy** | **831.65** | **Pennal** | **215.54** |
| **Y Felinheli** | **1,136.66** | **Penrhyndeudraeth** | **779.36** |
| **Ffestiniog** | **1,713.50** | **Pentir** | **1,260.20** |
| **Y Ganllwyd** | **86.79** | **Pistyll** | **259.32** |
| **Harlech** | **769.40** | **Porthmadog** | **2,016.47** |
| **Llanaelhaearn** | **449.24** | **Pwllheli** | **1,729.10** |
| **Llanbedr** | **336.30** | **Talsarnau** | **325.03** |
| **Llanbedrog** | **720.36** | **Trawsfynydd** | **499.20** |
| **Llanberis** | **768.82** | **Tudweiliog** | **457.21** |
| **Llandwrog** | **1,027.80** | **Tywyn** | **1,624.58** |
| **Llandygai** | **1,000.88** | **Waunfawr** | **558.03** |

**sef y symiau a gyfrifwyd fel symiau Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**3. Bod y symiau a ganlyn yn cael eu cyfrifo yn awr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2021/22 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf:-**

| | | |
|---|---|---|
| **(a)** | **£409,390,260** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf (gwariant gros).** |
| **(b)** | **£131,672,530** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3)(a) i (c) o'r Ddeddf (incwm).** |
| **(c)** | **£277,717,730** | **Sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 3(a) uchod a chyfanswm 3(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) o'r Ddeddf, fel ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn (cyllideb net).** |
| **(ch)** | **£194,297,483** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i'w gronfa ar gyfer cyfan o'r Dreth** |

**Annomestig Genedlaethol a Grant Cynnal Refeniw, llai amcangyfrif o'r gost i'r Cyngor o ryddhad dewisol o'r dreth annomestig a ganiateir.**

**(d) £1,532.26 Sef y swm yn 3(c) uchod llai'r swm yn 3(ch) uchod, y cyfan wedi ei rannu gan y swm a nodir yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33(1) o'r Ddeddf, sef swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn (treth Cyngor Gwynedd a threth gyfartalog cynghorau cymuned).**

**(dd) £2,543,780 Sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf (praeseptau'r cynghorau cymuned).**

**(e) £1,483.23 Sef y swm yn 3(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 3(dd) uchod â'r swm yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) fel swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol (Band D ar gyfer treth Cyngor Gwynedd yn unig).**

**(f) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor –**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Aberdaron** | **1,510.87** | **Llanddeiniolen** | **1,500.59** |
| **Aberdyfi** | **1,521.33** | **Llandderfel** | **1,501.35** |
| **Abergwyngregyn** | **1,508.87** | **Llanegryn** | **1,518.14** |
| **Abermaw (Barmouth)** | **1,535.48** | **Llanelltyd** | **1,509.19** |
| **Arthog** | **1,504.29** | **Llanengan** | **1,509.35** |
| **Y Bala** | **1,518.23** | **Llanfair** | **1,534.58** |
| **Bangor** | **1,584.18** | **Llanfihangel y Pennant** | **1,534.74** |
| **Beddgelert** | **1,518.63** | **Llanfrothen** | **1,524.73** |
| **Betws Garmon** | **1,503.16** | **Llangelynnin** | **1,507.29** |
| **Bethesda** | **1,557.61** | **Llangywer** | **1,514.25** |
| **Bontnewydd** | **1,525.95** | **Llanllechid** | **1,529.21** |
| **Botwnnog** | **1,497.72** | **Llanllyfni** | **1,518.75** |
| **Brithdir a Llanfachreth** | **1,511.37** | **Llannor** | **1,503.29** |
| **Bryncrug** | **1,522.75** | **Llanrug** | **1,536.43** |
| **Buan** | **1,499.91** | **Llanuwchllyn** | **1,529.20** |
| **Caernarfon** | **1,538.42** | **Llanwnda** | **1,519.77** |
| **Clynnog Fawr** | **1,523.57** | **Llanycil** | **1,503.35** |
| **Corris** | **1,514.65** | **Llanystumdwy** | **1,504.06** |
| **Criccieth** | **1,528.31** | **Maentwrog** | **1,504.54** |
| **Dolbenmaen** | **1,513.04** | **Mawddwy** | **1,510.64** |
| **Dolgellau** | **1,540.00** | **Nefyn** | **1,536.18** |
| **Dyffryn Ardudwy** | **1,543.35** | **Pennal** | **1,512.74** |
| **Y Felinheli** | **1,518.42** | **Penrhyndeudraeth** | **1,536.48** |
| **Ffestiniog** | **1,617.46** | **Pentir** | **1,526.87** |
| **Y Ganllwyd** | **1,517.80** | **Pistyll** | **1,529.50** |
| **Harlech** | **1,574.21** | **Porthmadog** | **1,514.27** |
| **Llanaelhaearn** | **1,538.88** | **Pwllheli** | **1,530.08** |
| **Llanbedr** | **1,527.83** | **Talsarnau** | **1,550.92** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llanbedrog** | **1,514.46** | **Trawsfynydd** | **1,523.29** |
| **Llanberis** | **1,524.85** | **Tudweiliog** | **1,500.73** |
| **Llandwrog** | **1,547.44** | **Tywyn** | **1,538.83** |
| **Llandygai** | **1,509.57** | **Waunfawr** | **1,504.73** |

**sef y symiau a geir trwy ychwanegu symiau'r eitem neu eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod, at y swm a geir yn 3(e) uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 2(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34(3) o'r Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**(ff) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor, y ffigyrau a nodir yn Atodiad 1, sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 3(f) uchod â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5 (1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisio arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisio D, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisio.**

**4. Nodi ar gyfer y flwyddyn 2021/22 fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:**

| Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **203.70** | **237.65** | **271.60** | **305.55** | **373.45** | **441.35** | **509.25** | **611.10** | **712.95** |

**5. Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau 3(ff) a 4 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) o'r Ddeddf trwy hyn, yn pennu'r symiau a nodir yn Atodiad 2 ar gyfer y Dreth Gyngor yn y flwyddyn 2021/22 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir yn yr Atodiad.**

## 12. STRATEGAETH GYFALAF 2021/22 (YN CYNNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYG)

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid adroddiad yn rhoi trosolwg lefel uchel ar y modd y mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheolaeth trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol. 'Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o sut y rheolir risgiau cysylltiedig, a'r goblygiadau i gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fod y pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r mater yn dilyn cyflwyniad gan gwmni Arlingclose, Ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor, a diolchodd i Arlingclose am eu hadroddiad calonogol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2021/22.**

## 13. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol adroddiad yn manylu ar ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac yn argymell gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gymeradwyo a monitro rhaglen waith ymateb i'r darpariaethau hynny.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, eglurwyd:-

- Nad oedd y ddeddf yn effeithio ar y cyfnod cyn etholiad, ond ar gyfer Etholiad Senedd Cymru ym mis Mai, roedd y cyfnod yn cychwyn ar 22 Mawrth ac yn parhau tan ddiwrnod yr etholiad ar 6 Mai. Er y gallai hyn effeithio ar fusnes y Cyngor, oherwydd y gofyn i geisio peidio rhoi cyhoeddusrwydd i faterion gwleidyddol sensitif mewn cyfnod cyn etholiad, nid oedd yr effaith yn sylweddol fel arfer.
- Bod y ddeddf yn ffurfioli mewn ffordd newydd rôl arweinyddion grwpiau i fod yn atebol am ymddygiad eu haelodau. Ni olygai hynny dorri'r Cod, ond roedd yn rhoi lefel o gyfrifoldeb am ymddygiad ar arweinydd y grŵp. Ar hyn o bryd, nid oes fawr o arweiniad statudol o ran sut byddai hynny'n gweithio'n ymarferol, ond mae'n debygol y byddai cael trefn statudol yn nodi rôl clir i'r arweinydd petai mater yn codi o ran ymddygiad aelodau. Gallai hefyd, o bosib', fod yn gyfrwng i ddatrys y mater ac i roi cyd-destun mwy cadarn i'r disgwyl yma.
- Pan ddeuai'r trefniadau rhannu swyddi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion i rym, byddai modd i fwy nag un person ymgymryd â'r rolau hyn. Eto, roedd angen gweld yr arweiniad o ran sut y byddai'r gyfundrefn yma'n gweithio'n ymarferol, ond roedd yn rhan o'r gofynion newydd o ran trefniadau democrataidd.

**PENDERFYNWYD**
**1. Derbyn yr wybodaeth.**
**2. Gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gymeradwyo a monitro rhaglen waith ymateb i ddarpariaethau'r Ddeddf.**

## 14. AIL-BENODI AELODAU ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad yn nodi fod tymor aelodaeth David Wareing, aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau, yn dod i ben ar 4 Mawrth, 2021, ac yn argymell i'r Cyngor ei ail-benodi i wasanaethu am dymor pellach o bedair blynedd.

Nododd aelod fod Mr Wareing yn aelod gweithgar iawn o'r pwyllgor.

**PENDERFYNWYD ail benodi David Wareing fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau i wasanaethu am dymor pellach o bedair blynedd.**

## 15. CALENDR PWYLLGORAU 2021/22

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd galendr ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2021/22.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2021/22.**

## 16. RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Elin Walker Jones o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

"Bod y Cyngor hwn:
a) yn credu bod y system fudd-daliadau gyfredol yn methu ein dinasyddion ac yn achosi caledi i lawer o gymunedau yng Ngwynedd;
b) yn nodi'r cysyniad o Incwm Sylfaenol Cyffredinol (UBI) lle mae dinasyddion yn derbyn swm heb fod yn seiliedig ar brofion modd gan y wladwriaeth i dalu costau byw sylfaenol, a delir i'r holl ddinasyddion yn unigol, waeth beth yw eu statws cyflogaeth, eu cyfoeth, neu statws priodasol;

c) yn credu bod angen profi UBI, gan fod gan UBI y potensial i fynd i'r afael â heriau allweddol megis adferiad ôl-bandemig, anghydraddoldeb, tlodi, cyflogaeth ansicr, a cholli cymuned trwy:

i) rhoi gweithlu mwy hyblyg i gyflogwyr wrth roi mwy o ryddid i weithwyr newid eu swydd;

ii) gwerthfawrogi gwaith di-dâl, megis gofalu am aelodau'r teulu a gwaith gwirfoddol;

iii) cael gwared ar effeithiau negyddol sancsiynau budd-daliadau ac amodoldeb;

iv) rhoi mwy o adnoddau cyfartal i bobl yn y teulu, y gweithle a'r gymdeithas.

ch) yn nodi gwaith Rhwydwaith Lab UBI wrth ddatblygu cynigion i beilota profi UBI;

d) yn credu na ddylid mesur llwyddiant peilot UBI yn unig yn ôl yr effaith ar y nifer sy'n manteisio ar waith â thâl, ond hefyd yr effaith ar gymunedau a'r hyn y mae'r bobl ynddynt yn ei wneud, sut maen nhw'n teimlo, a sut maen nhw'n uniaethu ag eraill a’r amgylchedd o'u cwmpas;

dd) yn credu bod Gwynedd mewn sefyllfa ddelfrydol i dreialu UBI;

e) yn gofyn i’r Cabinet ymchwilio i’r ymrwymiad fyddai ei angen ac ystyried a ddylid gwirfoddoli i gydweithio gyda chyrff megis UBI Lab Cymru;

f) yn penderfynu anfon copi o'r Cynnig hwn at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, y Canghellor, arweinydd y Blaid yn y Llywodraeth, eu cymheiriaid ym mhob plaid wleidyddol wrthblaid yn y Senedd, Prif Weinidog Cymru ac at holl ASau Gwynedd.”

Yn ystod y drafodaeth, cefnogwyd y cynnig gan aelodau ar y sail:-

- Bod UBI yn ddatrysiad real iawn i helpu pobl allan o dlodi a chynorthwyo’r economi, tra’n lleihau’r anghydraddoldeb amlwg o fewn ein cymdeithas, sydd wedi dyfnhau yn ystod argyfwng y pandemig.
- Bod UBI hefyd yn arf sy’n gallu cael gwared ar y stigma a’r straen ar bobl sy’n hawlio budd-daliadau, gan fod pawb yn derbyn yr un faint, a dylai pawb gael eu talu ddigon i ofalu amdanynt eu hunain, a’u teuluoedd, yn arbennig mewn cyfnod o argyfwng fel hwn.
- Er y cydnabyddid bod yna heriau a chwestiynau ynglŷn ag incwm sylfaenol, bod nifer o wahanol fodelau i ddod â hyn yn ei flaen, a nifer ohonynt yn cael eu treialu mewn gwahanol lefydd.
- Bod yr achos dros dreialu UBI wedi’i gryfhau yn ystod cyfnod y pandemig, ac er bod yna lawer o gynlluniau i helpu pobl yn ariannol, roedd llawer o bobl hunangyflogedig a busnesau newydd wedi disgyn drwy’r rhwyd.
- Bod Gwynedd y math o ardal fyddai’n gweddu’n dda i dreialu UBI, gyda nifer uchel o bobl sy’n hunangyflogedig a gweithwyr tymhorol.
- Bod llawer o economegwyr yn cefnogi’r cysyniad o UBI, ac nad yw, o reidrwydd, yn arwain at chwyddiant, os yw’n cael ei ariannu gan godiad yn y trethi, gyda’r bobl fwyaf cyfoethog yn talu mwy.
- Ei bod yn bwysig gosod lefel cyflog sylfaenol ar y lefel briodol gan y byddai lefel rhy uchel yn anodd i’w ariannu, a lefel rhy isel yn cael ychydig iawn o effaith.
- Bod UBI yn symleiddio’r system fudd-daliadau.
- Nad oedd rhai pobl yn hawlio’r budd-daliadau mae ganddynt hawl iddynt ar hyn o bryd, e.e. pensiynwyr ddim yn hawlio’r credyd pensiwn.
- Bod rhaid cydnabod na allai UBI ddisodli’r angen am fudd-daliadau yn llwyr, a gan fod angen i’r system fod yn ddigon hyblyg i gynnwys hynny, roedd yn tanlinellu’r angen i beilota gyda gwahanol fodelau drwy’r byd.
- Bod UBI yn rhoi cyfle, yn enwedig i bobl ifanc, fentro a datblygu eu dawn mewn gwahanol feysydd, megis cerddoriaeth a’r celfyddydau.
- Bod UBI yn galluogi i bobl ofalu am aelodau o’r teulu heb orfod mynd allan i gael gwaith.

Gwrthwynebwyd y cynnig gan aelod ar y sail y byddai rhoi incwm sylfaenol i bawb yn arwain at gynnydd sylweddol mewn chwyddiant, ac yn chwalu'r economi, ac erfyniodd ar bawb i gymryd hyn o ddifri' a darllen y ffeithiau.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef bod y Cyngor hwn:**
**a) yn credu bod y system fudd-daliadau gyfredol yn methu ein dinasyddion ac yn achosi caledi i lawer o gymunedau yng Ngwynedd;**
**b) yn nodi'r cysyniad o Incwm Sylfaenol Cyffredinol (UBI) lle mae dinasyddion yn derbyn swm heb fod yn seiliedig ar brofion modd gan y wladwriaeth i dalu costau byw sylfaenol, a delir i'r holl ddinasyddion yn unigol, waeth beth yw eu statws cyflogaeth, eu cyfoeth, neu statws priodasol;**
**c) yn credu bod angen profi UBI, gan fod gan UBI y potensial i fynd i'r afael â heriau allweddol megis adferiad ôl-bandemig, anghydraddoldeb, tlodi, cyflogaeth ansicr, a cholli cymuned trwy:**

**i) rhoi gweithlu mwy hyblyg i gyflogwyr wrth roi mwy o ryddid i weithwyr newid eu swydd;**
**ii) gwerthfawrogi gwaith di-dâl, megis gofalu am aelodau'r teulu a gwaith gwirfoddol;**
**iii) cael gwared ar effeithiau negyddol sancsiynau budd-daliadau ac amodoldeb;**
**iv) rhoi mwy o adnoddau cyfartal i bobl yn y teulu, y gweithle a'r gymdeithas.**

**ch) yn nodi gwaith Rhwydwaith Lab UBI wrth ddatblygu cynigion i beilota profi UBI;**
**d) yn credu na ddylid mesur llwyddiant peilot UBI yn unig yn ôl yr effaith ar y nifer sy'n manteisio ar waith â thâl, ond hefyd yr effaith ar gymunedau a'r hyn y mae'r bobl ynddynt yn ei wneud, sut maen nhw'n teimlo, a sut maen nhw'n uniaethu ag eraill a'r amgylchedd o'u cwmpas;**
**dd) yn credu bod Gwynedd mewn sefyllfa ddelfrydol i dreialu UBI;**
**e) yn gofyn i'r Cabinet ymchwilio i'r ymrwymiad fyddai ei angen ac ystyried a ddylid gwirfoddoli i gydweithio gyda chyrff megis UBI Lab Cymru;**
**f) yn penderfynu anfon copi o'r Cynnig hwn at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, y Canghellor, arweinydd y Blaid yn y Llywodraeth, eu cymheiriaid ym mhob plaid wleidyddol wrthblaid yn y Senedd, Prif Weinidog Cymru ac at holl ASau Gwynedd.**

## 17. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL

### (A) YMATEB I RYBUDD O GYNNIG Y CYNGHORYDD GRUFFYDD WILLIAMS

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Gruffydd Williams i gyfarfod 1 Hydref, 2020 ynglŷn â defnyddio'r system gynllunio i reoli'r niferoedd o ail-gartrefi yng Nghymru.

### (B) YMATEBION I RYBUDD O GYNNIG Y CYNGHORYDD PAUL ROWLINSON

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – llythyrau gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Diwydiannol mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Paul Rowlinson i gyfarfod 3 Rhagfyr, 2020 ynglŷn â rheoli tân gwyllt.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 5.50 y.h.

**CADEIRYDD**

**Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned**
**Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council**

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 1,007.25 | 1,175.12 | 1,343.00 | 1,510.87 | 1,846.62 | 2,182.37 | 2,518.12 | 3,021.74 | 3,525.36 |
| Aberdyfi | 1,014.22 | 1,183.26 | 1,352.29 | 1,521.33 | 1,859.40 | 2,197.48 | 2,535.55 | 3,042.66 | 3,549.77 |
| Abergwyngregyn | 1,005.91 | 1,173.57 | 1,341.22 | 1,508.87 | 1,844.17 | 2,179.48 | 2,514.78 | 3,017.74 | 3,520.70 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,023.65 | 1,194.26 | 1,364.87 | 1,535.48 | 1,876.70 | 2,217.92 | 2,559.13 | 3,070.96 | 3,582.79 |
| Arthog | 1,002.86 | 1,170.00 | 1,337.15 | 1,504.29 | 1,838.58 | 2,172.86 | 2,507.15 | 3,008.58 | 3,510.01 |
| Y Bala | 1,012.15 | 1,180.85 | 1,349.54 | 1,518.23 | 1,855.61 | 2,193.00 | 2,530.38 | 3,036.46 | 3,542.54 |
| Bangor | 1,056.12 | 1,232.14 | 1,408.16 | 1,584.18 | 1,936.22 | 2,288.26 | 2,640.30 | 3,168.36 | 3,696.42 |
| Beddgelert | 1,012.42 | 1,181.16 | 1,349.89 | 1,518.63 | 1,856.10 | 2,193.58 | 2,531.05 | 3,037.26 | 3,543.47 |
| Betws Garmon | 1,002.11 | 1,169.12 | 1,336.14 | 1,503.16 | 1,837.20 | 2,171.23 | 2,505.27 | 3,006.32 | 3,507.37 |
| Bethesda | 1,038.41 | 1,211.47 | 1,384.54 | 1,557.61 | 1,903.75 | 2,249.88 | 2,596.02 | 3,115.22 | 3,634.42 |
| Bontnewydd | 1,017.30 | 1,186.85 | 1,356.40 | 1,525.95 | 1,865.05 | 2,204.15 | 2,543.25 | 3,051.90 | 3,560.55 |
| Botwnnog | 998.48 | 1,164.89 | 1,331.31 | 1,497.72 | 1,830.55 | 2,163.37 | 2,496.20 | 2,995.44 | 3,494.68 |
| Brithdir & Llanfachreth | 1,007.58 | 1,175.51 | 1,343.44 | 1,511.37 | 1,847.23 | 2,183.09 | 2,518.95 | 3,022.74 | 3,526.53 |
| Bryncrug | 1,015.17 | 1,184.36 | 1,353.56 | 1,522.75 | 1,861.14 | 2,199.53 | 2,537.92 | 3,045.50 | 3,553.08 |
| Buan | 999.94 | 1,166.60 | 1,333.25 | 1,499.91 | 1,833.22 | 2,166.54 | 2,499.85 | 2,999.82 | 3,499.79 |
| Caernarfon | 1,025.61 | 1,196.55 | 1,367.48 | 1,538.42 | 1,880.29 | 2,222.16 | 2,564.03 | 3,076.84 | 3,589.65 |
| Clynnog Fawr | 1,015.71 | 1,185.00 | 1,354.28 | 1,523.57 | 1,862.14 | 2,200.71 | 2,539.28 | 3,047.14 | 3,555.00 |
| Corris | 1,009.77 | 1,178.06 | 1,346.36 | 1,514.65 | 1,851.24 | 2,187.83 | 2,524.42 | 3,029.30 | 3,534.18 |
| Criccieth | 1,018.87 | 1,188.69 | 1,358.50 | 1,528.31 | 1,867.93 | 2,207.56 | 2,547.18 | 3,056.62 | 3,566.06 |
| Dolbenmaen | 1,008.69 | 1,176.81 | 1,344.92 | 1,513.04 | 1,849.27 | 2,185.50 | 2,521.73 | 3,026.08 | 3,530.43 |
| Dolgellau | 1,026.67 | 1,197.78 | 1,368.89 | 1,540.00 | 1,882.22 | 2,224.44 | 2,566.67 | 3,080.00 | 3,593.33 |
| Dyffryn Ardudwy | 1,028.90 | 1,200.38 | 1,371.87 | 1,543.35 | 1,886.32 | 2,229.28 | 2,572.25 | 3,086.70 | 3,601.15 |
| Y Felinheli | 1,012.28 | 1,180.99 | 1,349.71 | 1,518.42 | 1,855.85 | 2,193.27 | 2,530.70 | 3,036.84 | 3,542.98 |
| Ffestiniog | 1,078.31 | 1,258.02 | 1,437.74 | 1,617.46 | 1,976.90 | 2,336.33 | 2,695.77 | 3,234.92 | 3,774.07 |
| Y Ganllwyd | 1,011.87 | 1,180.51 | 1,349.16 | 1,517.80 | 1,855.09 | 2,192.38 | 2,529.67 | 3,035.60 | 3,541.53 |
| Harlech | 1,049.47 | 1,224.39 | 1,399.30 | 1,574.21 | 1,924.03 | 2,273.86 | 2,623.68 | 3,148.42 | 3,673.16 |
| Llanaelhaearn | 1,025.92 | 1,196.91 | 1,367.89 | 1,538.88 | 1,880.85 | 2,222.83 | 2,564.80 | 3,077.76 | 3,590.72 |
| Llanbedr | 1,018.55 | 1,188.31 | 1,358.07 | 1,527.83 | 1,867.35 | 2,206.87 | 2,546.38 | 3,055.66 | 3,564.94 |
| Llanbedrog | 1,009.64 | 1,177.91 | 1,346.19 | 1,514.46 | 1,851.01 | 2,187.55 | 2,524.10 | 3,028.92 | 3,533.74 |
| Llanberis | 1,016.57 | 1,185.99 | 1,355.42 | 1,524.85 | 1,863.71 | 2,202.56 | 2,541.42 | 3,049.70 | 3,557.98 |
| Llandwrog | 1,031.63 | 1,203.56 | 1,375.50 | 1,547.44 | 1,891.32 | 2,235.19 | 2,579.07 | 3,094.88 | 3,610.69 |
| Llandygai | 1,006.38 | 1,174.11 | 1,341.84 | 1,509.57 | 1,845.03 | 2,180.49 | 2,515.95 | 3,019.14 | 3,522.33 |
| Llanddeiniolen | 1,000.39 | 1,167.13 | 1,333.86 | 1,500.59 | 1,834.05 | 2,167.52 | 2,500.98 | 3,001.18 | 3,501.38 |
| Llandderfel | 1,000.90 | 1,167.72 | 1,334.53 | 1,501.35 | 1,834.98 | 2,168.62 | 2,502.25 | 3,002.70 | 3,503.15 |
| Llanegryn | 1,012.09 | 1,180.78 | 1,349.46 | 1,518.14 | 1,855.50 | 2,192.87 | 2,530.23 | 3,036.28 | 3,542.33 |
| Llanelltyd | 1,006.13 | 1,173.81 | 1,341.50 | 1,509.19 | 1,844.57 | 2,179.94 | 2,515.32 | 3,018.38 | 3,521.44 |
| Llanengan | 1,006.23 | 1,173.94 | 1,341.64 | 1,509.35 | 1,844.76 | 2,180.17 | 2,515.58 | 3,018.70 | 3,521.82 |
| Llanfair | 1,023.05 | 1,193.56 | 1,364.07 | 1,534.58 | 1,875.60 | 2,216.62 | 2,557.63 | 3,069.16 | 3,580.69 |
| Llanfihangel y Pennant | 1,023.16 | 1,193.69 | 1,364.21 | 1,534.74 | 1,875.79 | 2,216.85 | 2,557.90 | 3,069.48 | 3,581.06 |
| Llanfrothen | 1,016.49 | 1,185.90 | 1,355.32 | 1,524.73 | 1,863.56 | 2,202.39 | 2,541.22 | 3,049.46 | 3,557.70 |
| Llangelynnin | 1,004.86 | 1,172.34 | 1,339.81 | 1,507.29 | 1,842.24 | 2,177.20 | 2,512.15 | 3,014.58 | 3,517.01 |
| Llangywer | 1,009.50 | 1,177.75 | 1,346.00 | 1,514.25 | 1,850.75 | 2,187.25 | 2,523.75 | 3,028.50 | 3,533.25 |
| Llanllechid | 1,019.47 | 1,189.39 | 1,359.30 | 1,529.21 | 1,869.03 | 2,208.86 | 2,548.68 | 3,058.42 | 3,568.16 |
| Llanllyfni | 1,012.50 | 1,181.25 | 1,350.00 | 1,518.75 | 1,856.25 | 2,193.75 | 2,531.25 | 3,037.50 | 3,543.75 |
| Llannor | 1,002.19 | 1,169.23 | 1,336.26 | 1,503.29 | 1,837.35 | 2,171.42 | 2,505.48 | 3,006.58 | 3,507.68 |
| Llanrug | 1,024.29 | 1,195.00 | 1,365.72 | 1,536.43 | 1,877.86 | 2,219.29 | 2,560.72 | 3,072.86 | 3,585.00 |
| Llanuwchllyn | 1,019.47 | 1,189.38 | 1,359.29 | 1,529.20 | 1,869.02 | 2,208.84 | 2,548.67 | 3,058.40 | 3,568.13 |
| Llanwnda | 1,013.18 | 1,182.04 | 1,350.91 | 1,519.77 | 1,857.50 | 2,195.22 | 2,532.95 | 3,039.54 | 3,546.13 |
| Llanycil | 1,002.23 | 1,169.27 | 1,336.31 | 1,503.35 | 1,837.43 | 2,171.51 | 2,505.58 | 3,006.70 | 3,507.82 |
| Llanystumdwy | 1,002.71 | 1,169.82 | 1,336.94 | 1,504.06 | 1,838.30 | 2,172.53 | 2,506.77 | 3,008.12 | 3,509.47 |
| Maentwrog | 1,003.03 | 1,170.20 | 1,337.37 | 1,504.54 | 1,838.88 | 2,173.22 | 2,507.57 | 3,009.08 | 3,510.59 |
| Mawddwy | 1,007.09 | 1,174.94 | 1,342.79 | 1,510.64 | 1,846.34 | 2,182.04 | 2,517.73 | 3,021.28 | 3,524.83 |
| Nefyn | 1,024.12 | 1,194.81 | 1,365.49 | 1,536.18 | 1,877.55 | 2,218.93 | 2,560.30 | 3,072.36 | 3,584.42 |
| Pennal | 1,008.49 | 1,176.58 | 1,344.66 | 1,512.74 | 1,848.90 | 2,185.07 | 2,521.23 | 3,025.48 | 3,529.73 |
| Penrhyndeudraeth | 1,024.32 | 1,195.04 | 1,365.76 | 1,536.48 | 1,877.92 | 2,219.36 | 2,560.80 | 3,072.96 | 3,585.12 |
| Pentir | 1,017.91 | 1,187.57 | 1,357.22 | 1,526.87 | 1,866.17 | 2,205.48 | 2,544.78 | 3,053.74 | 3,562.70 |
| Pistyll | 1,019.67 | 1,189.61 | 1,359.56 | 1,529.50 | 1,869.39 | 2,209.28 | 2,549.17 | 3,059.00 | 3,568.83 |
| Porthmadog | 1,009.51 | 1,177.77 | 1,346.02 | 1,514.27 | 1,850.77 | 2,187.28 | 2,523.78 | 3,028.54 | 3,533.30 |
| Pwllheli | 1,020.05 | 1,190.06 | 1,360.07 | 1,530.08 | 1,870.10 | 2,210.12 | 2,550.13 | 3,060.16 | 3,570.19 |
| Talsarnau | 1,033.95 | 1,206.27 | 1,378.60 | 1,550.92 | 1,895.57 | 2,240.22 | 2,584.87 | 3,101.84 | 3,618.81 |
| Trawsfynydd | 1,015.53 | 1,184.78 | 1,354.04 | 1,523.29 | 1,861.80 | 2,200.31 | 2,538.82 | 3,046.58 | 3,554.34 |
| Tudweiliog | 1,000.49 | 1,167.23 | 1,333.98 | 1,500.73 | 1,834.23 | 2,167.72 | 2,501.22 | 3,001.46 | 3,501.70 |
| Tywyn | 1,025.89 | 1,196.87 | 1,367.85 | 1,538.83 | 1,880.79 | 2,222.75 | 2,564.72 | 3,077.66 | 3,590.60 |
| Waunfawr | 1,003.15 | 1,170.35 | 1,337.54 | 1,504.73 | 1,839.11 | 2,173.50 | 2,507.88 | 3,009.46 | 3,511.04 |

**Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned + Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**
**Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council + North Wales Police and Crime Commissioner**

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 1,210.95 | 1,412.77 | 1,614.60 | 1,816.42 | 2,220.07 | 2,623.72 | 3,027.37 | 3,632.84 | 4,238.31 |
| Aberdyfi | 1,217.92 | 1,420.91 | 1,623.89 | 1,826.88 | 2,232.85 | 2,638.83 | 3,044.80 | 3,653.76 | 4,262.72 |
| Abergwyngregyn | 1,209.61 | 1,411.22 | 1,612.82 | 1,814.42 | 2,217.62 | 2,620.83 | 3,024.03 | 3,628.84 | 4,233.65 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,227.35 | 1,431.91 | 1,636.47 | 1,841.03 | 2,250.15 | 2,659.27 | 3,068.38 | 3,682.06 | 4,295.74 |
| Arthog | 1,206.56 | 1,407.65 | 1,608.75 | 1,809.84 | 2,212.03 | 2,614.21 | 3,016.40 | 3,619.68 | 4,222.96 |
| Bala | 1,215.85 | 1,418.50 | 1,621.14 | 1,823.78 | 2,229.06 | 2,634.35 | 3,039.63 | 3,647.56 | 4,255.49 |
| Bangor | 1,259.82 | 1,469.79 | 1,679.76 | 1,889.73 | 2,309.67 | 2,729.61 | 3,149.55 | 3,779.46 | 4,409.37 |
| Beddgelert | 1,216.12 | 1,418.81 | 1,621.49 | 1,824.18 | 2,229.55 | 2,634.93 | 3,040.30 | 3,648.36 | 4,256.42 |
| Betws Garmon | 1,205.81 | 1,406.77 | 1,607.74 | 1,808.71 | 2,210.65 | 2,612.58 | 3,014.52 | 3,617.42 | 4,220.32 |
| Bethesda | 1,242.11 | 1,449.12 | 1,656.14 | 1,863.16 | 2,277.20 | 2,691.23 | 3,105.27 | 3,726.32 | 4,347.37 |
| Bontnewydd | 1,221.00 | 1,424.50 | 1,628.00 | 1,831.50 | 2,238.50 | 2,645.50 | 3,052.50 | 3,663.00 | 4,273.50 |
| Botwnnog | 1,202.18 | 1,402.54 | 1,602.91 | 1,803.27 | 2,204.00 | 2,604.72 | 3,005.45 | 3,606.54 | 4,207.63 |
| Brithdir & Llanfachreth | 1,211.28 | 1,413.16 | 1,615.04 | 1,816.92 | 2,220.68 | 2,624.44 | 3,028.20 | 3,633.84 | 4,239.48 |
| Bryncrug | 1,218.87 | 1,422.01 | 1,625.16 | 1,828.30 | 2,234.59 | 2,640.88 | 3,047.17 | 3,656.60 | 4,266.03 |
| Buan | 1,203.64 | 1,404.25 | 1,604.85 | 1,805.46 | 2,206.67 | 2,607.89 | 3,009.10 | 3,610.92 | 4,212.74 |
| Caernarfon | 1,229.31 | 1,434.20 | 1,639.08 | 1,843.97 | 2,253.74 | 2,663.51 | 3,073.28 | 3,687.94 | 4,302.60 |
| Clynnog Fawr | 1,219.41 | 1,422.65 | 1,625.88 | 1,829.12 | 2,235.59 | 2,642.06 | 3,048.53 | 3,658.24 | 4,267.95 |
| Corris | 1,213.47 | 1,415.71 | 1,617.96 | 1,820.20 | 2,224.69 | 2,629.18 | 3,033.67 | 3,640.40 | 4,247.13 |
| Criccieth | 1,222.57 | 1,426.34 | 1,630.10 | 1,833.86 | 2,241.38 | 2,648.91 | 3,056.43 | 3,667.72 | 4,279.01 |
| Dolbenmaen | 1,212.39 | 1,414.46 | 1,616.52 | 1,818.59 | 2,222.72 | 2,626.85 | 3,030.98 | 3,637.18 | 4,243.38 |
| Dolgellau | 1,230.37 | 1,435.43 | 1,640.49 | 1,845.55 | 2,255.67 | 2,665.79 | 3,075.92 | 3,691.10 | 4,306.28 |
| Dyffryn Ardudwy | 1,232.60 | 1,438.03 | 1,643.47 | 1,848.90 | 2,259.77 | 2,670.63 | 3,081.50 | 3,697.80 | 4,314.10 |
| Y Felinheli | 1,215.98 | 1,418.64 | 1,621.31 | 1,823.97 | 2,229.30 | 2,634.62 | 3,039.95 | 3,647.94 | 4,255.93 |
| Ffestiniog | 1,282.01 | 1,495.67 | 1,709.34 | 1,923.01 | 2,350.35 | 2,777.68 | 3,205.02 | 3,846.02 | 4,487.02 |
| Y Ganllwyd | 1,215.57 | 1,418.16 | 1,620.76 | 1,823.35 | 2,228.54 | 2,633.73 | 3,038.92 | 3,646.70 | 4,254.48 |
| Harlech | 1,253.17 | 1,462.04 | 1,670.90 | 1,879.76 | 2,297.48 | 2,715.21 | 3,132.93 | 3,759.52 | 4,386.11 |
| Llanaelhaearn | 1,229.62 | 1,434.56 | 1,639.49 | 1,844.43 | 2,254.30 | 2,664.18 | 3,074.05 | 3,688.86 | 4,303.67 |
| Llanbedr | 1,222.25 | 1,425.96 | 1,629.67 | 1,833.38 | 2,240.80 | 2,648.22 | 3,055.63 | 3,666.76 | 4,277.89 |
| Llanbedrog | 1,213.34 | 1,415.56 | 1,617.79 | 1,820.01 | 2,224.46 | 2,628.90 | 3,033.35 | 3,640.02 | 4,246.69 |
| Llanberis | 1,220.27 | 1,423.64 | 1,627.02 | 1,830.40 | 2,237.16 | 2,643.91 | 3,050.67 | 3,660.80 | 4,270.93 |
| Llandwrog | 1,235.33 | 1,441.21 | 1,647.10 | 1,852.99 | 2,264.77 | 2,676.54 | 3,088.32 | 3,705.98 | 4,323.64 |
| Llandygai | 1,210.08 | 1,411.76 | 1,613.44 | 1,815.12 | 2,218.48 | 2,621.84 | 3,025.20 | 3,630.24 | 4,235.28 |
| Llanddeiniolen | 1,204.09 | 1,404.78 | 1,605.46 | 1,806.14 | 2,207.50 | 2,608.87 | 3,010.23 | 3,612.28 | 4,214.33 |
| Llandderfel | 1,204.60 | 1,405.37 | 1,606.13 | 1,806.90 | 2,208.43 | 2,609.97 | 3,011.50 | 3,613.80 | 4,216.10 |
| Llanegryn | 1,215.79 | 1,418.43 | 1,621.06 | 1,823.69 | 2,228.95 | 2,634.22 | 3,039.48 | 3,647.38 | 4,255.28 |
| Llanelltyd | 1,209.83 | 1,411.46 | 1,613.10 | 1,814.74 | 2,218.02 | 2,621.29 | 3,024.57 | 3,629.48 | 4,234.39 |
| Llanengan | 1,209.93 | 1,411.59 | 1,613.24 | 1,814.90 | 2,218.21 | 2,621.52 | 3,024.83 | 3,629.80 | 4,234.77 |
| Llanfair | 1,226.75 | 1,431.21 | 1,635.67 | 1,840.13 | 2,249.05 | 2,657.97 | 3,066.88 | 3,680.26 | 4,293.64 |
| Llanfihangel y Pennant | 1,226.86 | 1,431.34 | 1,635.81 | 1,840.29 | 2,249.24 | 2,658.20 | 3,067.15 | 3,680.58 | 4,294.01 |
| Llanfrothen | 1,220.19 | 1,423.55 | 1,626.92 | 1,830.28 | 2,237.01 | 2,643.74 | 3,050.47 | 3,660.56 | 4,270.65 |
| Llangelynnin | 1,208.56 | 1,409.99 | 1,611.41 | 1,812.84 | 2,215.69 | 2,618.55 | 3,021.40 | 3,625.68 | 4,229.96 |
| Llangywer | 1,213.20 | 1,415.40 | 1,617.60 | 1,819.80 | 2,224.20 | 2,628.60 | 3,033.00 | 3,639.60 | 4,246.20 |
| Llanllechid | 1,223.17 | 1,427.04 | 1,630.90 | 1,834.76 | 2,242.48 | 2,650.21 | 3,057.93 | 3,669.52 | 4,281.11 |
| Llanllyfni | 1,216.20 | 1,418.90 | 1,621.60 | 1,824.30 | 2,229.70 | 2,635.10 | 3,040.50 | 3,648.60 | 4,256.70 |
| Llannor | 1,205.89 | 1,406.88 | 1,607.86 | 1,808.84 | 2,210.80 | 2,612.77 | 3,014.73 | 3,617.68 | 4,220.63 |
| Llanrug | 1,227.99 | 1,432.65 | 1,637.32 | 1,841.98 | 2,251.31 | 2,660.64 | 3,069.97 | 3,683.96 | 4,297.95 |
| Llanuwchllyn | 1,223.17 | 1,427.03 | 1,630.89 | 1,834.75 | 2,242.47 | 2,650.19 | 3,057.92 | 3,669.50 | 4,281.08 |
| Llanwnda | 1,216.88 | 1,419.69 | 1,622.51 | 1,825.32 | 2,230.95 | 2,636.57 | 3,042.20 | 3,650.64 | 4,259.08 |
| Llanycil | 1,205.93 | 1,406.92 | 1,607.91 | 1,808.90 | 2,210.88 | 2,612.86 | 3,014.83 | 3,617.80 | 4,220.77 |
| Llanystumdwy | 1,206.41 | 1,407.47 | 1,608.54 | 1,809.61 | 2,211.75 | 2,613.88 | 3,016.02 | 3,619.22 | 4,222.42 |
| Maentwrog | 1,206.73 | 1,407.85 | 1,608.97 | 1,810.09 | 2,212.33 | 2,614.57 | 3,016.82 | 3,620.18 | 4,223.54 |
| Mawddwy | 1,210.79 | 1,412.59 | 1,614.39 | 1,816.19 | 2,219.79 | 2,623.39 | 3,026.98 | 3,632.38 | 4,237.78 |
| Nefyn | 1,227.82 | 1,432.46 | 1,637.09 | 1,841.73 | 2,251.00 | 2,660.28 | 3,069.55 | 3,683.46 | 4,297.37 |
| Pennal | 1,212.19 | 1,414.23 | 1,616.26 | 1,818.29 | 2,222.35 | 2,626.42 | 3,030.48 | 3,636.58 | 4,242.68 |
| Penrhyndeudraeth | 1,228.02 | 1,432.69 | 1,637.36 | 1,842.03 | 2,251.37 | 2,660.71 | 3,070.05 | 3,684.06 | 4,298.07 |
| Pentir | 1,221.61 | 1,425.22 | 1,628.82 | 1,832.42 | 2,239.62 | 2,646.83 | 3,054.03 | 3,664.84 | 4,275.65 |
| Pistyll | 1,223.37 | 1,427.26 | 1,631.16 | 1,835.05 | 2,242.84 | 2,650.63 | 3,058.42 | 3,670.10 | 4,281.78 |
| Porthmadog | 1,213.21 | 1,415.42 | 1,617.62 | 1,819.82 | 2,224.22 | 2,628.63 | 3,033.03 | 3,639.64 | 4,246.25 |
| Pwllheli | 1,223.75 | 1,427.71 | 1,631.67 | 1,835.63 | 2,243.55 | 2,651.47 | 3,059.38 | 3,671.26 | 4,283.14 |
| Talsarnau | 1,237.65 | 1,443.92 | 1,650.20 | 1,856.47 | 2,269.02 | 2,681.57 | 3,094.12 | 3,712.94 | 4,331.76 |
| Trawsfynydd | 1,219.23 | 1,422.43 | 1,625.64 | 1,828.84 | 2,235.25 | 2,641.66 | 3,048.07 | 3,657.68 | 4,267.29 |
| Tudweiliog | 1,204.19 | 1,404.88 | 1,605.58 | 1,806.28 | 2,207.68 | 2,609.07 | 3,010.47 | 3,612.56 | 4,214.65 |
| Tywyn | 1,229.59 | 1,434.52 | 1,639.45 | 1,844.38 | 2,254.24 | 2,664.10 | 3,073.97 | 3,688.76 | 4,303.55 |
| Waunfawr | 1,206.85 | 1,408.00 | 1,609.14 | 1,810.28 | 2,212.56 | 2,614.85 | 3,017.13 | 3,620.56 | 4,223.99 |

## Cynnydd yn y Dreth Cyngor fesul Cymuned / Increase in Council Tax by Community

| Cymuned/ Community | Sylfaen Drethiannol / Taxbase (Band D) | Praesept / Precept £ | Treth Cymuned / Community Tax | Treth Gwynedd / Gwynedd Tax | Treth Heddlu / Police Tax | Cyfanswm / Total (Band D) 2021/22 | Band D 2020/21 £ | Cynnydd / Increase 20/21 - 21/22 | Cynnydd / Increase % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 542.74 | 15,000 | 27.64 | 1,483.23 | 305.55 | 1,816.42 | 1,748.31 | 68.11 | 3.9% |
| Aberdyfi | 980.22 | 37,348 | 38.10 | 1,483.23 | 305.55 | 1,826.88 | 1,758.40 | 68.48 | 3.9% |
| Abergwyngregyn | 117.00 | 3,000 | 25.64 | 1,483.23 | 305.55 | 1,814.42 | 1,746.43 | 67.99 | 3.9% |
| Abermaw (Barmouth) | 1,148.25 | 60,000 | 52.25 | 1,483.23 | 305.55 | 1,841.03 | 1,772.89 | 68.14 | 3.8% |
| Arthog | 617.37 | 13,000 | 21.06 | 1,483.23 | 305.55 | 1,809.84 | 1,740.76 | 69.08 | 4.0% |
| Y Bala | 771.50 | 27,000 | 35.00 | 1,483.23 | 305.55 | 1,823.78 | 1,752.95 | 70.83 | 4.0% |
| Bangor | 3,844.96 | 388,166 | 100.95 | 1,483.23 | 305.55 | 1,889.73 | 1,821.90 | 67.83 | 3.7% |
| Beddgelert | 296.64 | 10,500 | 35.40 | 1,483.23 | 305.55 | 1,824.18 | 1,756.79 | 67.39 | 3.8% |
| Betws Garmon | 130.44 | 2,600 | 19.93 | 1,483.23 | 305.55 | 1,808.71 | 1,740.19 | 68.52 | 3.9% |
| Bethesda | 1,696.45 | 126,179 | 74.38 | 1,483.23 | 305.55 | 1,863.16 | 1,790.35 | 72.81 | 4.1% |
| Bontnewydd | 433.07 | 18,500 | 42.72 | 1,483.23 | 305.55 | 1,831.50 | 1,763.19 | 68.31 | 3.9% |
| Botwnnog | 448.54 | 6,500 | 14.49 | 1,483.23 | 305.55 | 1,803.27 | 1,735.56 | 67.71 | 3.9% |
| Brithdir & Llanfachreth | 426.50 | 12,000 | 28.14 | 1,483.23 | 305.55 | 1,816.92 | 1,742.40 | 74.52 | 4.3% |
| Bryncrug | 325.38 | 12,859 | 39.52 | 1,483.23 | 305.55 | 1,828.30 | 1,758.30 | 70.00 | 4.0% |
| Buan | 224.84 | 3,750 | 16.68 | 1,483.23 | 305.55 | 1,805.46 | 1,737.61 | 67.85 | 3.9% |
| Caernarfon | 3,596.36 | 198,489 | 55.19 | 1,483.23 | 305.55 | 1,843.97 | 1,776.73 | 67.24 | 3.8% |
| Clynnog Fawr | 446.26 | 18,000 | 40.34 | 1,483.23 | 305.55 | 1,829.12 | 1,756.54 | 72.58 | 4.1% |
| Corris | 296.99 | 9,330 | 31.42 | 1,483.23 | 305.55 | 1,820.20 | 1,751.84 | 68.36 | 3.9% |
| Criccieth | 931.77 | 42,000 | 45.08 | 1,483.23 | 305.55 | 1,833.86 | 1,765.40 | 68.46 | 3.9% |
| Dolbenmaen | 603.77 | 18,000 | 29.81 | 1,483.23 | 305.55 | 1,818.59 | 1,750.02 | 68.57 | 3.9% |
| Dolgellau | 1,233.10 | 70,000 | 56.77 | 1,483.23 | 305.55 | 1,845.55 | 1,778.07 | 67.48 | 3.8% |
| Dyffryn Ardudwy | 831.65 | 50,000 | 60.12 | 1,483.23 | 305.55 | 1,848.90 | 1,783.24 | 65.66 | 3.7% |
| Y Felinheli | 1,136.66 | 40,000 | 35.19 | 1,483.23 | 305.55 | 1,823.97 | 1,755.82 | 68.15 | 3.9% |
| Ffestiniog | 1,713.50 | 230,000 | 134.23 | 1,483.23 | 305.55 | 1,923.01 | 1,856.30 | 66.71 | 3.6% |
| Y Ganllwyd | 86.79 | 3,000 | 34.57 | 1,483.23 | 305.55 | 1,823.35 | 1,753.80 | 69.55 | 4.0% |
| Harlech | 769.40 | 70,000 | 90.98 | 1,483.23 | 305.55 | 1,879.76 | 1,811.18 | 68.58 | 3.8% |
| Llanaelhaearn | 449.24 | 25,000 | 55.65 | 1,483.23 | 305.55 | 1,844.43 | 1,777.27 | 67.16 | 3.8% |
| Llanbedr | 336.30 | 15,000 | 44.60 | 1,483.23 | 305.55 | 1,833.38 | 1,766.46 | 66.92 | 3.8% |
| Llanbedrog | 720.36 | 22,500 | 31.23 | 1,483.23 | 305.55 | 1,820.01 | 1,750.77 | 69.24 | 4.0% |
| Llanberis | 768.82 | 32,000 | 41.62 | 1,483.23 | 305.55 | 1,830.40 | 1,759.69 | 70.71 | 4.0% |
| Llandwrog | 1,027.80 | 66,000 | 64.21 | 1,483.23 | 305.55 | 1,852.99 | 1,782.84 | 70.15 | 3.9% |
| Llandygai | 1,000.88 | 26,363 | 26.34 | 1,483.23 | 305.55 | 1,815.12 | 1,746.42 | 68.70 | 3.9% |
| Llanddeiniolen | 1,832.32 | 31,800 | 17.36 | 1,483.23 | 305.55 | 1,806.14 | 1,738.27 | 67.87 | 3.9% |
| Llandderfel | 496.58 | 9,000 | 18.12 | 1,483.23 | 305.55 | 1,806.90 | 1,739.01 | 67.89 | 3.9% |
| Llanegryn | 157.54 | 5,500 | 34.91 | 1,483.23 | 305.55 | 1,823.69 | 1,754.68 | 69.01 | 3.9% |
| Llanelltyd | 288.90 | 7,500 | 25.96 | 1,483.23 | 305.55 | 1,814.74 | 1,746.60 | 68.14 | 3.9% |
| Llanengan | 2,105.34 | 55,000 | 26.12 | 1,483.23 | 305.55 | 1,814.90 | 1,746.98 | 67.92 | 3.9% |
| Llanfair | 311.58 | 16,000 | 51.35 | 1,483.23 | 305.55 | 1,840.13 | 1,773.16 | 66.97 | 3.8% |
| Llanfihangel y Pennant | 223.75 | 11,525 | 51.51 | 1,483.23 | 305.55 | 1,840.29 | 1,772.69 | 67.60 | 3.8% |
| Llanfrothen | 224.08 | 9,300 | 41.50 | 1,483.23 | 305.55 | 1,830.28 | 1,757.81 | 72.47 | 4.1% |
| Llangelynnin | 407.39 | 9,800 | 24.06 | 1,483.23 | 305.55 | 1,812.84 | 1,744.64 | 68.20 | 3.9% |
| Llangywer | 137.01 | 4,250 | 31.02 | 1,483.23 | 305.55 | 1,819.80 | 1,750.02 | 69.78 | 4.0% |
| Llanllechid | 336.00 | 15,450 | 45.98 | 1,483.23 | 305.55 | 1,834.76 | 1,764.49 | 70.27 | 4.0% |
| Llanllyfni | 1,407.84 | 50,000 | 35.52 | 1,483.23 | 305.55 | 1,824.30 | 1,755.67 | 68.63 | 3.9% |
| Llannor | 905.46 | 18,160 | 20.06 | 1,483.23 | 305.55 | 1,808.84 | 1,741.07 | 67.77 | 3.9% |
| Llanrug | 1,127.82 | 60,000 | 53.20 | 1,483.23 | 305.55 | 1,841.98 | 1,774.29 | 67.69 | 3.8% |
| Llanuwchllyn | 304.53 | 14,000 | 45.97 | 1,483.23 | 305.55 | 1,834.75 | 1,756.70 | 78.05 | 4.4% |
| Llanwnda | 789.27 | 28,840 | 36.54 | 1,483.23 | 305.55 | 1,825.32 | 1,756.06 | 69.26 | 3.9% |
| Llanycil | 198.76 | 4,000 | 20.12 | 1,483.23 | 305.55 | 1,808.90 | 1,741.59 | 67.31 | 3.9% |
| Llanystumdwy | 864.34 | 18,000 | 20.83 | 1,483.23 | 305.55 | 1,809.61 | 1,741.68 | 67.93 | 3.9% |
| Maentwrog | 283.93 | 6,051 | 21.31 | 1,483.23 | 305.55 | 1,810.09 | 1,742.44 | 67.65 | 3.9% |
| Mawddwy | 346.60 | 9,500 | 27.41 | 1,483.23 | 305.55 | 1,816.19 | 1,745.92 | 70.27 | 4.0% |
| Nefyn | 1,458.93 | 77,250 | 52.95 | 1,483.23 | 305.55 | 1,841.73 | 1,772.52 | 69.21 | 3.9% |
| Pennal | 215.54 | 6,360 | 29.51 | 1,483.23 | 305.55 | 1,818.29 | 1,749.79 | 68.50 | 3.9% |
| Penrhyndeudraeth | 779.36 | 41,500 | 53.25 | 1,483.23 | 305.55 | 1,842.03 | 1,771.45 | 70.58 | 4.0% |
| Pentir | 1,260.20 | 55,000 | 43.64 | 1,483.23 | 305.55 | 1,832.42 | 1,761.12 | 71.30 | 4.0% |
| Pistyll | 259.32 | 12,000 | 46.27 | 1,483.23 | 305.55 | 1,835.05 | 1,766.94 | 68.11 | 3.9% |
| Porthmadog | 2,016.47 | 62,581 | 31.04 | 1,483.23 | 305.55 | 1,819.82 | 1,751.86 | 67.96 | 3.9% |
| Pwllheli | 1,729.10 | 81,000 | 46.85 | 1,483.23 | 305.55 | 1,835.63 | 1,765.85 | 69.78 | 4.0% |
| Talsarnau | 325.03 | 22,000 | 67.69 | 1,483.23 | 305.55 | 1,856.47 | 1,788.09 | 68.38 | 3.8% |
| Trawsfynydd | 499.20 | 20,000 | 40.06 | 1,483.23 | 305.55 | 1,828.84 | 1,761.01 | 67.83 | 3.9% |
| Tudweiliog | 457.21 | 8,000 | 17.50 | 1,483.23 | 305.55 | 1,806.28 | 1,738.13 | 68.15 | 3.9% |
| Tywyn | 1,624.58 | 90,328 | 55.60 | 1,483.23 | 305.55 | 1,844.38 | 1,776.77 | 67.61 | 3.8% |
| Waunfawr | 558.03 | 12,000 | 21.50 | 1,483.23 | 305.55 | 1,810.28 | 1,742.18 | 68.10 | 3.9% |

| **Awdurdod** | **2021/22** | **2020/21** | | **Authority** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyngor Gwynedd** | **1,483.23** | **1,430.31** | **3.7%** | **Gwynedd Council** |
| **Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru** | **305.55** | **290.61** | **5.1%** | **North Wales Police & Crime Commissioner** |
| **Cynghorau Cymuned (Cyfartaledd)** | **49.03** | **48.23** | **1.7%** | **Community Councils (Average)** |
| **Cyfanswm** | **1,837.81** | **1,769.15** | **3.9%** | **Total** |

# CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR DYDD GWENER, 23 EBRILL 2021

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Simon Glyn (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Annwen Daniels, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Linda A.Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dafydd Owen, W.Roy Owen, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams a Gruffydd Williams.

**Swyddogion:**
Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol / Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr:- Dylan Bullard, R.Glyn Daniels, Peter Garlick, Annwen Hughes, R.Medwyn Hughes, Sion Wyn Jones, Dewi Owen, Jason Parry, Dyfrig Siencyn, Hefin Underwood a Gethin Glyn Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Eglurodd y Swyddog Monitro, oherwydd natur y cyfarfod, na fyddai manylion yr ymgeisydd am swydd y Prif Weithredwr yn hysbys hyd oni fyddai Cadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion wedi cyflwyno argymhelliad y pwyllgor dan eitem 7 ar y rhaglen. Gan hynny, byddai cyfle i unrhyw aelod ddatgan buddiant yn dilyn cyflwyno'r argymhelliad.

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawyd y Cynghorydd Beca Brown, yr Aelod newydd dros Ward Llanrug, i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor.

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

- Y Teulu Brenhinol ar farwolaeth ei Uchelder Brenhinol, Dug Caeredin.
- Teulu Maldwyn Lewis, Porthmadog, a nodwyd y rhoddid teyrnged lawn iddo yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Annwen Hughes ar ddod yn Nain i ferch fach, Bowen Eila.

**4. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Dim i'w nodi.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD**
**Cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

**7. PENODI PRIF WEITHREDWR**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion, y Cynghorydd Dafydd Meurig, argymhelliad y pwyllgor yn eu cyfarfod ar 16 Ebrill, 2021 i'r Cyngor benodi ymgeisydd yn Brif Weithredwr.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

Derbyniwyd yr ymgeisydd i mewn i'r cyfarfod, ac fe'i wahoddwyd i roi cyflwyniad i aelodau'r Cyngor.

Yn dilyn y cyflwyniad, ymatebodd yr ymgeisydd i gyfres o gwestiynau gan yr aelodau.

**PENDERFYNWYD penodi Mr Dafydd Gibbard i'r swydd Prif Weithredwr, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion.**

**8. AIL-AGOR Y CYFARFOD I'R WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD ail-agor y cyfarfod i'r wasg a'r cyhoedd.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.15 y.h.

____________________________
**CADEIRYDD**

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 13eg o Fai, 2021 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau |
| **Swyddog Cyswllt:** | Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Argymhellir bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a gyflwynir er gwybodaeth.

**2. CEFNDIR A RHESYMEG**

2.1 Cyflwynir isod fy adroddiad blynyddol yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Noder yn y ddeddf fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:

- Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth
- Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl,
- Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.

2.2 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y datblygiadau a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn yn hytrach nag amlinellu'r holl gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau, gan hefyd amlinellu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

2.3 Rwy'n parhau i bwysleisio fod yn rhaid wrth ddeialog agored gyda chi fel Aelodau etholedig er mwyn sicrhau fod y gefnogaeth a ddarperir i chi yn ateb eich gofynion ar gyfer y rôl ac felly rwy'n eich annog i gysylltu gyda mi neu'r Cadeirydd i godi unrhyw faterion perthnasol.

2.4 Yn ogystal, dymunaf ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgor, ac i swyddogion y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith, am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan edrych ymlaen at gyd-weithio i'r dyfodol er mwyn datblygu'r ddarpariaeth ymhellach.

## 3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 Ymgynghorwyd ag aelodau y Pwyllgor Gwasnaethau Democratiaeth a derbyn eu mewnbwn cyn cyflwyno'r adroddiad yn derfynol i'r cyfarfod hwn o'r Cyngor llawn.

### 3.2 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

**Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ar gyfnod sydd o fewn argyfwng wedi bod yn drawsnewidiol yng nghyd destun trefniadau democrataidd y Cyngor. Fel y nodi'r mae dyfodiad y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn parhau ar y llwybr o newid yma. Rwy'n edrych ymlaen I gyd weithio gyda'r Gwasanaeth ar y datblygiad yma.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Deallaf fod yr adroddiad blynyddol hwn gerbron er gwybodaeth, felly does gen i ddim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol. Er gwaethaf heriau a gyflwynwyd gan Covid-19, rwyf innau a'r Gwasanaeth TG wedi mwynhau gweithio gyda'r aelodau etholedig a'r Gwasanaethau Democratiaeth er mwyn llwyddo i gynnal cyfarfodydd ar-lein.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH (2020/21)

## - Cefnogaeth i Aelodau Etholedig Gwynedd

DRAFFT

RHOI POBL GWYNEDD YN GANOLOG I BOPETH RYDYM YN EI WNEUD • PUTTING THE PEOPLE OF GWYNEDD AT THE CENTRE OF EVERYTHING WE DO

## RHAGAIR

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol i Aelodau Cyngor Gwynedd.  Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddatblygiadau 2020/21 a'r hyn sydd i'w ddatblygu yn 2021/22.

Yn dilyn blwyddyn heriol, annisgwyl a gwahanol iawn yn 2020/21, mae'n ymddangos y bydd 2021/22 hefyd yn flwyddyn llawn heriau, o'r paratoadau ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol ym Mai 2022 i oblygiadau gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.


Mae adolygu a gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau etholedig, er mwyn cyflawni'r rôl, yn rhan greiddiol o fy ngwaith i, ac mae mewnbwn a chefnogaeth aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn fy nghynorthwyo gyda'r gwaith pwysig yma.

Unwaith eto eleni, rwy'n annog unrhyw Aelod i beidio ag oedi rhag cysylltu, gyda mi yn uniongyrchol neu gyda Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, pe byddech am drafod unrhyw agwedd o'r gefnogaeth sydd ei angen arnoch.

Dymunaf ddiolch a nodi fy ngwerthfawrogiad o'r holl ymdrechion a fu yn ystod y flwyddyn er mwyn cynnal y broses ddemocrataidd o fewn y Cyngor, gan edrych ymlaen i gydweithio ar ddatblygiadau pellach yn ystod y flwyddyn i ddod.

DRAFT





**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth,**
**Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

## Beth sydd wedi digwydd yn 2020/21

Mae hi yn amhosib edrych yn ôl ar 2020/21 heb sôn am bandemig Covid-19. Bu i'r pandemig effeithio ar bob elfen o fywyd bob dydd, ac o'i ganlyniad roedd rhaid ail edrych yn gyfan gwbl ar y ffordd roedd y Gwasanaeth Democratiaeth yn gweithio.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Gwasanaeth wedi bod yn ystyried sut i alluogi Aelodau fynychu cyfarfodydd a phwyllgorau o bell. Mae'r cynllun hwn wedi carlamu yn ei flaen eleni, yn benodol oherwydd y gofyn i gydymffurfio a chanllawiau Covid-19, gyda holl gyfarfodydd pwyllgorau'r Cyngor wedi'u cynnal yn rhithiol erbyn Hydref 2020. Er mwyn cynorthwyo Aelodau gyda'r newid hwn cynhaliwyd nifer o sesiynau hyfforddiant (sesiynau cyffredinol a fesul pwyllgor penodol) er mwyn rhoi cyfle i aelodau ymarfer ar Teams a Zoom cyn cynnal cyfarfod pwyllgor yn ffurfiol . Cynhyrchwyd canllawiau ar gyfer cadeirio cyfarfodydd rhithiol a rhannwyd arferion da i'w cofio amdanynt wrth gymryd rhan yn y cyfarfodydd ar-lein.

Cynhaliwyd 107 o bwyllgorau ffurfiol yn rhithiol yn ystod y flwyddyn gyda pob un hefo darpariaeth i'w cynnal yn ddwyieithog. Bu i pob Aelod gymryd rhan mewn o leiaf un cyfarfod pwyllgor rhithiol. Yn ogystal, ers mis Hydref 2020, llwyddwyd i gynnal cyfarfodydd yn unol a'r dyddiadau yn yr amserlen pwyllgorau a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn yn ôl ym mis Mawrth 2020.

Bu i gyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor llawn gael eu gwe ddarlledu yn fyw o fis Hydref ymlaen.  Yn ogystal, llwyddwyd i recordio cyfarfodydd eraill gyda mwy na 20 o recordiadau byw o'r holl gyfarfodydd wedi eu cynnwys ar y wefan o fewn cyfnod byr i'w cynnal.

Hoffwn ddiolch yn arbennig eleni i'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth am yr holl gefnogaeth mae'r swyddogion yno wedi ei roi i'r Tîm Gwasanaethau Democratiaeth (ac i Aelodau) ac am fod mor barod i gynnig cyngor a datrys problemau sydd wedi codi. Hyn oll er mwyn sicrhau fod modd cynnal cyfarfodydd rhithiol yn effeithiol a llwyddiannus.

Yn ystod y pandemig bu i'r Gwasanaeth barhau i ddarparu'r holl gefnogaeth arferol, sy'n cynnwys:

- ✓ Trefnu, cyhoeddi a chofnodi cyfarfodydd y Cyngor – yn amserol ac i safon uchel yn gyson.  Mae 92% o raglenni yn cael eu cyhoeddi yn electroneg 5 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfodydd gan y Cyngor.
- ✓ Yn unol a chanllawiau Covid-19 Llywodraeth Cymru mae 96% o hysbysiadau penderfyniadau Pwyllgorau wedi eu cyhoeddi yn electroneg o fewn 5 diwrnod gwaith clir yn dilyn unrhyw bwyllgor.
- ✓ Cydymffurfio gyda gofynion Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol gan sicrhau talu cyflogau a threuliau Aelodau yn amserol.
- ✓ Cefnogaeth wleidyddol i'r grwpiau gwleidyddol cymwys
- ✓ Adolygu'r cydbwysedd gwleidyddol yn unol â'r gofyn

DRAFT

- ✓ Cynnig sesiynau mentora 1-1 ar gais aelodau
- ✓ Cynhyrchu Newyddlen i ddiweddaru'r aelodau o'r trafodaethau y Pwllgor Gwasnaethau Democratiaeth

Yn ogystal, hoffwn dynnu eich sylw at y prosiectau penodol a nodir isod:

**Mewnrwyd Aelodau:**

Ers rhai blynyddoedd bellach mae datblygu'r "Porth" wedi bod ar raglen waith y Gwasanaeth er mwyn darparu gwybodaeth yn hwylus ac amserol i Aelodau. Yn ystod 2019/20 bu i waith pellach gael ei wneud i ddatblygu safle mewnrwyd ar gyfer Aelodau a fyddai'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Bu i'r cynllun gael ei roi i un ochr ar ddechrau 2020/21 gan fod angen canolbwyntio yn benodol ar sicrhau parhad pwyllgorau ffurfiol yn ystod y Pandemig. Fodd bynnag, ail gychwynnwyd ar y gwaith yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ac yn dilyn treialu'r fewnrwyd ar ei newydd wedd gyda nifer fechan o Gynghorwyr, mae'r ddarpariaeth nawr ar gael i bob Aelod.

Bydd y fewnrwyd yn cael ei ddiweddaru'n gyson ond mae swyddogion yn awyddus iawn i glywed eich barn a chael eich mewnbwn i sicrhau fod y wybodaeth sydd ar gael yno yn ddefnyddiol ac yn rhwydd a hwylus i'w ddarganfod.

**Holiadur Aelodau**

Yn ôl ym mis Chwefror 2020 anfonwyd holiadur at bob un Cynghorydd i holi eich barn ynghylch y gefnogaeth a ddarperir gan y Tîm Gwasanaethau Democratiaeth, yn ogystal â beth ellid ei wneud i wella'r gefnogaeth honno. Cafwyd nifer uchel o ymatebion gyda dros 80% o'r Aelodau yn nodi fod y gefnogaeth a ddarperir yn "dda iawn".

Fodd bynnag, cyflwynwyd nifer o syniadau ynghylch beth ellir ei wella. Y mater a godwyd gan y mwyafrif o Aelodau oedd yr angen i wneud mwy o ddefnydd o gyfarfodydd ar lein. Fel ag y nodwyd eisoes, mae eleni wedi amlygu'r camau enfawr sydd wedi eu cymryd i symud y cynllun hwn yn ei flaen gyda golwg i sefydlu trefniadau tymor hir yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae holiadur arall wedi cael ei anfon at yr holl Aelodau ym mis Ebrill 2021, ac fe anogir pawb i'w lenwi. Byddwn yn adrodd ar y canlyniadau i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth sydd i'w gynnal ym mis Mehefin yn amlygu'r prif negeseuon a'r camau datblygol nesaf.

**Cymorth i Aelodau**

Mae'r flwyddyn a fu wedi bod yn heriol iawn i chi fel aelodau, a nifer ohonoch wedi nodi fod eich rôl wedi newid. Mewn ymateb i geisiadau gan aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, llwyddwyd i drefnu sesiynau ar gyfer aelodau

DRAFT

etholedig i sicrhau eich bod yn edrych ar ôl eich llesiant meddyliol yn ystod y cyfnod anodd hwn a chafwyd gwerthfawrogiad mawr i'r sesiynau hyn.

Yn ogystal, daeth yr angen i edrych ar ôl eich iechyd corfforol i'r amlwg gan fod mwy a mwy ohonom yn treulio cyfnodau hir wrth ddesg yn gweithio a chymryd rhan mewn amrywiol bwyllgorau a chyfarfodydd.  Mater arall a gafodd ei godi gan aelodau'r pwyllgor oedd yr angen am arweiniad, neu "tips" ynghylch diogelwch gwybodaeth wrth fod yn gweithio o bell.  Rhoddwyd sylw i'r ddau fater uchod gyda gwybodaeth wedi ei rannu gyda'r holl aelodau trwy gyfrwng Newyddlen y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ac wedi eu cynnwys ar y mewnrwyd aelodau newydd.

Rydym hefyd yn trefnu sesiynau anffurfiol yn rhoi cyfle i aelodau etholedig holi am faterion ynghylch defnyddio technoleg.  Mae'r sesiynau hyn yn ychwanegol i'r gefnogaeth dydd i ddyd a roddi'r gan aelodau'r tîm democratiaeth, a'r gefnogaeth a roddir gan desg gymorth Technoleg Gwybodaeth pan fo materion technegol yn codi. Unwaith eto, roedd yn fater a gododd gan aelodau'r pwyllgor yn ystod un o'r cyfarfodydd, a llwyddwyd i roi cefnogaeth mewn lle i chi.

## Blaenoriaethau 2021/22

Fodd bynnag, nid da lle gellir gwell ac yn yr ysbryd o anelu am welliant parhaus, gweler y cynlluniau isod ar gyfer ceisio symud y ddarpariaeth ar gyfer Aelodau Etholedig i'r lefel nesaf yn ystod 2021/22.

**Adeiladu ar ddatblygiadau eleni**

Mae 2020/21 wedi bod yn flwyddyn o newid ond yn amlwg bydd angen parhau i ddatblygu ac i adeiladu ar y newidiadau sydd wedi bod yn i'r ffordd o weithio. Mae cyfres o arferion da wedi'u cyflwyno yn ystod y flwyddyn ond bydd nifer o wersi i'w dysgu yn ogystal. Bydd angen cymryd amser i fyfyrio gan bwyso a mesur yr holl ddatblygiadau a gyflawnwyd.

Bydd angen adolygu'r fframwaith ar gyfer cyfarfodydd i'r dyfodol pan fyddwn i gyd yn camu allan o'r pandemig ac i'r 'normal' newydd. Yn benodol bydd angen ystyried sut y bydd pwyllgorau yn cael eu cynnal, bo hynny yn rhithiol, wyneb i wyneb neu'n gyfuniad o'r ddau.

O dderbyn y bydd yr adolygiad yn arwain at gasgliad y byddai modd cynnal rhai cyfarfodydd ple bo rhai Aelodau mewn ystafell bwyllgor ac eraill yn ymuno o gartref, bydd angen ystyried addasiadau a buddsoddiad yn y cyfleusterau presennol er mwyn sicrhau bod y dechnoleg yn gweithio yn rhwydd ac yn effeithiol. Yn amlwg mae hyn hefyd yn cyd-fynd a gobfynion Deddf Llywdoraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

DRAFT

Yn fuan yn 2021/22  gobeithir gwe ddarlledu yn fyw o Bwyllgorau Cynllunio gan arwain wedyn i ail-gychwyn gwe ddarlledu byw o'r Pwyllgorau Craffu. Golyga hyn y bydd y gwasanaeth yn gwe ddarlledu yn unol â'r rhaglen waith flaenorol cyn yr argyfwng.

**Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Bydd gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn dod i rym yn raddol yn ystod 2021/22 a bydd angen sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda'r amodau o fewn y Ddeddf. Bydd angen edrych yn fanwl ar rai elfennau megis;

- gofynion gwe-ddarlledu,
- annog pobl leol i gymryd rhan pan fo llywodraeth leol yn gwneud penderfyniadau,
- dyletswydd i wneud a chyhoeddi cynllun deisebau,
- parhau gyda'r gwaith o sicrhau mynediad o bell fel modd o hwyluso gallu Aelodau i gyfrannu mewn pwyllgorau.

**Etholiadau 2022**

Gydag etholiadau llywodraeth leol ar y gorwel ym Mai 2022, bydd angen parhau a'r gwaith o baratoi ar eu cyfer.

Bydd angen parhau â'r gwaith o hybu amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr, yn arbennig o safbwynt pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig a merched. Bydd angen datblygu'r gwaith o geisio adnabod y rhwystrau gan sefydlu rhaglen waith i ymateb i hynny a chydweithio hefo'r grwpiau gwleidyddol er mwyn hyrwyddo'r agenda hon.

Er mwyn adeiladu ar y gwaith da a wnaethpwyd cyn Etholiad 2017 bydd angen:

- datblygu sesiynau codi ymwybyddiaeth ar gyfer rhai sydd yn rhoi eu henwau ymlaen i sefyll yn yr etholiadau ym Mai 2022.  Bydd hyn yn gyfle i ddarpar Aelodau ystyried a deall y sefyllfa cyn iddynt gael eu henwebu yn ffurfiol – gan geisio sicrhau gwell eglurder o'r cyfleoedd iddynt, y gofynion arnynt, a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt yn dilyn etholiad llwyddiannus.
- adolygu a pharatoi rhaglen anwytho ar gyfer Aelodau etholedig yn y Cyngor newydd ôl-Mai 2022.  Derbyniwyd sylwadau adeiladol a defnyddiol am y rhaglen anwytho yn 2017, ac mae angen cynllunio'r sesiynau anwytho a hyfforddiant dilynol ddigon ymlaen llaw gan ystyried sylwadau a dderbyniwyd eisoes yn ogystal ag ymgynghori ymhellach gydag Aelodau presennol.
- ystyried addasrwydd cyfarpar electroneg.  Mae angen cychwyn ystyried yn awr beth yw / fydd anghenion Aelodau etholedig a'r Cyngor i'r dyfodol, gan ddechrau paratoi ac ystyried beth yw'r cyfarpar mwyaf addas i'w gynnig i Aelodau yn dilyn etholiadau Mai 2022.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD** | **13 Mai 2021** |
| **AELODAU CABINET** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan** |
| **TEITL** | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno'r adroddiad er sylw Aelodau'r Cyngor** |
| **AWDUR** | **Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Corfforaethol** |

**1. Cefndir**

1.1. Ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn flaenorol.

1.2. Diben yr adroddiad blynyddol yw nodi taith yr awdurdod lleol tuag at wella wrth ddarparu gwasanaethau i bobl yn eu hardaloedd, y rheiny sy'n derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth, a'r unigolion a'r gofalwyr hynny sy'n derbyn gofal a chymorth. O dan ofynion newydd y Ddeddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant mae angen i'r adroddiad ddangos sut mae awdurdodau lleol wedi hyrwyddo lles a rhoi cyfrif am gyflwyno safonau lles.

1.3. Gofynnir i mi fel Cyfarwyddwr ystyried yr ystod wybodaeth a phrofiadau sy'n effeithio ar allu Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dibynadwy, cynaliadwy, o'r safon uchaf, gan fynegi fy marn yn yr adroddiad a'i gyflwyno i'r Cyngor.

1.4. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at unrhyw wersi a ddysgwyd, ac yn amlinellu'r blaenoriaethau am y flwyddyn i ddod. Mae hefyd yn egluro sut y gwnaethom asesu anghenion pobl, a'u cynnwys yn ganolog wrth siapio ein gwasanaethau a'n darpariaeth gofal.

1.5. Wrth gwrs, mae argyfwng Covid-19 wedi cael effaith ddigynsail ar flwyddyn ariannol 2020/21. Er gwaetha'r heriau a wynebwyd yn sgil y pandemig, rwy'n falch iawn o nodi fod perfformiad gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn a fu wedi bod yn gadarnhaol unwaith eto. Fodd bynnag, wrth i ni ganolbwyntio ar ymdopi gydag argyfwng Covid-19, mae rhai blaenoriaethau yr oedd gennym wedi llithro rhywfaint neu wedi eu rhoi o'r neilltu am y tro. O ganlyniad i hynny, mae fy adroddiad eleni yn canolbwyntio ar y ffordd yr ydym wedi ymateb i'r pandemig a'r modd yr ydym wedi parhau i gynnal a darparu ein gwasanaethau

hanfodol a gofalu am ein trigolion bregus, yn ogystal â datblygu a darparu gwasanaethau newydd a thrawsffurfio.

1.6. Mae perfformiad y gwasanaethau perthnasol yn cael eu herio yn unol â threfniadau perfformiad mewnol y Cyngor ac mae adroddiadau ar y perfformiad hwn yn cael eu cyflwyno gan yr aelodau Cabinet perthnasol yn rheolaidd. Bydd trosolwg o berfformiad y gwasanaethau am y flwyddyn gyfan hefyd ar gael yn Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd ar gyfer 2020/21.

## 2. Argymhelliad

2.1. Gofynnir i'r Cyngor dderbyn yr adroddiad sydd wedi ei gyflwyno gan y Cyfarwyddwyr Statudol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod.

## 3. Barn y Swyddogion Statudol


**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r cyfnod hynod o heriol a brofwyd gan y gwasanaethau yn ystod y flwyddyn.

**Pennaeth Cyllid:**

Nodaf fod adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr yn gosod allan blaenoriaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol am y flwyddyn 2021/22. Disgwylir bod yr adrannau gofal Oedolion a Phlant yn anelu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn o fewn eu hadnoddau presennol, drwy gyd-weithio ar weithgareddau gyda gwahanol adrannau a chyrff allanol, a drwy sicrhau ariannu ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Ni fydd cymeradwyo'r adroddiad blynyddol hwn yn golygu unrhyw ymrwymiad ariannol ychwanegol gan y Cyngor; bydd aelodau yn cofio rhoddwyd sylw priodol i hynny wrth osod cyllideb 2021/22.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol



2020/21

www.gwynedd.llyw.cymru

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Arweiniad Ieithyddol

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, gofynnwch i rywun yr ydych yn eu hadnabod sydd yn siarad Cymraeg neu Saesneg i ffonio 01766 771000.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

If you need further information, please ask someone you know who speaks English or Welsh to telephone 01766 77100

Jeżeli potrzebują państwo dalszych informacji, proszę poprosić kogoś, kto mówi po angilesku lub walijsku żeby zadzwonił pod numer 01766 771000

Se você precisar de nova informação, por favor pergunte alguém você sabe quem diz o galês o'r inglês para telefonar 01766 771000

如果您需要更多信息，请向你认识的人谁讲英语或威尔士电话：01766 771000

আপনার যদি আরো তথ্যের প্রয়োজন হয়, তাহলে আপনার জানা ইংরেজী অথবা ওয়েলশ ভাষা বলতে পারেন এমন কাউকে অনুগ্রহ করে01766 771000 নম্বরে টেলিফোন করতে বলুন

اگر آپ کو مزید معلومات درکار ہوں تو براے مہربانی انگریزی یا ویلش زبان جاننے والے اپنے کسی واقف کار سے کہیں کہ وہ آپ کی جانب سے فون نمبر 01766 771000 سے رابطہ کریں۔

اذا كنت بحاجة الى مزيد من المعلومات ، يرجى الطلب من شخص ما تعرف من يتحدث الإنجليزية أو الويلزية الهاتف01766771000

# Cyflwyniad

Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad ynglŷn â dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol dros y flwyddyn flaenorol. Pwrpas yr adroddiad blynyddol hwn, felly, yw gwerthuso perfformiad yr awdurdod lleol mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol, a thynnu sylw at unrhyw wersi sydd wedi'u dysgu neu welliannau sydd angen eu cyflwyno. Dylai'r adroddiad hefyd osod amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod mewn perthynas â hyrwyddo llesiant pobl a gofalwyr sydd angen gofal a chefnogaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn trefn benodol, gan fod angen i ni adrodd ar sut yr ydym fel Cyngor wedi cyflawni yn erbyn y chwe safon ansawdd llesiant sydd wedi'u nodi o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae ffurf yr adroddiad bellach yn ofyniad, ac mae gofyn i bob awdurdod lleol fesur perfformiad eu gwasanaethau cymdeithasol drwy ddefnyddio'r dangosyddion a'r mesurau perfformiad perthnasol yn erbyn y safonau ansawdd. Er mwyn llunio'r adroddiad hwn, cefais sylwadau a chymorth gan grwpiau ffocws, a diolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfraniadau. Wedi darllen yr adroddiad, pe byddai gennych unrhyw sylwadau ar y cynnwys, neu o ran sut i lunio gwasanaethau at y dyfodol, rwy'n awyddus iawn i glywed gennych:

**AwenMorwenaEdwards@gwynedd.llyw.cymru**
01286 679468

## Cynnwys


1. Rhagair gan y Cyfarwyddwr 4

2. Sut mae pobl yn ein cefnogi i lunio ein gwasanaethau 6

3. Hyrwyddo a gwella lles y rheiny yr ydym yn eu cynorthwyo 9

4. Sut rydym yn gwneud ein gwaith 31

5. Blaenoriaethau 2021/22 37

6. Gwybodaeth Bellach a Dogfennau Allweddol 38

ATODIAD 1: Gwybodaeth ynghylch y Safonau Ansawdd fel nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) 39

ATODIAD 2: Astudiaethau Achos 42

ATODIAD 3: Mesurau Perfformiad 45



# 1.Rhagair gan y Cyfarwyddwr

**Rwyf yn falch iawn o gyflwyno fy adroddiad blynyddol fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn 2020/21. Yn amlwg, mae eleni wedi bod yn flwyddyn wahanol iawn i bawb wrth i ni ymrafael â phandemig Covid-19, ac mae'r argyfwng hwn wedi effeithio ar ein ffordd o weithio er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant pobl Gwynedd.**

Yn sgil hynny, hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch o waelod calon i bob un o weithwyr gofal y sir sydd wedi mynd y tu hwnt i'r gofyn i roi'r gofal gorau bosib i'n trigolion. Mae'n wir dweud bod ein gweithwyr wedi dangos cryfder arwrol wrth weithio i frwydro'n ddiflino yn erbyn effeithiau Covid-19, ac mae fy ngwerthfawrogiad iddynt, boed yn staff sy'n gweithio i'r Cyngor neu i asiantaeth allanol neu'r trydydd sector, yn ddiffuant. Rwyf wedi clywed nifer helaeth o straeon am weithwyr sydd wedi mynd y filltir ychwanegol, nid unwaith, ond yn barhaus, ac mae'r hyn yr wyf wedi'i glywed yn wirioneddol ysbrydoledig. Wrth gwrs, mae angen cofio bod y gweithwyr hyn yn aml wedi bod yn gweithio o adref yn hytrach nag o'r swyddfa, ac mae hyn yn ei hun yn rhoi pwysau ychwanegol arnynt gan eu bod yn colli cefnogaeth anffurfiol gan gydweithwyr.

Mae'n bleser gennyf ddweud bod ein perfformiad eleni wedi bod yn un cadarnhaol, a hynny er gwaetha'r heriau anferthol a'r straen sydd wedi bod ar ein staff i ddiogelu trigolion y sir yn ystod y pandemig byd-eang. Fodd bynnag, wrth i ni ganolbwyntio ar ymdopi gydag argyfwng Covid-19, mae rhai blaenoriaethau yr oedd gennym wedi llithro rhywfaint neu wedi eu rhoi o'r neilltu am y tro. O ganlyniad i hynny, bydd fy adroddiad eleni yn canolbwyntio ar y ffordd yr ydym wedi ymateb i'r pandemig a'r modd yr ydym wedi parhau i gynnal a darparu ein gwasanaethau hanfodol yn ogystal â datblygu a darparu gwasanaethau newydd.

Mae cartrefi gofal y sir wedi bod dan straen anferthol, ac maent wedi ymdopi'n rhagorol o ystyried y sefyllfa. Yn ogystal, bu darparu gofal cartref yn heriol tu hwnt, ac mae ein diolch yn fawr i'r teuluoedd hynny a fu'n cefnogi eu perthnasau drwy gydol y cyfnod anodd hwn er mwyn ein galluogi ni i ddygymod gyda'r argyfwng.

Rwyf hefyd yn hynod werthfawrogol i'n Gofalwyr Maeth am ofalu mor dda am ein plant, a hynny dan amgylchiadau anodd heb y gefnogaeth arferol wyneb yn wyneb. Yn yr un modd, mae gofalwyr di-dâl y sir wedi gorfod ymdopi gyda sefyllfaoedd arbennig o heriol ac rwyf yn cydnabod cyfraniad bob un ohonynt dros y flwyddyn.

Yn ogystal â'r gwaith gofal uniongyrchol, rwyf hefyd yn cydnabod cyfraniad amhrisiadwy adrannau'r Cyngor nad ydynt fel arfer yn cael cydnabyddiaeth gennyf yn fy adroddiad blynyddol. Yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi bod yn dyst i gyfraniad yr adrannau eraill i waith gofal cymdeithasol, lle dangosodd nifer o weithwyr ar draws y Cyngor eu parodrwydd i gefnogi'r agenda gofal drwy adleoli i weithio mewn meysydd diarth neu i weithio ymhell y tu hwnt i ofynion eu swyddi arferol. Mae fy niolch yn fawr i bob un ohonynt.

Rwyf yn awyddus i ddiolch i un unigolyn yn benodol eleni, sef y Prif Weithredwr, Mr Dilwyn Williams. Mae Dilwyn yn ymddeol ym mis Ebrill 2021 ac ni allaf ddiolch digon iddo am ei arweiniad a'i gefnogaeth yn ystod ei gyfnod fel Prif Weithredwr. Heb os nac oni bai, mae wedi bod yn gefn imi fel Cyfarwyddwr, ac mae hefyd wedi cymryd diddordeb arbennig yn y maes gofal a gwasanaethau cymdeithasol lle byddai'n mynychu cyfarfodydd Diogelu a Rhiant Corfforaethol yn rheolaidd. Mae ei gefnogaeth i'r maes, ac i mi fel Cyfarwyddwr, wedi bod yn amhrisiadwy a diolchaf yn fawr iddo, gan hefyd ddymuno ymddeoliad haeddiannol a hapus iawn iddo.

Yn amlwg, nid oedd modd i ni ragweld y flwyddyn yr ydym wedi'i chael. Rydym wedi gorfod dysgu ac addasu wrth fynd yn ein blaenau, ac yn sicr rydym wedi dysgu nifer o wersi gwerthfawr at y dyfodol. Rwyf yn falch o allu dweud ein bod wedi cynnal ein holl wasanaethau hanfodol yn ystod y flwyddyn, a chredaf ein bod wedi ymateb i'r argyfwng yn effeithiol iawn o ystyried yr amgylchiadau.

Rydym yn meddwl yn rhagweithiol at y dyfodol, ac wedi bod wrthi'n cynnal ymgyrch i ddenu mwy o staff i'r maes gofal, yn enwedig er mwyn sicrhau bod gennym ddigon o gapasiti yn y sefyllfa sydd ohoni, ac rydym hefyd yn bwriadu adeiladu ar ein trefniadau Gwydnwch Cymunedol er mwyn arfogi ein cymunedau i gefnogi trigolion i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel ac yn iach.

Rydym wedi colli nifer o drigolion y sir i'r clefyd creulon hwn dros y flwyddyn, a hoffwn, ar fy rhan i a staff y Cyngor, estyn fy nghydymdeimladau i bob un ohonoch fel unigolion a theuluoedd sydd wedi profi profedigaeth. Rwy'n mawr obeithio y bydd y cyfnod anodd hwn yn lleddfu yn fuan ac y gallwn ddychwelyd i'r normalrwydd yr ydym i gyd bellach yn ei werthfawrogi'n fawr. Rwy'n sicr bod y flwyddyn hon wedi rhoi'r cyfle i ni ddeall yr hyn sy'n bwysig i ni, a dyma hefyd sydd y tu cefn i'r holl waith yn y maes hwn.

Gyda hynny, carwn gyflwyno'r adroddiad hwn sy'n ceisio rhoi trosolwg teg o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn ystod y flwyddyn 2020/21.

Morwena Edwards
Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol





# 2. Sut mae pobl yn ein cefnogi i lunio ein gwasanaethau

**Mae'r Cyngor yn llwyr ymrwymedig i roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud, gan sicrhau ein bod yn gwrando ar 'beth sy'n bwysig' i'r trigolion. Mae hyn yn cyd-fynd ag egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o roi unigolion wrth wraidd eu gofal, a rhoi llais a rheolaeth iddynt er mwyn cyrraedd y canlyniadau sy'n creu llesiant.**

Bellach, mae'r ffordd yr ydym yn gweithio o fewn adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn canolbwyntio ar sicrhau bod llais, mewnbwn a'r hyn sy'n bwysig i unigolion yn ffurfio gwasanaethau unigol a chymunedol yn barhaus, ac rydym yn mynd ati i sicrhau bod hyn yn digwydd yn rheolaidd, ar gyfer y byrdymor a'r hirdymor, er lles pobl y sir.

Yn rhan o hyn, rwyf o'r farn bod dysgu a datblygu yn allweddol i ni os yr ydym am wella ein perfformiad a chyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd. Mae derbyn barn ein defnyddwyr gwasanaeth am ansawdd ein gwasanaethau yn bwysig iawn i ni os ydym am wella'n barhaus, ac mae'r drefn gwynion yn rhan allweddol o hyn. Mae gennym drefniadau cadarn ar waith i sicrhau ein bod yn ymateb, yn datrys ac yn dysgu o unrhyw gŵyn a dderbynnir. Y nod yw ymateb i bob cwyn gyda thegwch, didueddrwydd a pharch fel bod yr unigolyn yn hyderus y bydd eu cwyn yn derbyn ymdriniaeth broffesiynol, a hynny mewn modd positif.

Mae argyfwng Covid-19 wedi ein taflu i mewn i sefyllfa lle rydym wedi gorfod addasu ein ffordd o weithio, ac wrth gwrs mae hyn wedi dysgu llawer o wersi newydd i ni, a fydd yn ddefnyddiol i ni roi gwell gwasanaeth i'n trigolion yn y dyfodol. Ar yr un pryd, derbyniwyd llawer o adborth da am ein gwaith eleni, er enghraifft mae'n amlwg bod y Tîm Cymorth Covid wedi bod yn werthfawr iawn i drigolion y sir ac mae hynny wedi golygu ein bod yn troi ein golygon tuag at lunio gwasanaeth tebyg fydd yn gwasanaethu'r cyhoedd yn yr hirdymor.

Yn ogystal â'n blaenoriaethau i adolygu ein darpariaethau yn gyson, er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi anghenion y cyhoedd yn gyntaf, mae gennym hefyd ambell ymarferiad statudol lle rydym yn gofyn barn y cyhoedd ar faterion penodol. Er enghraifft, mae ein **Hasesiad Anghenion Poblogaeth** hefyd yn gwrando ar farn pobl er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'n poblogaeth, ynghyd â sut y gallai newid dros y blynyddoedd sydd i ddod, er mwyn ein helpu i ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus.



Yn ystod 2020/21 fe dderbyniwyd tua 10,000 o ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus y Cyngor megis Holiadur DementiaGo, Holiadur Cynllun y Celfyddydau ar Bresgripsiwn ac ati. Fel Cyngor, rydym yn gwerthfawrogi clywed barn pobl i'r ymgynghoriadau hyn fel ein bod yn gallu mireinio ac addasu ein gwaith yn ôl gofynion ac anghenion y cyhoedd.

Yn yr un modd, mae gan Gyngor Gwynedd **Banel Trigolion** er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o drawstoriad o drigolion Gwynedd, a bod eu llais yn ganolog wrth i'r Cyngor gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau lleol i'r dyfodol. Eleni, roedd dros 700 o bobl yn rhan o'r Panel hwn.

Rydym hefyd yn ystyried barn plant i fod yn hollbwysig i ni, ac mae plentyn mewn gofal yn aelod o Banel Rhiant Corfforaethol y Cyngor, lle caiff aelodau'r Panel gyfle i glywed safbwynt a phrofiadau byw plentyn mewn gofal. Mae hyn oll yn gymorth i lunio ac addasu'r ddarpariaeth i blant mewn gofal.

Wrth gwrs, mae defnydd o'r we bellach yn rhan annatod o fywydau pawb wrth i ni ymrafael â sgil effeithiau Covid-19, felly mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol Facebook, Twitter ac Instagram y Cyngor wedi dod yn gynyddol bwysig ac yn allweddol i rannu gwybodaeth a derbyn adborth ymysg trigolion y sir. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld cynnydd yn y defnydd, gyda 35,239 o ddilynwyr ar y llwyfannau hyn.

Gwelwyd cynnydd cyffredinol hefyd yn nefnydd gwasanaethau ar-lein y Cyngor ynghyd â'r ceisiadau hunanwasanaeth sy'n cael eu cyflwyno. Rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth, agorwyd 11,869 o gyfrifon newydd.

Wrth gwrs, mae angen cofio bod barn yr unigolyn ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddo yn rhan ganolog ac allweddol yn y ffordd yr ydym yn ceisio darparu gwasanaethau o fewn y maes Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddwn yn parhau i adeiladu ar yr hyn a ddywed unigolion wrthym o ran sut y gallwn wella ein darpariaethau ar lefel leol a sirol fel ein bod yn gallu sicrhau'r gefnogaeth, yr ymyraethau a'r gwasanaethau gorau i drigolion y sir at y dyfodol.


Canfod be' sy'n bwysig
• Pwrpas
• Egwyddorion gweithredu
• Camau o werth
Gwella'r system
• Casglu mesuryddion
• Rhannu canfyddiadau
• Dysgu a gwella
Gwireddu be' sy'n bwysig
• Cynllunio ar y cyd
• Cyfraniad y gymuned
• Cryfderau personol
HELPA FI I FYW FY MYWYD FEL DWI'N DYMUNO EI FYW
Symud y rhwystrau
• Cynllunio a blaenoriaethu
• Dyrchafu'r rhwystr os oes angen
• Canfod cymorth addas
Deall, dysgu ac adlewyrchu
• Beth yw natur y galw?
• Pa arbenigedd sydd ei angen?
• Beth yw'r niferoedd, amlder, bylchau, cyfleon?
Adnabod y rhwystrau
• Pa gamau sydd yn wastraff yn y broses?
• Pam na ellir cwrdd â'r galw?
• Beth yw'r rhwystrau cymhleth a llai cymhleth?


ThinkPad

# 3. Hyrwyddo a gwella lles y rheiny yr ydym yn eu cynorthwyo

**Yn y bennod hon, byddaf yn gwerthuso ein cynnydd yn ystod 2020/21 yn erbyn y chwe safon ansawdd sydd yn cael eu nodi gan y Llywodraeth yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

Yn ogystal, byddaf yn rhoi braslun o'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud yn 2021/22.

## SAFON ANSAWDD 1

## Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y maent am eu cyflawni

Mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar les personol pob un ohonom mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Yn sgil dyfodiad yr argyfwng a'r clo cyntaf, sefydlwyd y **Tîm Cymorth Covid** er mwyn cefnogi trigolion Gwynedd i gael y cymorth oedd ei angen arnynt i ymdopi gyda heriau'r argyfwng. Ymysg prif gyfrifoldebau'r Tîm oedd:

- Cymryd galwadau a negeseuon e-bost gan y cyhoedd oedd yn ymwneud â materion Covid-19, a rhoi gwybodaeth iddynt
- Dod o hyd i'r cymorth a'r gefnogaeth fwyaf priodol i'r trigolion oedd yn cysylltu
- Cysylltu gyda phawb oedd yn cysgodi a chynnig cymorth, ynghyd â chodi eu hymwybyddiaeth o gymorth y parseli bwyd gan Lywodraeth Cymru
- Uchafu unrhyw bryderon i'r timau perthnasol o fewn y Cyngor
- Canfod beth oedd yn bwysig i'r trigolion oedd yn cysylltu, a dod o hyd i ddatrysiad
- Cysylltu gyda mudiadau a chyrff allanol ar ran y trigolion, a gweithredu fel pwynt cyswllt rhwng y mudiad/corff a'r trigolyn pan fo hynny'n briodol



Rhwng mis Ebrill ac Awst 2020, bu 5,080 o drigolion mewn cyswllt â'r Tîm, gyda 4,781 o'r rheini yn bobl oedd yn cysgodi. Ar ôl i waith y Tîm ddod i ben, cynhaliwyd ymarferiad ymgysylltu gyda sampl o drigolion, a'r prif gasgliadau oedd bod y trigolion hyn wedi gwerthfawrogi'r cyswllt, y gefnogaeth a'r wybodaeth a gawsant. Dyma rywfaint o'r adborth a dderbyniwyd gan aelodau'r cyhoedd:

*"Thank you so very much for phoning to check up on things and for even thinking of these extra links that may help. I really appreciate your time sending them to me. I am very grateful for all you (and everyone else on the team that are involved) are doing to help the rest of us during this difficult time."*

*"Y Bocsys bwyd a deliveries meddyginiaeth wedi bod yn wych a ninnau heb allu gadael y tŷ ers diwedd Chwefror. Mae'r galwadau i sicrhau ein bod ni yn iawn ac angen rhywbeth wedi bod yn ffantastig."*

O'r adborth, dysgwyd llawer am werth y math hwn o wasanaeth i drigolion Gwynedd. Yn syml, yn sgil y ffaith bod aelodau'r cyhoedd yn medru siarad gydag un pwynt cyswllt heb unrhyw rwystrau yn ymwneud â throthwyon neu gymhwyster, gan gael gwared ar fiwrocratiaeth, llwyddodd y Tîm i roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr oedd yn ei wneud.  Gweler enghraifft o hyn yn gweler enghraifft o hyn yn Astudiaeth Achos 1 yn Atodiad 2 yr Adroddiad hwn (tudalen 42). Mae'n sicr bod sefydlu Tîm Cymorth Covid wedi bod yn gam cadarnhaol iawn i drigolion Gwynedd, yn enwedig i rai o'r trigolion mwyaf bregus. Mae asesiad o'r gwaith ar y gweill fel ein bod yn gallu gwerthuso p'un a oes angen model tebyg i hwn at y dyfodol.

Sefydlwyd nifer fawr o grwpiau cymunedol lleol er mwyn ymateb i'r argyfwng, ac yn sgil hynny dysgwyd bod trigolion yn ffafrio derbyn cymorth ar lefel leol a chymunedol. Rydym wedi parhau i gefnogi'r rhwydwaith gymunedol hon drwy wyro cefnogaeth gan y Timau Adfywio, Timau Cefnogi Teulu a'r Timau Oedolion, ac mae angen sicrhau bod y grwpiau hyn yn cael cefnogaeth gennym i barhau i gynnig cymorth yn eu cymunedau y tu hwnt i'r argyfwng, ac mae lle i ni fel Cyngor edrych ar sefydlu tîm mwy parhaol a sefydlog i gefnogi llesiant pobl yn yr un modd, ar sail fwy hirdymor, yn y dyfodol.

Sefydlwyd y **Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu** ym mis Mai, a daeth yn weithredol ar 1 Mehefin. Mae'r gwasanaeth bellach yn cyflogi 103 o weithwyr. Diben y gwasanaeth hwn yw arwain y sir allan o'r pandemig drwy wella arolygiaeth iechyd yn y gymuned, olrhain cysylltiadau a chefnogi pobl i hunanynysu lle bo angen. Cliciwch **yma** i wylio blas o'r hyn y mae'r staff yn ei wneud i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Mae cynllun Llywodraeth Cymru, **'Cymru Iachach'**, yn gosod gweledigaeth hirdymor ar gyfer system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant ac atal salwch. Er mwyn

cyflawni'r weledigaeth hon rydym yn gweithio i drawsnewid y ffordd mae ein gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu yn y gymuned, ac mae nifer o brosiectau ar y gweill er mwyn cyflawni hyn.

Yn ystod y flwyddyn, bu gwaith yn mynd rhagddo ar y **Rhaglen i Drawsffurfio Iechyd a Gofal Cymunedol** yng Ngwynedd a Môn er mwyn gwella integreiddio a chydweithio ar draws y meysydd hyn. Nod y Rhaglen yw helpu pobl i fyw eu bywyd fel maen nhw'n dymuno, a sicrhau ein bod yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth sy'n ymateb i'r hyn sy'n bwysig i bobl fregus yr ardal.

Mae'r gwaith o sefydlu **Timau Adnoddau Cymunedol**, sy'n cynnwys staff iechyd, gofal, y trydydd sector a'r sector annibynnol, yn greiddiol i hyn. Mae'r timau lleol hyn yn cael cyswllt rheolaidd fel tîm ar lefel is-ardal; yn rhannu gwybodaeth ac adnoddau, yn cydweithio i ddeall y sefyllfa'n lleol ac yn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau.

Mae elfennau eraill o'r rhaglen yn cynnwys prosiectau sy'n hwyluso'r drefn i bobl **Adael yr Ysbyty**, prosiect **Rhannu Gwybodaeth** ar draws asiantaethau, a'r prosiect i **Ail-ddylunio Gofal Cartref** yn y sir.

Er bod yr amserlen ar gyfer y gwaith wedi llithro rhywfaint oherwydd argyfwng Covid-19, rydym bellach yn gyrru ymlaen gyda'r cynlluniau. Mae ein gweledigaeth o symud y gwasanaethau gofal cartref tuag at fodel sy'n seiliedig ar ardaloedd lleol, a chomisiynu ar sail canlyniadau i unigolion a gwerth cymdeithasol yn parhau, gyda'r bwriad o fod yn cynnal proses dendro ar gyfer ardaloedd penodol eleni.

Mae'r **Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth** yn cefnogi pobl hŷn y sir, ac mae rhaglen waith fanwl yn cael ei gweithredu er mwyn sicrhau gwell cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd a chreu un pwynt cyswllt lleol. Yn ystod y flwyddyn, canran yr oedolion a dderbyniodd gyngor a chefnogaeth gan y gwasanaeth na gysylltodd eto am chwe mis oedd 54%.

Yn yr un modd, mae **Hwb Teuluoedd Gwynedd** wedi'i sefydlu fel bod modd derbyn gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar faterion megis gofal plant, maethu, mabwysiadu, gofalwyr ifanc ac ati mewn un lle. O fewn yr Hwb, mae modd i unrhyw un adrodd am bryder bod plentyn yn cael ei gam-drin, ac rydym yn ymateb i'r adroddiadau hyn yn ddi-oed er mwyn sicrhau lles a diogelwch ein plant a'n pobl ifanc.



## SAFON ANSAWDD 2

## Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol pobl

Rydym yn gyfrifol am sicrhau bod pawb yn gwarchod eu hiechyd a'u lles ac yn mabwysiadu ffyrdd iach o fyw, gan dderbyn gofal a chymorth ataliol a rhagweithiol pan fo angen. Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio cefnogi cymunedau mewn sawl ffordd er mwyn cyflawni datrysiadau ataliol eu natur sy'n cynyddu opsiynau gofal lleol, gan arwain hefyd at sicrhau bod ein cymunedau'n rhai cryf a gwydn. I wneud hyn, rydym wedi mapio gwasanaethau a grwpiau sy'n bodoli mewn cymunedau er mwyn adnabod bylchau, a chysylltu unigolion sydd angen cymorth gyda gwasanaethau, yn ogystal â hybu mentrau cymunedol.

Eleni, rydym wedi bod yn ymdrechu'n ddiflino i ddiogelu pobl yn erbyn Covid-19. Mae llawer iawn o waith wedi bod yn digwydd o fewn y Cyngor ac wrth gydweithio gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod trigolion Gwynedd yn cadw mor ddiogel â phosib yn ystod yr argyfwng hwn.

Bu **Gwydnwch Cymunedol** yn rhan fawr o lif gwaith y Cyngor yn ystod y flwyddyn, sef gwaith i arfogi cymunedau ac unigolion ag adnoddau ac arbenigedd lleol er mwyn eu galluogi i allu helpu eu hunain mewn achos o argyfwng. O ganlyniad i Covid-19, rhoddwyd trefniadau ychwanegol ar waith er mwyn ymateb i'r argyfwng a cheisio cynnal a chefnogi llesiant trigolion Gwynedd.

Mae'r Cyngor hefyd wedi bod yn gweithio'n galed ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd i hyrwyddo a chefnogi'r **ymdrech frechu**. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd oddeutu 50,000 o bobl wedi derbyn y dos cyntaf. Rydym wedi cydweithio'n barhaus gyda'r Bwrdd Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a darparwyr gofal yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod sefyllfa Covid-19 dan reolaeth a'n bod yn tynnu ynghyd er mwyn brwydro gyda'n gilydd i sicrhau'r ardrawiad lleiaf bosib ar bobl Gwynedd.

O fewn **Cynllun y Cyngor,** mae **Cefnogi Llesiant Pobl** wedi cael ei adnabod fel blaenoriaeth gwella. Rydym wedi adnabod bod angen mwy o gefnogaeth ar rai trigolion ar gyfer ymdopi gyda heriau bywyd, ac rydym yn buddsoddi, darparu a chynllunio nifer o wasanaethau ac ymyraethau er mwyn cefnogi pobl i wynebu a cheisio goresgyn eu problemau.



Fel rhan o'r ymdrechion i gefnogi llesiant pobl, mae'r **Bwrdd Cefnogi Pobl** wedi gweithio ar adnabod rhwystrau a gwella ein dealltwriaeth o sut mae ein gwasanaethau'n cael eu darparu ar hyn o bryd drwy nifer o ffrydiau gwaith amrywiol. Bwriad hyn yw galluogi i bobl Gwynedd edrych ar ôl eu lles eu hunain a byw'r bywyd y dymunent. Mae rhai o'r ffrydiau gwaith yn cynnwys **Tlodi Ariannol a Bwyd, Gofalwyr, Digartrefedd, Cynhwysiad Digidol a Llesiant**.

Mae **Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn** yn nodi sut bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn yn cyflawni ei waith o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cydweithir gyda phartneriaid allweddol i yrru'r newidiadau angenrheidiol ar gyfer integreiddio iechyd a gofal yn ein cymunedau, gan roi sylw i ystod eang o feysydd megis Oedolion, Plant, Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl a Thrawsnewid Cymunedol.

Mae'r Bwrdd wedi ystyried ei rôl yn y gwaith o adfer ein cymunedau yn dilyn sgil effeithiau'r pandemig. Amlygwyd materion sydd wedi effeithio ein cymunedau fwyfwy megis tlodi ariannol, diweithdra ymhlith pobl ifanc, sefyllfa ail gartrefi a gor-dwristiaeth. Yn ystod yn misoedd nesaf bydd y Bwrdd yn cynnal gwaith ymchwil fel rhan o'i asesiad o lesiant, lle bydd cyfle i glywed gan bobl a chymunedau Gwynedd am yr hyn sy'n bwysig iddynt. Bydd yr asesiad yn gwella ein dealltwriaeth o anghenion ein cymunedau, gan edrych ar heriau a chyfleoedd i'r dyfodol.

Bu'r **Bartneriaeth Ddysgu Iechyd a Lles** yn cyfarfod yn fwy rheolaidd yn ystod y pandemig i drafod sut i hyrwyddo llesiant pobol drwy hybu'r 5 Ffordd at Les gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r llyfryn **Edrych ar ôl fy Hun** wedi bod yn ganolog i'r gwaith a, law yn llaw â hyn, sefydlwyd **tudalen Facebook** sy'n rhannu ystod eang o wybodaeth a digwyddiadau iechyd a llesiant yng Ngwynedd.

Cafwyd pythefnos greadigol ar-lein dan y teitl **Llesiant i Mi** rhwng 18-31 Ionawr gyda'r nod o gefnogi lles meddyliol yr unigolion oedd yn cymryd rhan. Roedd yn ddigwyddiad rhad ac am ddim ar gyfer unrhyw un dros 18 oed. Roedd yr holl weithgareddau yn ystod y pythefnos yn seiliedig ar y 'pum ffordd at les' ac yn cynnwys gweithgareddau creadigol, fideos, sgyrsiau, syniadau, ysbrydoliaeth, ymdeimlad o gefnogi ein gilydd a llyfryn i dywys pob unigolyn drwy'r cyfnod.

Mae'r **Tîm Llwybrau Llesiant** yn darparu ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau sy'n ymateb i anghenion unigolion gydag anableddau dysgu yng Ngwynedd. Yn ystod y cyfnodau clo, mae'r tîm wedi llwyddo i barhau gyda sesiynau i hybu lles yr unigolion - yn gorfforol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol. Darparwyd sesiynau rhithiol megis ioga, dawnsio, cwis a disgo ynghyd â Chôr Makaton - mae modd gweld fideo o'r côr **yma**. Cynhaliwyd gweithgareddau eraill hefyd megis grwpiau cerdded yn y gymuned a sesiynau trafod



cyfrinachol ‘Bwlch Siarad’ mewn cydweithrediad â Mind. Yn ystod y flwyddyn, roedd 134 o unigolion wedi derbyn cefnogaeth neu wedi ymuno yn y sesiynau.

Yn ogystal, mae’r tîm wedi helpu unigolion i fod mewn sefyllfa i allu ymuno mewn sesiynau ar-lein drwy ddarparu offer a hyfforddiant i unigolion a’u teuluoedd. Mae’r tîm hefyd wedi datblygu **gwefan** a phresenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol er mwyn annog unigolion i gymryd rhan a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bawb.

Daethpwyd â gwahanol fudiadau at ei gilydd er mwyn sefydlu **Rhwydwaith Gofalwyr Gwynedd**, lle bu gwaith ar y gweill yn ystod y flwyddyn i gefnogi gofalwyr di-dâl yn ystod y pandemig. Cafodd y llyfryn **Edrych ar ôl Rhywun** ei baratoi i gefnogi gofalwyr. Cliciwch **yma** i wylio fideo sy’n dangos y digwyddiadau sydd wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn.

Cynhaliwyd **Gŵyl Gofalwyr Ar-lein** ym mis Awst am gyfnod o dair wythnos, gyda’r nod o ddarparu gwybodaeth, cefnogi llesiant gofalwyr a chael hwyl. Law yn llaw â hynny, cynhaliwyd **Diwrnod Hawliau Gofalwyr**, a oedd yn ymgyrch ar-lein er mwyn codi ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr.

Yn ogystal â threfnu digwyddiadau ac ymgyrchoedd fel yr uchod, mae’r **Tîm Cefnogi Gofalwyr Di-dâl** wedi cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i greu **cerdyn adnabod ac Ap i Ofalwyr Ifanc**. Yn dilyn ymgynghoriad gyda gwasanaeth Gweithredu dros Blant, sef yr asiantaeth a gomisiynir gan Wynedd a Môn a gofalwyr ifanc y Sir, fe arweiniodd hynny at gyd-gynhyrchu syniadau i greu Ap i gyd-fynd gyda dull mwy traddodiadol y cerdyn adnabod a’r band garddwn. O ganlyniad, daeth gofalwyr ifanc Gwynedd a Môn at ei gilydd â phrosiectau gofalwyr ifanc eraill yn y Gogledd er mwyn creu delwedd addas ar gyfer y datblygiad cyffrous yma, felly yn rhanbarthol, bydd Gwynedd a Môn yn rhannu’r un edrychiad a’r brand â’r siroedd eraill ac yn defnyddio’r un cerdyn adnabod traddodiadol â gweddill y rhanbarth. Cliciwch **yma** i wylio fideo sy’n dangos sut bydd yr Ap yn gweithio.

Gan fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn awyddus i weld Awdurdodau Lleol yn treialu gwahanol ddulliau, bydd Gwynedd a Môn yn treialu’r Ap gan gydweithio gyda’r Adran Addysg a phedair ysgol uwchradd yn y man cyntaf er mwyn gweld sut mae’n gweithio’n ymarferol mewn ysgolion a rhannu unrhyw wersi â ddysgwyd o’r peilot gyda gweddill y rhanbarth. Lansiwyd y fenter ar draws y Gogledd ar Ddiwrnod Cenedlaethol Gofalwyr Ifanc ar 16 Mawrth 2021.

Mae gan y **Gwasanaeth Anableddau Dysgu** ddau lif gwaith sydd yn flaenoriaeth ar hyn o bryd, sef prosiect Lletya a phrosiect Cyfleoedd Gwaith. Mae prinder llety addas ar gyfer unigolion anabl ar draws y sir, ac rydym



wedi dechrau gweithio gyda'r Cymdeithasau Tai ac Adran Tai ac Eiddo y Cyngor er mwyn cyfarch yr angen hwn. Mae darparu cyfleoedd hyfforddiant a phrofiadau gwaith i unigolion gydag Anableddau Dysgu hefyd yn flaenoriaeth, a bydd hyn yn galluogi unigolion anabl i ddysgu a chyfranogi mewn cymdeithas. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae Hwb Cymunedol yn cael ei datblygu yn Nolfeurig, Dolgellau, ac mae Gwasanaeth 'Pryd ar Glud' yn cael ei weithredu yn ardal y Ffôr, Pwllheli mewn cydweithrediad gydag Agoriad.

Mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i barhau i ddarparu cyfleodd dydd ac ysbaid mewn rhai sefyllfaoedd blaenoriaeth ac wedi darparu gwasanaethau pwrpasol drwy ddefnyddio ein hybiau cymunedol yn hyblyg er mwyn cadw at reoliadau Covid-19. Yn ogystal, ers mis Medi, mae'r gwasanaeth Anableddau Dysgu wedi dechrau defnyddio uned ysbaid newydd ym Mhwllheli i ddarparu gwasanaeth ysbaid dros nos i unigolion anabl, sydd yn helpu gofalwyr gyda'r pwysau sylweddol sydd arnynt.

Ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Ynys Môn, rydym wedi sefydlu Bwrdd Prosiect Aml-asiantaethol er mwyn sefydlu **Cynllun Awtistiaeth**. Bwriad y Cynllun hwn, a fydd yn cael ei gyflwyno yn ystod 2021-22, fydd ymateb i asesiadau a chefnogi ceisiadau am gefnogaeth yn ymwneud ag awtistiaeth. Bydd y Cynllun yn cydymffurfio gyda'r Cod Ymarfer newydd ar gyfer Gwasanaethau Awtistiaeth a ddaw i rym ym mis Ebrill 2021.

Mae **Tîm Derwen**, sef y Tîm Integredig Plant Anabl, yn bartneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd. Mae'r tîm yn gweithio i ddarparu cefnogaeth arbenigol i blant sydd ag amhariad neu oediad yn eu datblygiad, plant anabl a phlant â gwaeledd. Llwyddodd y tîm i gynnal y gwasanaeth yn ystod argyfwng Covid-19, lle bu cydweithio gyda'r teuluoedd a'r plant a phobl ifanc er mwyn darparu'r gefnogaeth angenrheidiol iddynt. Ers dechrau'r argyfwng, bu sawl enghraifft o'r angen i addasu a newid cynlluniau gofal a chefnogol yn sydyn, ac mae'r gwasanaeth cefnogol wedi llwyddo i gwrdd â phob cynllun newydd mewn modd amserol.

Mae'r tîm yn parhau i gydweithio'n agos gyda gwasanaethau eraill megis yr Adran Tai ac Eiddo, yr Adran Addysg, y Bwrdd Iechyd ynghyd â sawl elusen er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol a chreadigol i'r plant a'u teuluoedd. Er enghraifft, bu cydweithio'n digwydd ag asiantaethau eraill er mwyn darparu sawl tŷ addas i gwrdd ag anghenion plant sâl/anabl.

Er gwaethaf y ffaith nad oedd modd cynnal gweithgareddau cymdeithasol wyneb yn wyneb eleni, a bod angen atal rhai gwasanaethau dros dro o ganlyniad i'r argyfwng, rydym wedi llwyddo i addasu ein ffordd o weithio gyda phobl a phartneriaid er mwyn diogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol pobl drwy ddigwyddiadau a gweithgareddau rhithiol, gan sicrhau ein bod hefyd yn parhau gyda datblygiadau lle bo modd gwneud hynny.



## SAFON ANSAWDD 3

## Diogelu ac amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb i ddiogelu pobl o ddifri. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan weithredol ym **Mwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru, Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru, Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru (ynghyd ag is-grwpiau o fewn y maes) a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn** ac yn sicrhau bod materion sydd wedi eu codi yng nghyfarfodydd y grwpiau hyn yn derbyn sylw teilwng er mwyn sicrhau diogelwch trigolion y sir. Fel Cyfarwyddwr Corfforaethol, mae gen innau hefyd gyfrifoldebau penodol yn y maes diogelu.

Mae gennym hefyd drefniadau ar waith yn fewnol i sicrhau diogelwch trigolion Gwynedd, ac mae **Arolygiaeth Gofal Cymru** yn cynnal arolygon cyson o'n gwaith i sicrhau ei fod o'r safon orau. Eleni, cawsom archwiliad sicrwydd gan yr Arolygiaeth yn ystod mis Ionawr, er mwyn gweld pa mor dda mae ein gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

Yn yr adborth a gawsom gan yr Arolygiaeth yn dilyn yr archwiliad, nodwyd ein bod wedi cadw cysylltiad da â phobl yn ystod y pandemig i gynnig cymorth, bod ein staff yn gallu ymdopi â'u llwythi achosion a'u bod yn amlwg yn deall amgylchiadau'r bobl y maent yn gweithio â nhw a'u cymunedau yn dda. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn, ac rwyf yn falch iawn o waith caled ac ymroddiad ein staff i sicrhau hyn.

O fewn y Cyngor, mae gennym **Banel Strategol Diogelu** sy'n cael ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc, y Cynghorydd Dilwyn Morgan. Nod y Panel hwn yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau addas ar waith ar lefel gorfforaethol ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau diogelwch plant, pobl ifanc ac oedolion. Ers 2017/18 mae'r Panel hefyd yn gyfrifol am drosolwg o faterion diogelu ehangach ar draws Gwynedd, megis Diogelwch Cymunedol.

Mae **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn** yn grŵp o sefydliadau sy'n cydweithio er mwyn ystyried sut y gellir mynd i'r afael â throsedd ac anhrefn, lleihau aildroseddu, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ceir mwy o wybodaeth am waith y Bartneriaeth, ynghyd â Chynllun Lleol Diogelwch Cymunedol, **yma**. Mae'r aelodaeth yn cynnwys ni fel Cyngor, yr Heddlu, gwasanaethau Prawf, y gwasanaeth Tân ac Achub a'r Bwrdd Iechyd. Cynrychiolir y Cyngor gan yr Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd



a Llesiant, y Cynghorydd Dafydd Meurig, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Morwena Edwards.

Mae'r maes **Trais yn y Cartref** yn flaenoriaeth i ni ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, ac rydym yn annog holl aelodau staff y Cyngor i gwblhau hyfforddiant yn y maes. Mae trais yn y cartref wedi bod yn arbennig o heriol eleni yn sgil Covid-19 a'r cyfarwyddyd i bawb aros gartref yn ystod y cyfnodau clo. Eleni, ni fu unrhyw gynnydd yn nifer yr achosion trais yn y cartref a adroddwyd, ac felly mae hyn yn codi'r cwestiwn a yw dioddefwyr yn rhy ofnus i adrodd am eu sefyllfa a'u bod yn byw mewn sefyllfaoedd o berygl. Rydym yn parhau i gydweithio gyda'r mudiadau perthnasol ac yn ymdrechu i godi ymwybyddiaeth o adrodd am drais yn y cartref, gan geisio rhoi dulliau gwahanol ar waith fel bod modd i unigolion gysylltu yn ddiogel. Bydd angen parhau i weithio'n ddiwyd ar yr agenda hwn.

Ffurfiwyd **Tîm Emrallt** eleni gyda'r nod o geisio lleihau nifer yr achosion o ymddygiad rhywiol niweidiol sy'n cael eu cyfeirio i wasanaethau statudol yn dilyn digwyddiad o gam-drin, a hynny drwy nifer o ymyraethau amserol a phriodol. Er mwyn gwireddu ein nod, rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn digwyddiadau codi ymwybyddiaeth a mynediad i becynnau hyfforddi ataliol ac arbenigol gan Brook, yr NSPCC ac AIM.

Eleni, cyhoeddwyd **Datganiad Caethwasiaeth Fodern Cyngor Gwynedd 2020/21**. Yn ogystal â hyn, mabwysiadodd y Panel Strategol Diogelu gamau gweithredol yn y maes **Caethwasiaeth Fodern** yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod gennym drefniadau pwrpasol ar waith, sef gosod canllawiau a llwybrau ar gyfer cyfeirio amheuon/achosion ar safle we Cyngor Gwynedd, sefydlu pwynt cyswllt sengl, cyhoeddi datganiad penodol blynyddol ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn osgoi Caethwasiaeth Fodern o fewn gweithgaredd busnes a'r cadwynau cyflenwi, a hyfforddiant i staff.

Rydym yn **Rhiant Corfforaethol** i blant mewn gofal yng Ngwynedd, lle rydym yn gweithredu'r cyfrifoldeb uniongyrchol i sicrhau fod gwasanaethau priodol ac addas ar gael ar eu cyfer. Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol yn cael ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet ar gyfer Plant a Chefnogi Teuluoedd, y Cynghorydd Dilwyn Morgan. Fel arfer, mae plant yn dod i'n gofal o dan amgylchiadau anodd iawn, ac rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun.

Ar ddiwedd Mawrth 2021 roedd 281 o blant yng ngofal y Cyngor, ac roedd 71% o'r rhain yn derbyn gofal mewn lleoliad maeth, gyda 35% o ofalwyr maeth yn deulu neu ffrindiau a 18% o blant mewn gofal wedi eu lleoli gyda'u rhieni, ac felly'n parhau gartref.

Oherwydd cyfyngiadau yn sgil y pandemig, cynhaliwyd adolygiadau cynlluniau gofal yn rhithiol eleni, sydd




wedi dod â heriau newydd i ymarfer a gallu swyddogion i weld plant wyneb yn wyneb a datblygu'r berthynas waith. Canmolodd Arolygiaeth Gofal Cymru yn y maes hwn yn dilyn eu harchwiliad o'n gwaith ym mis Ionawr 2021, gan ddweud bod yr holl adolygiadau ac ymweliadau statudol yn cael eu cynnal mewn modd amserol, a bod yr adolygiadau yn adlewyrchu safbwynt y plant, y gofalwyr a'r rhieni gyda naratifau da yn ymwneud â llesiant.

O ganlyniad i Covid-19, mae nifer o asiantaethau wedi adleoli staff neu wneud penderfyniadau i warchod lles staff ac i osgoi cyswllt â'r cyhoedd. Mae hyn wedi arwain at leihad mewn cyfeiriadau ar adegau, a lleihad yn y cyswllt gan nifer o asiantaethau gyda phlant a theuluoedd. Mae hyn wedi bod yn heriol ym mhob maes gan gynnwys ei effaith ar ein gwaith i amddiffyn plant ac i gefnogi plant mewn gofal.

Yn ogystal, bu rhaid rhoi trefniadau argyfwng ar waith i gynnal y ddyletswydd cofrestriadau statudol ar **Gofrestr Amddiffyn Plant Gwynedd** gan nad oedd modd cyfarfod mewn cynhadledd wyneb yn wyneb. Llwyddwyd i gynnal Cynadleddau Amddiffyn yn rhithiol, gan gynnwys gydag asiantaethau eraill a rhieni. Yn amlwg, mae hyn wedi dylanwadu ar effeithiolrwydd y broses amddiffyn ynghyd â natur ein gallu i gyd-drafod a sicrhau llais i bawb.

Yn ystod 2020/21, cynhaliwyd 389 o 'gynadleddau' amddiffyn plant. Roedd canran y cynadleddau achos lle ystyriwyd fod yr asesiadau risg o safon uchel yn 97% ac yn gyson â'r blynyddoedd diweddar. Mae'r perfformiad cyson uchel hwn yn dangos effaith ein buddsoddiad mewn ymarfer i sicrhau penderfyniadau da sy'n gwarchod hawliau plant a'u teuluoedd.





## SAFON ANSAWDD 4

## Annog a darparu cefnogaeth i bobl ddysgu a chyfranogi mewn cymdeithas

Mae mwyafrif y gweithgareddau sydd wedi digwydd eleni wedi cael eu cynnal yn rhithiol o ganlyniad i'r pandemig. Mae hyn ynddo'i hun wedi cyflwyno heriau newydd i ni, ond rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynorthwyo pobl i ennill sgiliau ac i'w hannog i gefnogi ei gilydd o fewn eu cymunedau.

Mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu'r **Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc**, gan fod pryder y gall rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw, ynghyd â chefnogaeth gyda'u lles.

O ganlyniad i sgil effeithiau Covid-19, yn ystod 2021/22 byddwn yn canolbwyntio ar ddeall effeithiau'r cyfnod clo ar les plant bach, a byddwn yn adolygu ein trefniadau a'n darpariaethau er mwyn sicrhau'r dechrau gorau i blant 0-5 oed a'u teuluoedd. Yn ogystal, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar y grŵp oedran 5-16 drwy gefnogi'r ysgolion i weithredu **Rhaglen Cyflymu'r Dysgu** gydag arian gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i ni ymateb i effaith y cyfnod clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr.

Tu hwnt i'r ysgol rydym hefyd yn sylweddoli bod yr argyfwng wedi effeithio'n anghymesur ar y grŵp oedran 16-24 oed, yn fwy nag unrhyw grŵp oedran arall. Mae nifer uchel o gyfeiriadau am gymorth llesiant, iechyd meddwl a digartrefedd ymysg y grŵp oedran hwn. Felly, law yn llaw gyda'r cynnydd yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, addysg nac hyfforddiant, bwriedir rhoi sylw penodol i'r maes hwn er mwyn lliniaru unrhyw sgil effeithiau gan sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael cefnogaeth a darpariaeth briodol i'w galluogi i ffynnu.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r **Gwasanaeth Ieuenctid** wedi addasu sut mae'n cyrraedd pobl ifanc, gyda mwyafrif y gwaith yn symud ar-lein. Mae'r gwasanaeth wedi darparu gweithgareddau cymdeithasol, sesiynau dysgu, hyfforddiant a chynnig cefnogaeth bersonol o amgylch tair prif thema, yn unol â'r hyn a ddywedodd pobl ifanc oedd yn bwysig iddynt; sef llesiant, dysgu sgiliau newydd, a'u paratoi eu hunain at y byd gwaith ac i fyw'n annibynnol. Y sesiynau crefft, cwis, her ffitrwydd, coginio, a Sesiwn Sgwrs oedd y rhai mwyaf poblogaidd ymysg pobl ifanc.




Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi parhau i gadw cyswllt gyda phobl ifanc 16 oed a hŷn sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant na gwaith i'w cefnogi ac i'w helpu i ail-ymgysylltu pan fyddent yn barod i wneud hynny. Mae'r gwasanaeth hefyd yn parhau i ymateb i heriau cymdeithasol a phersonol pobl ifanc, megis ymddygiadau heriol, llesiant a hunanddelwedd, ynghyd â rhwystrau i ail-ymgysylltu gydag addysg a gwaith. Ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, blaenoriaethir y meysydd iechyd a lles, digartrefedd ieuenctid, a chefnogi pobl ifanc yn y cyfnod pontio rhwng 16-24 oed.

Mae gan Gyngor Gwynedd brosiect unigryw **Pontio'r Cenedlaethau** i geisio creu cysylltiadau newydd rhwng plant a phobl o bob oedran, gyda'r gobaith y bydd hyn yn cynyddu parch a dealltwriaeth rhwng cenedlaethau ac yn arwain at gymunedau cryfach. Eleni, cynhaliwyd Wythnos Pontio'r Cenedlaethau rhwng 8 ac 14 Mawrth trwy Brydain, a bu Cyngor Gwynedd yn cynnal gweithgareddau amrywiol yn ystod yr wythnos.

Er gwaethaf y cyfyngiadau clo eleni, mae llawer o waith da wedi digwydd i hybu cydweithio rhwng plant, pobl ifanc ac oedolion o bob oed, ond yn arbennig pobl hŷn. Y prif brosiect oedd y Cynllun Pen-Pals lle danfonwyd dros 120 o lythyrau. Bu cydweithio da â'r Gwasanaeth Ieuenctid i greu anrhegion unigryw i breswylwyr Plas Gwilym ym Mhenygroes, a chydweithiwyd hefyd gyda nifer o fudiadau i ddarparu dros 120 o Focsys Nadolig gan blant i bobl hŷn Gwynedd a oedd eu hunain eleni.

Mae mwy o brosiectau ar y gweill ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, megis cynllun plannu blodau a phlanhigion lle bydd plant yn medru addurno'r pot a phlannu'r hadau, ac yna eu cyflwyno i gartrefi gofal lleol ac i unigolion sy'n byw eu hunain, ynghyd â meinciau cyfeillgarwch, sef cynllun i osod meinciau yng nghymunedau Gwynedd lle gall unrhyw un eistedd arni er mwyn ymestyn croeso i eraill ymuno gyda nhw ar y fainc am sgwrs.

Gwerthuswyd prosiect Pontio'r Cenedlaethau gan Gydweithredfa Gogledd Cymru ym mis Tachwedd eleni, a daethpwyd i'r canlyniad bod y prosiect yn perfformio'n dda ac wedi gallu ymateb yn hyblyg i heriau'r pandemig. Cliciwch **yma** i gael blas o'r gwaith sydd wedi bod yn mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn.

Mae prosiect **Mentro Gyda'n Gilydd** yn adnodd newydd sydd wedi'i greu ar ffurf fideos byr er mwyn helpu i ddangos i drigolion bregus a'r rheiny sy'n byw gyda dementia y prif newidiadau i wasanaethau yng Ngwynedd yn dilyn y pandemig.

Cafodd tîm **DementiaGo** gydnabyddiaeth arbennig yng Ngwobrau Gofal Cymru eleni, lle roeddent yn un o dri mudiad i gael eu dewis yn y categori 'gweithio gyda a gwrando ar bobl sy'n byw gyda dementia'. Dyma **glip fideo** sy'n arddangos eu gwaith.



Amcan DementiaGo yw cefnogi pobl sy'n cael eu heffeithio gan ddementia drwy weithgareddau ymarfer corff i hybu ansawdd bywyd cyfoethog. Yn ystod y pandemig, mae'r tîm wedi gwneud galwadau ffôn rheolaidd i'w haelodau (tua 3,000 o alwadau ffôn yn ystod y flwyddyn), cynhyrchu cylchlythyr bob pythefnos i rannu gwybodaeth ac annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau er mwyn codi calon a rhoi ymdeimlad o berthyn, a threfnu dosbarthiadau ar-lein megis 'Atgofion Chwaraeon' ynghyd â digwyddiadau arbennig megis cwis a pharti Nadolig. Cliciwch **yma** i gael blas o un digwyddiad arbennig ar-lein, sef sesiwn gyda Dawns i Bawb.

Dyma adborth gan un defnyddiwr gwasanaeth:

*'Diolch yn fawr i'r tîm am y dosbarthiadau ymarfer corff ar Zoom. Maen nhw'n berffaith i Mam (a fi hefyd!). Mae hi'n dechrau dod i arfer â nhw a chofio eu bod nhw'n digwydd, ac mae hi'n dechrau adnabod pobl a sylweddoli nad 'one-off' ydyn nhw ond eu bod nhw ymlaen bob wythnos – a'u bod nhw'n gymaint o hwyl. Mae hi wrth ei bodd yn clywed Cymraeg yn cael ei siarad – mae hi'n Gymraeg ei hun, ond ni chafodd erioed gyfle i'w dysgu pan oedd hi'n ifanc. Mae hi'n edrych ymlaen at y dosbarthiadau pan fydd hi'n fy ngweld i'n setio'r cyfrifiadur i fyny. Mae'r dosbarthiadau yn ysgogiad da.'*

Lansiwyd eu **gwefan newydd**, dan yr enw newydd **Dementia Actif Gwynedd**, ym mis Ionawr 2021.

Mae **Cynhwysiad Digidol** yn elfen sy'n dod yn gynyddol bwysig yn y byd sydd ohoni. Mae'r Cyngor yn bwriadu rhoi Strategaeth Dysgu Digidol ar waith fel un o'i flaenoriaethau, gan fod risg o ddarparu addysg is-safonol i blant Gwynedd oherwydd methiant i uchafu'r cyfleoedd y mae dysgu digidol yn ei gynnig. Bwriad y strategaeth yw rhoi'r ddarpariaeth ddigidol orau i gefnogi ein dysgwyr a'n hathrawon i feithrin ystod o sgiliau i ddefnyddio technoleg yn hyderus, yn greadigol ac yn feirniadol.

Yn ystod y pandemig, cafwyd cefnogaeth gan nifer o asiantaethau a mudiadau i sicrhau fod gan bobl fwyaf bregus y sir fynediad i'r rhyngrwyd. Rhwng misoedd Ebrill a Mehefin, fe ddyrannodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru lu o iPads i'n cartrefi preswyl, yn ogystal â 15 iPad i'n cymunedau. Prif fwriad hyn oedd galluogi teuluoedd a ffrindiau i gadw mewn cysylltiad yn rhithiol, yn enwedig y rheiny oedd yn gorfod cysgodi.

Yn ogystal, dyrannwyd rhagor o arian ym mis Chwefror eleni er mwyn ymestyn y cynnig digidol i ddyfeisiau eraill megis Echo Dot, plygiau clyfar a bylbiau clyfar. Drwy hyn, y gobaith yw goresgyn unigrwydd a rhoi'r gallu i unigolion reoli eu dymuniadau drwy lais yn unig (er enghraifft, gofyn i'r Echo Dot chwarae caneuon neu



ddiffodd y golau), sydd yn arbennig o bwysig i'r rheiny sydd ag anawsterau symudedd.

Mae **Dawns i Bawb** hefyd wedi prynu tabledi digidol er mwyn eu rhoi i breswylwyr mewn cartrefi preswyl yng Ngwynedd. Ni fydd angen cysylltiad WiFi ar gyfer cael mynediad i adnoddau ar y tabledi, gan fod y fideos dawnsio wedi'u recordio a'u lawrlwytho ar y tabledi yn barod. Yn y dyfodol, mae bwriad edrych i ddatblygu cynnwys y tabledi digidol gyda sesiynau dawns, yn ogystal â cherddi, lluniau, darnau o ddramâu ac ati, gan ganolbwyntio'n benodol ar iechyd a llesiant.

Gan gydweithio â menter gymunedol **y Dref Werdd**, sy'n gweithio er lles yr amgylchedd a'r gymuned leol ym Mro Ffestiniog, derbyniodd Dementia Actif Gwynedd 10 tabled digidol i'w rhannu gyda'u haelodau ar hyd a lled Gwynedd. Gweler Astudiaeth Achos 2 am ragor o wybodaeth. Hyd yma, mae 4 tabled wedi cael eu rhoi i aelodau a oedd â rhyngrwyd yn barod, a olygai fod cyfanswm o 7 o bobl yn derbyn cefnogaeth ar sut i'w defnyddio a sut i ymuno â gweithgareddau ar-lein rheolaidd. Bydd y tîm yn defnyddio'r 6 tabled arall i gefnogi pobl nad oes ganddynt ryngrwyd ar hyn o bryd.



## SAFON ANSAWDD 5

## Darparu cefnogaeth i bobl er mwyn iddynt ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasau iach yn y cartref, gyda'u teulu ac ar lefel bersonol

Un o brif uchelgeisiau'r Cyngor yw sicrhau bod plant a theuluoedd y sir yn **mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**, yn ogystal â chyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl. Wrth gwrs, mae cyflawni'r uchelgais hon wedi bod yn heriol iawn eleni oherwydd bod y cyfnodau clo wedi atal pobl rhag gweld eu teuluoedd a'u ffrindiau, ac mae hynny wedi effeithio ar allu nifer o unigolion a theuluoedd rhag datblygu a chynnal perthnasau iach.

Mae adolygu ein trefniadau a'n ffordd o weithio yn waith parhaus er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau yn amserol a chywir, bod ein hymyraethau yn addas i bwrpas, a bod profiad pob plentyn a'i deulu gyda'r adran y gorau allai fod. Ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn cwblhau gwaith Ffordd Gwynedd gan weithio ar draws gwasanaethau'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac ar y cyd gyda'r Adran Addysg i ddeall yr hyn sy'n bwysig i deuluoedd Gwynedd, cytuno ar egwyddorion, a ffyrdd o wella'r hyn rydym yn ei wneud a sut yr ydym yn gweithio er mwyn rhoi'r gefnogaeth sydd ei angen.

Rydym yn credu bod cynnig **ymyrraeth gynnar** yn allweddol er mwyn helpu plant a'u teuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys. Mae gennym nifer o wasanaethau sy'n ymyrryd yn gynnar, boed hynny yn gynnar ym mywyd plentyn er mwyn iddynt gael y gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu; neu'n gynnar pan fo her neu bryder yn amlygu gyntaf cyn i bethau waethygu; a byddwn yn gwneud hynny drwy weithio gyda'r teulu cyfan.

Mae'r **Timau Gwaith Cymdeithasol** yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth ddwys i blant a'u teuluoedd. Mae gweithwyr cymdeithasol yn gweld plant a'u teuluoedd yn rheolaidd ac yn cadw cysylltiad da gyda hwy gan fod yn effro i faterion o risg i blant a phobl ifanc. Rydym yn sicrhau fod adnoddau ar gael i'w cefnogi a bod eu hanghenion yn glir i ni. Yna, rhoddir cynlluniau ar waith er mwyn ymateb i'w anghenion. Ar adegau, rydym yn cyfeirio ymlaen i dimau sydd yn cynnig ymyrraeth fwy arbenigol, megis y gwasanaethau yn y Tîm Trobwynt.

Mae **Teuluoedd yn Gyntaf** yng Ngwynedd yn cynnig cefnogaeth i deuluoedd yn seiliedig ar eu hanghenion. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ddatblygu ein hymyraethau er mwyn ein galluogi i ymateb i



anghenion teuluoedd yn y modd mwyaf effeithiol, gan dreialu cynlluniau peilot gan Barnardos ac Y Bont yn ymwneud â rheoli gwrthdaro ymysg y teulu a chefnogi llesiant plant. Rydym hefyd wedi parhau i gynnig cefnogaeth i rieni er mwyn datblygu sgiliau rhiantu a pherthnasau iach. Gydag arian ychwanegol eleni, rydym wedi gallu cydweithio gyda Home Start Cymru i ddatblygu prosiect byr er mwyn darparu cefnogaeth i dadau dros y ffôn.

Mae'r **Tîm o Amgylch y Teulu** yn ymyrryd yn gynnar pan fo problemau o fewn teuluoedd yn dod i'r amlwg, ond mae hyn yn digwydd yn wirfoddol a gyda chaniatâd y teulu. Byddwn yn helpu drwy ymateb i anghenion a darparu gwasanaethau priodol. Rydym wedi derbyn 361 o gyfeiriadau i gynllun Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd yn ystod 2020/21, gyda 227 o'r cyfeiriadau hyn yn cael cynnig cefnogaeth bellach gan y Tîm o Amgylch y Teulu a gwasanaethau eraill a gomisiynir trwy'r cynllun.

Os oes nifer o faterion angen sylw o fewn y teulu, gall y teulu dderbyn cefnogaeth fwy dwys gan Gydlynydd Tîm o Amgylch y Teulu a fydd yn dod â phawb at ei gilydd i greu cynllun integredig. Yn ystod y flwyddyn, cafodd 61 teulu gefnogaeth Cydlynydd Tîm o Amgylch y Teulu, gyda chanran uchel o deuluoedd yn nodi fod gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau yn dilyn derbyn ymyrraeth.

Dyma ddywedodd un rhiant:

*'Diolch am yr help efo rhiantu – mae pethau wedi gwella lot efo'r ferch – tydan ni'm yn ffraeo cymaint, ac rydan ni'n gallu gwneud pethau hwyl fel coginio … Mae'r ferch i weld lot hapusach yn yr ysgol ac adref.'*

Mae'r **Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar** yn darparu cefnogaeth i blant o dan 4 oed a'u teuluoedd drwy gefnogi darpariaethau addysg feithrin, datblygu'r sector gofal plant a chwarae, a darparu pecynnau rhiantu i helpu teuluoedd i fagu plant iach, hapus a diogel.

Rydym hefyd yn darparu pecynnau o gefnogaeth fwy dwys mewn ardaloedd penodol o Wynedd drwy'r rhaglen **Dechrau'n Deg**. Mae'r rhaglen yn cefnogi teuluoedd gyda magu plant a rhiantu, datblygiad iaith a lleferydd plant, a chefnogaeth iechyd a gofal, a hynny mewn timau amlasiantaethol ym meysydd addysg, gofal ac iechyd.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn gweithio ar un o'n blaenoriaethau, sef **Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd** yn y gobaith o ddechrau ei weithredu yn y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r Strategaeth yn cynnwys gwahanol lefelau o gyngor a gwybodaeth, i ymyraethau mwy arbenigol a dwys. Weithiau bydd angen gwneud



penderfyniadau anodd, a phan bydd angen i ni ofalu am blentyn, ceisiwn sicrhau lleoliadau addas, a chefnogaeth i'r plentyn a'i deulu.

Swyddogaeth y **Tîm Maethu** yw sicrhau bod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw gartref. Mae'r Tîm yn asesu a chefnogi gofalwyr maeth er mwyn iddynt allu cynnig y gefnogaeth angenrheidiol i blant sy'n dod i'n gofal, ac mae hyn yn flaenoriaeth uchel i'r Adran. Rydym yn ymwybodol bod plant sydd mewn sefyllfaoedd sefydlog yn cael y cyfle gorau i brofi'r ffiniau hynny sydd yn allweddol i ddatblygiad da. Mae hyn yn gosod y sylfaen ar gyfer cyflawni'r canlyniadau gorau iddynt.

Rydym yn ffodus iawn yma yn y Cyngor o'n Gofalwyr Maeth, ac eleni rydym wedi bod yn ymdrechu i recriwtio mwy o ofalwyr. Dros gyfnod o bythefnos, cynhaliwyd ymgyrch ddigidol a oedd yn cynnwys fideo gan unigolion enwog ynghyd â swyddogion y Cyngor. Yn dilyn yr ymgyrch, derbyniwyd 16 ymholiad. Cliciwch **yma** i wylio fideo sy'n dangos profiad un cwpl o fod yn ofalwyr maeth.

O ganlyniad i'r pandemig, sefydlwyd llinell gymorth i ofalwyr maeth fel bod rhywun ar gael yn ystod y penwythnosau i ymateb i unrhyw ymholiadau oedd ganddynt yn ystod y cyfnod. Defnyddiwyd gwefannau cymdeithasol hefyd er mwyn rhannu gwybodaeth ac fel cyfrwng i'r gofalwyr rannu profiadau.

Sefydlwyd y **Gwasanaeth Trobwynt** er mwyn gweithio'n ddwys gyda theuluoedd sydd ar drothwy gofal. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi teuluoedd gydag ystod o gefnogaeth arbenigol, yn gydlynus ac yn amserol, ac eleni gweithiodd y tîm gyda 212 o blant. Byddwn yn gweithredu ar ganlyniadau'r gwaith amlasiantaethol sydd wedi ei ddatblygu yn 2020/21 ar gyfer targedu rhieni ifanc sydd â risg uwch o gyrraedd trothwy gofal gyda'u sgiliau rhiantu.

Mae'r **Tîm Trothwy Gofal** yn cynnig pecynnau cymorth dwys, gyda'r nod o gadw plant yn sefydlog yn eu cartrefi. Eleni, gweithiwyd â 166 o blant, lle roedd 88 o'r achosion hyn yn rhai newydd. Yn ystod y flwyddyn, llwyddwyd i barhau i gadw cyswllt rheolaidd gyda'r plant hyn dros y ffôn, dros gyfryngau ar-lein megis Zoom a thrwy ymweliadau i'w cartrefi.

Mae'r prosiect **Adlewyrchu** yn cynnig cefnogaeth arbenigol i rieni sydd â phlant yn y system gofal yn barhaol. Eleni, rhoddwyd cefnogaeth i 9. Yn ystod y flwyddyn nesaf, y gobaith yw gallu datblygu cymorth i'r fam mewn perthynas â'i chyswllt olaf gyda'i phlentyn/phlant.





## SAFON ANSAWDD 6

## Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni'u hanghenion

Ni fu cynnig cefnogaeth yn ymwneud ag arian, cyflogaeth, llety a chymorth i gael mynediad rhwydd at wasanaethau erioed mor bwysig o ystyried yr hinsawdd sydd ohoni. Un o'n prif flaenoriaethau yw sicrhau digon o dai pwrpasol o safon i gyfarch anghenion poblogaeth sy'n newid. Ym mis Rhagfyr 2020, cymeradwywyd ein **Cynllun Gweithredu Tai** (2020/21 hyd at 2026/27), sydd yn rhaglen o dros 30 o gynlluniau penodol am fuddsoddiad o £77 miliwn er mwyn gwireddu uchelgais ein Strategaeth Tai i "sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd".

Bydd y cynlluniau hyn yn anelu i gyflawni'r amcanion a ganlyn:

- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
- Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
- Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

Gwyliwch y **fideo yma** i wylio'r Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd, i egluro ychydig mwy am y prosiectau tai sydd gennym ar y gweill.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn dechrau gweithredu ar y cynlluniau hyn er mwyn cynyddu'r cyfleon i bobl leol gael cartrefi addas o fewn eu cymunedau.

Mae'r **Gwasanaeth Digartrefedd** yn darparu cyngor a chymorth i bobl sydd yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. Mae'r tîm yn cyflawni dyletswydd statudol y Cyngor er mwyn cwrdd â gofynion y Ddeddf Tai



(Cymru) 2014. Mae eu gwaith yn cynnwys:

- helpu i atal digartrefedd cyn iddo ddigwydd
- asesu anghenion llety ac anghenion cefnogaeth unigolion a theuluoedd sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref
- helpu i ddod o hyd i rhywle arall i fyw pan fo unigolyn neu deulu yn wynebu dod yn ddigartref
- darparu llety dros dro mewn achosion o argyfwng, a sicrhau llety ar gyfer y rhai sydd mewn blaenoriaeth angen.

Ers 2015/16, mae'r Gwasanaeth Digartrefedd wedi gweld cynnydd blynyddol yn nifer yr unigolion sy'n dod atom yn ddigartref. Cyn Covid-19, roeddem wedi gweld cynnydd o 35% yn y nifer sy'n cyflwyno yn ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref dros 5 mlynedd. Mae'r galw'n parhau yn uwch nag erioed gyda 945 o unigolion wedi derbyn gwasanaeth yn 2020/21. O ganlyniad i'r gofyn statudol arnom i sicrhau nad oedd unigolion yn cysgu ar y stryd yn ystod y pandemig, derbyniwyd arian ychwanegol o gronfa newydd gan Lywodraeth Cymru er mwyn gallu darparu llety i bawb sydd yn cael eu cyfeirio atom.

Mae'r gwasanaeth yn darparu nifer o lety dros dro nes bod eiddo parhaol ar gael i bobl ddigartref, gan gynnwys dwy hostel ym mherchnogaeth y Cyngor, 100 eiddo wedi eu prydlesu gan berchnogion preifat a Chymdeithasau Tai. Darparwyd llety ar gyfer 419 o deuluoedd/unigolion yn 2020/21. Mae'r niferoedd digartref wedi cynyddu'n gyson ers rhai blynyddoedd ac mae pwysau cynyddol ar y gwasanaeth i ddelio gyda'r angen i gartrefu pobl ar fyr rybudd.

Gan fod llawer o'r bobl sy'n ddigartref hefyd yn fregus, darperir cefnogaeth i sicrhau fod unigolion yn gallu cynnal eu tenantiaeth ac osgoi dod yn ddigartref eto. Rhoddir cymorth a chyngor ar nifer o faterion megis hawlio budd-daliadau, cynnal a chadw llety, deall hawliau a chyfrifoldebau, ac ymgeisio am grantiau ar gyfer dodrefnu eiddo.

Mae nifer o brosiectau o fewn y Cynllun Gweithredu Tai a fydd yn arwain at unedau ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd yng Ngwynedd. Ein gobaith yw gallu dechrau'r gwaith datblygu yn fuan yn y flwyddyn a fydd yn arwain at 44 o Unedau gyda Chymorth yn ychwanegol ar gyfer pobl ddigartref. Mae gennym hefyd brosiect ar y gweill i adnewyddu hen fanc Natwest ar y Maes yng Nghaernarfon ar y cyd â GISDA er mwyn darparu 5 o fflatiau ar gyfer pobl ifanc digartref, ynghyd â fflat hyfforddi. Disgwylir i'r gwaith yma gael ei gwblhau yn mis Mawrth 2022.



Rydym wedi cyflwyno **Polisi Gosod Tai** newydd sydd wedi bod yn weithredol ers yr haf. Mae'r polisi hwn yn blaenoriaethu pobl leol, ac yn disodli'r hen system bwyntiau i ddyrannu tai. Mae'r drefn newydd yn golygu fod ceisiadau am dai cymdeithasol yn cael eu rhoi mewn un o 4 'band' yn ddibynnol ar eu hanghenion tai a'u cysylltiad gyda Gwynedd.

Yn ystod 2021/22 byddwn angen sicrhau fod trefniadau effeithiol ar gyfer gweithredu'r polisi gosod newydd a sefydlu trefn i fonitro fod y polisi hwn yn cael ei weithredu drwy'r Sir i sicrhau'r cyfleoedd gorau i bobl Gwynedd.

Ers 2016 mae Gwynedd wedi cyfrannu at gynllun Llywodraeth y DU i Ailsefydlu Pobl Fregus o Syria. Ymrwymodd y Cyngor i groesawu a chartrefu hyd at 40 o unigolion oedd wedi gorfod ffoi o Syria yn dilyn y rhyfeloedd yno. Bellach rydym wedi cyflawni ein haddewid fel Cyngor ac yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod wedi gallu helpu wyth teulu i ymgartrefu yma yng Ngwynedd.

Yn sgil llwyddiant y cynllun hwn, mae'r Cyngor bellach wedi ymrwymo i groesawu hyd at 20 o ffoaduriaid bregus sy'n cael eu hadnabod gan Uchel Gomisiwn Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig (UNHCR) fel rhan o'r cynllun Ffoaduriaid Byd Eang dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r Cyngor wedi parhau gyda rhaglen i fuddsoddi a moderneiddio ein **cartrefi preswyl** er mwyn gwella ansawdd a sicrhau adnoddau pwrpasol i gwrdd ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Yn ystod y flwyddyn cafodd gwaith o greu Uned Ddementia newydd ei gwblhau ac fe gadwyd y ddarpariaeth hon fel adnodd wrth gefn yn ystod y pandemig. Ochr yn ochr â hyn, mae rhaglenni buddsoddi gwerth hanner miliwn wedi parhau yng Nghefn Rhodyn, Dolgellau lle byddwn yn uchafu ansawdd adnoddau a chreu darpariaeth bariatrig newydd, ac rydym hefyd yn creu Uned Ddementia o fewn cartref Hafod Mawddach. Rydym yn gobeithio y bydd yr adnoddau hyn o gymorth i gwrdd ag anghenion amrywiol trigolion Gwynedd gan hyrwyddo annibyniaeth ac urddas.

Mae ein **Huned Addasiadau** yn gyfrifol am hybu annibyniaeth a lles trigolion Gwynedd drwy ddarparu addasiadau prydlon a safonol i dai oedolion a phlant sydd ag amhariad corfforol. Buddsoddir oddeutu £1.3m y flwyddyn ar gynlluniau megis creu ystafelloedd ymolchi hygyrch, gosod rampiau y tu allan i'r tŷ, codi estyniadau ac ati. Mae oddeutu 30 o'r rhain yn gyfeiriadau a dderbynnir gan ysbytai er mwyn galluogi i gleifion allu dychwelyd adref.



Yn ystod y flwyddyn, addaswyd 132 tŷ ar gyfer unigolion ag amhariad corfforol. Rydym hefyd wedi parhau i osod a gwasanaethu offer **Teleofal** yng nghartrefi rhai o'n pobl fwyaf bregus o amgylch y sir yn ystod y cyfnod clo.

Un o flaenoriaethau'r Cyngor yw annog **Mwy o drigolion Gwynedd i chwarae rhan lawn yn y byd gwaith**. Mae nifer sylweddol o drigolion yn methu â chyflawni eu llawn botensial gan eu bod wedi eu tangyflogi neu wedi eu heithrio o gyflogaeth. Mae bod y tu allan i'r byd gwaith yn lleihau cyfoeth trigolion a chynyddu'r galw ar adnoddau cyhoeddus ac mae atal hyn yn rhan allweddol o'r agenda gwrth-dlodi. Ceir budd uniongyrchol o fod mewn gwaith o ran cynyddu enillion, ond hefyd ceir budd ehangach o ran iechyd, cyfleoedd bywyd plant a balchder mewn cymunedau.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu **Tasglu Diweithdra** er mwyn mynd i'r afael â chynnydd mewn lefelau diweithdra yn y sir o ganlyniad i'r pandemig. Rydym wedi bod yn gweithio gyda chyflogwyr, yn arbennig o fewn y diwydiant ymwelwyr, i sicrhau bod mwy o bobl Gwynedd yn elwa o'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael, ac yn cefnogi trigolion Gwynedd i fagu'r sgiliau digidol sydd eu hangen i gael mynediad i waith. Rydym hefyd yn gweithio ar brosiect arloesol cyffrous o'r enw Blaentroed, ar y cyd gyda mudiad Dolan a Grŵp Llandrillo Menai, er mwyn cynnig cyfnod o waith a hyfforddiant i bobl ifanc Gwynedd sydd heb swydd, gan hefyd gynnig y cyfle i fusnesau lleol gael help heb unrhyw gost wrth iddynt ailagor ac adfer.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cefnogi dros 200 o unigolion gyda'u **sgiliau cyflogadwyedd**, gyda dros 50 o'r rhain wedi dod o hyd i waith yn llwyddiannus. I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau uchod ac yn datblygu cynlluniau pellach megis cydweithio'n agos gyda'n partneriaid ledled Gogledd Cymru a gydag Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU i wella cydlyniad ein gwasanaethau.

Yng nghyd-destun heriol diweithdra, ynghyd â than-gyflogaeth a chyfyngiadau ar allu pobl i weithio, mae'r angen am **wasanaethau cynghori ariannol, dyledion a mynediad i fudd-daliadau** wedi bod yn bwysicach nag erioed. Rydym wedi cydweithio gyda'n partneriaid Cyngor ar Bopeth a'r Cymdeithasau Tai ynghyd ag elusennau eraill er mwyn hyrwyddo'r gwasanaethau cynghori ariannol lleol, ymgyrchoedd i uchafu incwm, a chyd-weinyddu talebau ar gyfer helpu gyda chostau tanwydd a chostau bwyd mewn argyfwng. Fel rhan o hyn, darparwyd taflen gyda phob bil Treth Cyngor a ddosbarthwyd i holl aelwydydd y sir yn ystod mis Mawrth er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cynghori a chefnogaeth sydd ar gael.

Fel Awdurdod, rydym hefyd wedi bod yn gweinyddu **taliadau uniongyrchol** cinio ysgol am ddim i deuluoedd yn ogystal â thaliadau i drigolion sy'n colli incwm oherwydd yr angen iddynt fod yn hunanynysu. Rydym wedi



parhau i weithio gyda'r banciau bwyd a chynlluniau bwydo cymunedol i ddatblygu isadeiledd ar draws cymunedau'r sir er mwyn sicrhau mynediad i fwyd iach a rhad, ac i fwyd mewn argyfwng, sydd hefyd yn mynd i'r afael â lleihau gwastraff bwyd.

Rydym hefyd wedi blaenoriaethu cyfleoedd hyfforddiant a gwaith i oedolion gydag anableddau dysgu. Sefydlwyd **Grŵp Prosiect Cyfleoedd Gwaith** eleni er mwyn arwain y gwaith hwn. Yn ogystal, fel rhan o ddatblygu ein hybiau cymunedol ar draws Gwynedd, bydd cyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd gwaith yn rhan annatod o'r hybiau hyn, er enghraifft bydd cyfleoedd hyfforddi yng Nghegin Arfon, Siop Galwch Acw yng Nghaernarfon, ac ati. Bydd y Tîm Llwybrau Llesiant hefyd yn canolbwyntio ar redeg cyrsiau achrededig er mwyn hwyluso a hybu unigolion gydag anableddau dysgu i fod yn barod ar gyfer y byd gwaith.

Rydym yn gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd i gefnogi unigolion ag anawsterau iechyd meddwl er mwyn hyrwyddo adferiad a'u cefnogi i fyw yn annibynnol. Rydym hefyd yn cynnig asesiad a chefnogaeth i ofalwyr iechyd meddwl. Cafodd prosiect Gallaf I (ICAN) ei ddatblygu eleni er mwyn cynnig cefnogaeth i unigolion yn y gymuned, yn agos at adref. Yn rhan o'r prosiect, agorwyd canolfannau cymunedol, er enghraifft agorwyd canolfan ym Mhwllheli yn fuan cyn i'r pandemig daro. Gwaetha'r modd, o ganlyniad i Covid-19, bu rhaid cau yr holl ganolfannau. Mewn ymateb i hyn, bu ICAN yn rhoi cefnogaeth i unigolion yn rhithiol a dros y ffôn, ac roedd unigolion yn medru cysylltu'n uniongyrchol er mwyn derbyn cefnogaeth.

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau bod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan mai dyma'r iaith yr ydym yn gweithredu ynddi. Mae'n waith parhaus i **Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor**, ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.

I'r dyfodol byddwn yn cyfrannu at raglen waith fydd yn tynnu Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a Chyngor Môn ynghyd i sefydlu trefniadau gweithio mewn sefyllfa ddwyieithog ar gyfer Timau Adnoddau Cymunedol, sef y timau fydd yn darparu gofal a chefnogaeth i'r bobl sydd ei angen.



# 4. Sut rydym yn gwneud ein gwaith

## Yr Iaith Gymraeg a chyflawni yn erbyn gofynion Fframwaith 'Mwy na Geiriau'

Rydym wedi ymrwymo'n llawn i **Fframwaith 'Mwy na Geiriau'** Llywodraeth Cymru, sy'n gosod disgwyliadau ar gynghorau lleol a byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Rwyf yn arwain yn genedlaethol ar yr agenda Mwy na Geiriau ar ran Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Rwyf hefyd yn cadeirio Fforwm Mwy na Geiriau Gogledd Cymru, ac fel Cyngor rydym yn cymryd rhan lawn yn y Fforwm hwn. Mae'n fodd o ddarparu cyfleoedd i rannu syniadau a chydweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd, cynghorau a mudiadau eraill.

Mae gan y Cyngor bolisi recriwtio cadarn sy'n bodoli ers blynyddoedd lawer. Mae'n ofynnol i staff y Cyngor allu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg hyd at safon sy'n briodol ac er mwyn gallu cyflawni eu dyletswyddau'n llawn yn unol â pholisi iaith y Cyngor. Mae pob swydd wedi ei hasesu o ran anghenion iaith ac mae'r sgil iaith yn rhan o'r broses recriwtio. Os nad yw'r person a benodir yn cyrraedd dynodiadau iaith y swydd, mae'r rheolwr llinell yn cysylltu gyda Swyddog Dysgu a Datblygu'r Gymraeg o fewn y Cyngor er mwyn trefnu amserlen briodol. Er mwyn cyrraedd anghenion pobl Gwynedd, disgwylir i'r person gyrraedd dynodiadau iaith y swydd o fewn yr amserlen a bennir. Rhoddir cefnogaeth lawn i'r unigolyn gyflawni hyn.

Rydym yn hyderus iawn yng ngallu'r adrannau i ddarparu eu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Hyd yma, mae 730 o staff yr adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cwblhau asesiad i sicrhau eu bod yn cyrraedd yr anghenion iaith priodol i'w swydd, ac o'r staff hyn gall 99% ohonynt siarad Cymraeg, boed yn rhugl neu ar lefel sylfaenol.

Mae mwy o gyfleoedd nag erioed ar gael i ddysgu neu ddatblygu Cymraeg yn yr hinsawdd ddigidol newydd, ac yn ystod y flwyddyn mae'r Cyngor wedi cefnogi 27 aelod staff o'r adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant, a Phlant a Chefnogi Teuluoedd. Mae darparu gwersi ac adnoddau ar-lein yn fanteisiol am nifer o resymau, yn cynnwys:

- dim angen teithio i leoliadau dysgu, ac felly:
    - nid oes angen rhyddhau mwy nag amser y wers i unigolyn
    - gall dysgwyr ar draws Gwynedd fynychu gwersi, waeth lle maen nhw'n byw neu'n gweithio

- gellir cynnal mwy o wersi ar yr un pryd (bu argaeledd ystafelloedd dysgu yn ein cyfyngu cyn hyn)
- gellir manteisio ar gymorth a chefnogaeth unigolion o leoliadau ar draws Gwynedd, o safbwynt tiwtoriaid, cydweithwyr (trwy ein Cynllun Cyfeillion Cymraeg) a swyddogion a thiwtoriaid iaith mewnol
- mwy o hyblygrwydd mewn rhai achosion o ran amser a chynnwys

I'r ganran fechan nad ydynt yn medru siarad Cymraeg o fewn y gweithlu gofal, ceir tystiolaeth o newid diwylliant gyda chynlluniau bwriadol yn cael eu rhoi yn eu lle i ddysgu Cymraeg, a'r rheolwyr ac uwch-reolwyr yn cymryd mwy o berchnogaeth a gyrru'r agenda ymlaen, e.e. mae dau Reolwr Ardal wedi cydnabod bod cyfrifoldeb arnyn nhw a'r rheolwyr cartref i gefnogi dysgwyr wedi iddynt ddychwelyd i'r gweithle. Gweler enghraifft o hyn yn Astudiaeth Achos 3 yn Atodiad 2 yr Adroddiad hwn (tudalen 44) i ddysgu mwy am hyn.

## Ein gweithlu a sut yr ydym yn cefnogi eu swyddogaeth broffesiynol

Mae gofal cymdeithasol yng Ngwynedd yn cael ei ddarparu gan gymysgedd eang o wasanaethau statudol, asiantaethau preifat a'r trydydd sector, ac un o heriau mwyaf ein gwasanaethau cymdeithasol yw staffio'r maes. Mae'r heriau yn benodol amlwg yn y maes gofal cartref, ac mae hyn yn gynyddol bryderus i mi fel Cyfarwyddwr wrth i ni fethu â darparu pecynnau gofal mewn rhai sefyllfaoedd o ganlyniad i ddiffyg staff.

Mae gennym weithlu effeithiol ac ymroddedig, ac mae hyn wedi ei amlygu yn arbennig yn ystod argyfwng Covid-19. Ond, mae'n rhaid i ni sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdopi gyda'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol, ac mae'r angen hwn wedi'i flaenoriaethu yng Nghynllun y Cyngor 2018-23.

Rydym wedi bod yn ymdrechu i geisio cael gwell dealltwriaeth o'r heriau sy'n bodoli yn y maes, ac mewn ymateb i hynny datblygwyd rhaglen waith sy'n ceisio cyfarch rhai o'r pryderon. Bydd y gwaith o sefydlu trefn darparu gofal cartref newydd yn effeithio'n bositif ar elfennau megis cyflogau staff rheng flaen y sector breifat, hyd cytundebau gwaith a hybu llwybrau gyrfa'n y maes.

Yn cyd-fynd â'r gwaith hwn, cafwyd **ymgyrch** eleni i gynyddu maint y gweithlu gofal ym maes Oedolion er mwyn ymateb i brinder gweithlu i sicrhau parhad gwasanaeth. Sefydlwyd **#SOSGalwGofalwyr** er mwyn ceisio recriwtio dros 100 o aelodau staff newydd, yn rhan-amser a llawn-amser.



Yn aml iawn, mae ein swyddogion angen sgwrs neu gysur yn dilyn ymweld ag achosion anodd yn y maes, ac roedd modd gwneud hyn yn rhwydd mewn modd eithaf anffurfiol mewn amgylchedd swyddfa. Nid yw ein swyddogion wedi medru gweithio yn ein swyddfeydd yn ystod y flwyddyn, ac felly mae cynnig cefnogaeth o'r fath wrth weithio o adref wedi bod yn anoddach, ond rydym wedi llwyddo i ddarparu adnodd swyddfa sy'n cyd-fynd gyda rheoliadau Covid-19 er mwyn i'r staff hynny gael dod i'r swyddfa pan fyddant angen gwneud hynny er mwyn cael y gefnogaeth maen nhw ei hangen.

Rhoddodd Covid-19 gyfle i rai aelodau staff y Gwasanaethau Cymdeithasol arallgyfeirio i dimau newydd y Timau Cymorth Covid. Adleolwyd nifer fawr o staff o Adrannau eraill y Cyngor i'r maes Gofal Cymdeithasol hefyd, boed yn gweithio yn y maes cyfarpar diogelu personol (PPE), yn y Tîm Profi, Olrhain a Diogelu neu mewn cartrefi gofal.

Rydym hefyd yn awyddus iawn i gynllunio olyniaeth er mwyn sicrhau bod gennym y gweithwyr cywir gyda'r sgiliau cywir ar gyfer rŵan a'r dyfodol. Er enghraifft, mae gennym Gynllun Hyfforddeion yn rhedeg yn flynyddol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Yn ychwanegol at hyn, rydym yn falch o allu cynnig prentisiaethau mewn amryw feysydd eleni, yn cynnwys anableddau dysgu, gofal oedolion a gofal plant. Dyma **fideo** yn egluro ychydig mwy.

Gwaetha'r modd, ar ddechrau'r argyfwng bu'n rhaid atal y lleoliadau ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol. Fodd bynnag, wrth i'r sefyllfa sefydlogi ac wrth i ni ddod i arfer gyda gweithio'n rhithiol, bu trafodaethau manwl rhwng Prifysgol Bangor a Chyngor Gwynedd i gynllunio ar gyfer ailddechrau lleoliadau. Bu rhaid i hyn gynnwys ystyriaeth a buddsoddiad mewn dulliau rhithiol o weithio (gliniaduron ac ati) a hyfforddiant ar-lein. Rwyf yn fodlon iawn gyda'r cydweithio a fu'n digwydd yn ystod y flwyddyn rhyngom ni fel Cyngor a'r Brifysgol, ac rwyf hefyd yn hynod falch o'r myfyrwyr am fod mor barod i gynnig cymorth yn ystod y cyfnod anodd hwn.

## Ein hadnoddau ariannol

Fel popeth arall eleni, mae Covid-19 wedi cael effaith ariannol sylweddol ar y Cyngor, gyda goblygiadau hynny'n golygu costau ychwanegol, colledion incwm a llithriad yn ein rhaglen arbedion gan fod y Cyngor wedi blaenoriaethu diogelwch i iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng. Sefydlodd Llywodraeth Cymru gronfa caledi tuag at ddigolledu costau a cholledion incwm Awdurdodau Lleol.

Wrth gwrs, mae'r maes gofal wedi wynebu pwysau sylweddol eleni, ac o ganlyniad bu gorwariant yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Er ein bod wedi ceisio parhau gyda'n

cynlluniau arbedion ariannol, bu angen i ni geisio ymateb i'r argyfwng ar yr un pryd. Wrth gwrs, rydym yn rhoi sylw teilwng i'r sefyllfa ariannol er mwyn sicrhau bod ein cyllidebau'n addas i gwrdd â'r gofyn, ond rydym hefyd yn sicrhau ein bod yn gweithredu mor effeithiol ag y bo modd.

Mae'r pwysau ychwanegol ar gyllidebau y maes gofal wedi ei gydnabod gyda chyllidebau parhaol ychwanegol gwerth dros £2.7 miliwn wedi ei ddyrannu ar gyfer y maes gofal ar gyfer cyllideb 2021/22.

## Gweithio mewn partneriaeth

Rhan greiddiol o'n gwaith yw gweithio mewn partneriaeth yn lleol ac yn rhanbarthol gyda phartneriaid megis y Bwrdd Iechyd, yr Heddlu a'r trydydd sector. Ceir cyfeiriadau drwy gydol yr adroddiad at wahanol ddarnau o waith sy'n aml yn cael eu gweithredu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Rwy'n falch iawn o'r berthynas sydd gennym gyda'n partneriaid yn lleol, lle mae cydweithio adeiladol yn digwydd a thrafodaethau agored ar unrhyw wahaniaeth barn i geisio sicrhau ein bod yn cytuno ar y ffordd orau o weithio ar gyfer ein poblogaeth.

Wrth gwrs, bu mwy o gydweithio nag erioed eleni yn ystod yr argyfwng er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd. Cydweithiwyd gyda nifer fawr o fusnesau lleol yr ardal a aeth y filltir ychwanegol i gefnogi ein cymunedau drwy ymdrechion megis darparu prydau poeth i drigolion, cynorthwyo gyda chasglu a danfon presgripsiynau i bobl oedd yn gorfod cysgodi, cyfrannu at y banc bwyd, ac ati.

Bu gwaith yn digwydd ar y cyd hefyd gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, darparwyr tai cymdeithasol Gwynedd, sectorau gwirfoddol megis Mantell Gwynedd ac Age Cymru i roi trefniadau brys ar waith er mwyn ymateb i'r pandemig. Er enghraifft, gweithiwyd mewn partneriaeth ag Adra, darparwr tai yng Ngwynedd, er mwyn dosbarthu tua 1,000 o gyfarpar diogelu personol, yn ogystal â chefnogi banciau bwyd Gwynedd. Hefyd, symudwyd 23 o wasanaethau'r Bwrdd Iechyd o adeiladau Betsi Cadwaladr i adeiladu'r Cyngor. Yn ogsystal, bu ymdrechion i gydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd ar sefydlu Ysbyty Enfys ym Mangor ac ar y Rhaglen Frechu.

Sefydlwyd nifer o grwpiau a sefydliadau gwirfoddol yn ystod y flwyddyn hefyd, a chydweithiwyd gyda nifer o'r rhain er mwyn creu map o'r gwasanaethau sydd ar gael ym mhob ardal o'r sir:

**https://www.google.com/maps/d/viewer?mid=1cVj6cth01MifwHTEbqObs9IMw8BKrXtz&ll=52.97441139028482%2C-4.2539057576171935&z=11**

Llwyddwyd i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod yr argyfwng, a bu cydweithio agos gyda phartneriaid er mwyn cefnogi'r ymdrechion. Y prif beth sydd wedi'i amlygu gan yr argyfwng yw pwysigrwydd cydweithio agos rhyngom fel partneriaid i'r dyfodol.

Mae **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru** yn weithredol ers rhai blynyddoedd bellach. Rwyf i a'r Aelod Cabinet ar gyfer Oedolion, Iechyd a Llesiant, y Cynghorydd Dafydd Meurig, yn aelodau o'r Bwrdd hwn. Rydym hefyd fel partneriaid yn cyfarfod fel Grŵp Integredig Gofal ac Iechyd er mwyn sicrhau ein bod yn cytuno ar y ffordd ymlaen ar lefel fwy lleol. Mae'r grŵp hwn hefyd yn atebol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn sy'n cryfhau'r atebolrwydd lleol. Rwyf hefyd yn aelod cyswllt ar Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Mae'r swyddogaeth hon yn ymwneud â chynghori a rhoi adborth i'r Bwrdd Iechyd ar faterion sydd yn ymwneud â'r maes gofal cymdeithasol, ac er nad oes gennyf rôl sydd â phleidlais, rwy'n ei ystyried yn fuddsoddiad amser gwerthfawr o ran ceisio rhoi gogwydd gofal ar y trafodaethau hyn.

Mae'r Grŵp Cyswllt Trydydd Sector, sy'n rhoi trosolwg o'r maes ac sy'n annog a gwthio cydweithio effeithiol rhwng sefydliadau statudol a'r trydydd sector, hefyd yn bwysig yng nghyd-destun gofal. Yn ystod y flwyddyn, bu cydweithio da yn digwydd i rannu gwybodaeth ac adnoddau yn ystod yr argyfwng, ac mae'n gyfrwng da i drefnu cyflwyniadau gan wahanol aelodau o'r Grŵp er mwyn i eraill ddysgu am y gwaith sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r sir. Mae'r Grŵp Cyswllt yn sicrhau bod cyfleoedd i wella gwasanaethau i'r boblogaeth yn cael eu trafod a'u cytuno, ac mae'n debygol y bydd argyfwng Covid-19 wedi cael effaith bositif ar y ffordd yr ydym yn cydweithio i gefnogi'n cymunedau. Bydd dal ein gafael ar hynny'n hollbwysig.

## Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd

Rhan o'r Ddeddf sy'n bwysig imi dynnu eich sylw ati yw Rhan 8, sy'n nodi'r gofynion sydd arnaf fel Cyfarwyddwr Statudol am Wasanaethau Cymdeithasol. Mae Cabinet Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo **'Protocol y Cyfarwyddwr'**. Dogfen yw hon sy'n amlinellu sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfarch y gofynion deddfwriaethol. Mae'r protocol hwn yn sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn ynghyd â llinellau atebolrwydd cryf.

Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu mewnol cadarn i gefnogi rheolaeth effeithiol o wasanaethu cymdeithasol. Yn ogystal â chyflwyno adroddiadau i bwyllgorau craffu, mae gennym hefyd strwythur herio perfformiad adrannol sefydlog. Rydym hefyd yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r Arolygiaeth i sicrhau bod ein gweithdrefnau'n gadarn. Mae'r Pwyllgorau Craffu wedi cyfrannu'n helaeth eto eleni wrth graffu ar feysydd arbennig a chynnig persbectifau pwysig inni er mwyn gwella'n barhaus.



Eto eleni, mae'r Cabinet wedi arddangos ei ymrwymiad i gefnogi gwasanaethau gofal y Cyngor, gan fuddsoddi'n ariannol yn y gwasanaethau hyn ar gyfer gwireddu'r cynlluniau sydd ar y gweill. Mae'r Cyngor wedi pennu dau o aelodau'r Cabinet ar gyfer y meysydd o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol, sef y Cynghorydd Dafydd Meurig ar gyfer y meysydd Oedolion, Iechyd a Llesiant, a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan ar gyfer y meysydd Plant a Chefnogi Teuluoedd. Rydym hefyd yn falch iawn o gael y Cynghorydd Craig ab Iago yn Aelod Cabinet ar gyfer Tai, sydd wedi bod yn llawer o help i'r agenda gofal ehangach.

# 5. Blaenoriaethau 2021/22

Dyma brif flaenoriaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol am y flwyddyn 2021/22. Gellir cael rhagor o fanylion amdanynt ym **Mlaenoriaethau Gwella'r** Cyngor:

- Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant
- Sicrhau darpariaeth gofal addas a llesiant cynaliadwy i'r dyfodol
- Gwella safon ein darpariaeth gofal ar draws y sir
- Ail-ddylunio ein gwasanaethau gofal llesiant
- Y gweithlu a recriwtio yn y maes gofal
- Sicrhau ein bod yn cadw teuluoedd gyda'i gilydd
- Sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth er mwyn eu cadw yn ein cymunedau
- Sicrhau fod teuluoedd a phlant gydag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu
- Cefnogi llesiant pobl

# 6. Gwybodaeth Bellach a Dogfennau Allweddol

## Dogfennau Llesiant a Phoblogaeth

Asesiad Llesiant Gwynedd

Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn

Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cymru Iachach

## Polisïau Gwynedd

Cynllun y Cyngor

Adroddiad Perfformiad y Cyngor

Gwybodaeth Hyfforddiant

Polisi Iaith

Gwrando, ymateb, gwella

## Mynediad at wybodaeth bellach

Dewis Cymru

## Pryderu am unigolyn.

Os ydych yn gwybod am unigolyn sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu yn cael ei gam-drin, mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i'r Cyngor neu'r heddlu.

Os yw'r unigolyn mewn perygl uniongyrchol ffoniwch yr heddlu ar 999. Os nad yw mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch y Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted ag y bo modd i rannu eich pryderon.

**Plentyn:**

**01766 772577** • **01248 353551** (y tu allan i oriau gwaith) • cyfeiriadauplant@gwynedd.llyw.cymru

**Oedolyn:**

**01766 772577** • **01248 353551** (y tu allan i oriau gwaith)

# ATODIAD 1:
# Gwybodaeth ynghylch y Safonau Ansawdd fel nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014)

**Safon Ansawdd 1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y maent am eu cyflawni**

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- sicrhau mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth clir, dealladwy i gefnogi pobl i gynnal eu lles a gwneud penderfyniadau gwybodus
- gweithio gydag unigolion, eu gofalwyr a sefydliadau sy'n bartneriaid, i gefnogi a chynnal annibyniaeth unigolyn heb yr angen am ofal a chymorth
- cwblhau asesiadau lles mewn modd amserol
- sicrhau bod penderfyniadau'n parchu amgylchiadau unigol ar draws yr ystod gyfan o anghenion a'u bod yn rhoi sylw priodol i gonfensiynau ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer plant, pobl hŷn a phobl anabl
- sicrhau bod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch
- galluogi pobl i gael rheolaeth dros gynllunio a darparu gofal
- hyrwyddo ffyrdd o fyw iach a'u cefnogi
- galluogi mynediad i wasanaethau a gweithgareddau sy'n cynnal iechyd meddwl a lles emosiynol
- annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, i fod yn actif ac elwa o ofal a chymorth ataliol rhagweithiol
- trefnu eiriolaeth annibynnol lle bo angen neu gyfeirio at fathau eraill o eiriolaeth i alluogi pobl i oresgyn rhwystrau i gyfranogiad wrth adolygu a diwallu anghenion
- trefnu enwau cyswllt a rhannu gwybodaeth berthnasol gyda phartneriaid er mwyn caniatáu trosglwyddo gofal a chymorth yn llyfn ar draws y gwasanaethau
- hwyluso cynlluniau gofal a chymorth amlddisgyblaethol
- rhoi trefniadau ar waith ar gyfer asesu anghenion a phenderfynu ar gymhwysedd
- egluro heriau yn ogystal â chyflawniadau
- mesur effaith y gofal a'r cymorth, a chymorth i ofalwyr ar fywydau pobl a'u canlyniadau lles
- sicrhau bod pobl yn ymwybodol o dalu am ofal a threfniadau codi tâl



## Safon Ansawdd 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol pobl

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- hyrwyddo a chefnogi ffyrdd o fyw iach
- cefnogi gwasanaethau mynediad i gynnal iechyd meddwl a lles emosiynol
- annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles, bod yn actif ac elwa o ofal a chymorth ataliol rhagweithiol

---

## Safon Ansawdd 3: Diogelu ac amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- ymateb yn effeithiol i amgylchiadau sy'n newid ac adolygu cyflawniadau canlyniadau lles unigolion yn rheolaidd
- darparu gofal a chefnogaeth i gwrdd ag anghenion a aseswyd i amddiffyn pobl rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu niwed arall
- datblygu trefniadau amddiffynnol ar gyfer y rhai sy'n rhoi eu diogelwch eu hunain mewn perygl i atal camdriniaeth ac esgeulustod.
- rheoli risg mewn ffordd sy'n grymuso pobl i deimlo mewn rheolaeth sy'n gyson ag anghenion diogelu
- gweithio mewn partneriaeth i ymchwilio i honiadau o gamdriniaeth neu esgeulustod er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed
- darparu eiriolaeth mewn perthynas â diogelu

## Safon Ansawdd 4: Annog a darparu cefnogaeth i bobl ddysgu a chyfranogi mewn cymdeithas

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- darparu cefnogaeth i bobl wneud y pethau sydd o bwys iddynt hwy
- helpu pobl i ennill y sgiliau a'r cyrhaeddiad addysgol sydd angen arnynt i gymryd rhan yn y pethau sydd o bwys iddynt hwy
- annog pobl i fod yn aelodau gweithredol o gymunedau a chefnogi'i gilydd i leihau ynysu cymdeithasol.

## Safon Ansawdd 5: Darparu cefnogaeth i bobl er mwyn iddynt ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasau iach yn y cartref, gyda'u teulu ac ar lefel bersonol

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- darparu cefnogaeth i bobl gynnal perthnasau sydd o bwys iddynt, yn gyson ag anghenion diogelu
- helpu pobl i gydnabod perthnasau anniogel ac i ddiogelu eu hunain rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- lle bo'n briodol, rhoi ystyriaeth i farn teuluoedd, gofalwyr a pherthnasau personol eraill wrth asesu anghenion gofal a chymorth

## Safon Ansawdd 6: Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni'u hanghenion

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- darparu cefnogaeth i bobl gyfranogi fel dinasyddion gweithgar yn economaidd ac yn gymdeithasol
- darparu cefnogaeth i bobl gael gwaith ystyrlon a chynnal y gwaith hwnnw
- darparu cefnogaeth i bobl gael cyngor a chymorth ariannol a help gyda budd-daliadau a grantiau
- darparu mynediad i wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill o ddewis
- darparu cefnogaeth i bobl gael llety sy'n diwallu eu hanghenion ac i hwyluso byw'n annibynnol

# ATODIAD 2: Astudiaethau Achos

## Astudiaeth Achos 1: Tîm Cymorth Covid

Cysylltodd Mr X gyda'r Tîm am ei fod yn pryderu am ei fam, a oedd wedi derbyn llythyr cysgodi. Roedd Mr X yn trefnu a thalu am ofal preifat i'w fam, ond roedd yn bryderus bod ei hiechyd a'i chof yn gwaethygu. Nid oedd yn siŵr sut oedd ei fam, gan nad oedd yn gallu teithio i'w gweld - roedd ei gar wedi torri a doedd dim modd ei drwsio na defnyddio cludiant cyhoeddus ar y pryd. Roedd aelod o'r Tîm Cymorth Covid yn cadw cyswllt rheolaidd gyda Mr X' yn sownd ar ddechrau'r paragraff nesaf? Ac yna 'Bu Mr X yn sâl yn ystod y cyfnod clo.

Roedd aelod o'r Tîm Cymorth Covid yn cadw cyswllt rheolaidd gyda Mr X. Roedd angen help i gael siopa a doedd neb yn mynd â'r ci am dro. Roedd ei fudd-dal PIP wedi dod i ben, ac roedd yn ansicr be fyddai'n digwydd iddo nesaf. Felly, daeth yn amlwg fod gan Mr X broblemau iechyd ei hun gan ei fod yn derbyn y budd-dal hwnnw, ond nid oedd yn pryderu am ei iechyd ei hun ac roedd yn fodlon gyda'r gefnogaeth gan y meddyg a'r arbenigwr yn yr ysbyty.

Mae Mr X yn byw gyda'i fab, ac roedd Mr X braidd yn bryderus amdano gan fod ei sylw a'i amser yn mynd ar boeni am ei fam. Nid oedd yn siŵr sut oedd ei fab yn ymdopi. Roedd y ci yn gwmni i'r mab. Bu Mr X yn sâl yn ystod y cyfnod clo ac nid oedd yn gallu mynd allan.

**Beth wnaethon ni?**

- Cadw cyswllt rheolaidd.
- Tynnu'r Tîm Oedolion i mewn ar gyfer asesiad gofal a chymorth, ac mae pecyn wedi ei gynnig iddo drwy'r Gweithiwr Cymdeithasol.
- Tynnu'r Tîm Plant i mewn ar gyfer help rhiantu a chais am Gydlynydd Teulu gan fod sawl gwasanaeth yn rhan o'u bywydau erbyn hyn.
- CAB wedi cymryd ei achos apêl PIP ymlaen, ac yn gwneud ceisiadau budd-dal eraill yn y cyfamser.
- Gwirfoddolwr yn cerdded y ci.
- Grŵp Lleol yn danfon bwyd.

**Canlyniad**

- Mae Mr X bellach yn hapus fod ei incwm yn cael sylw a bod cefnogaeth ar gael i'w fam gan y Tîm Oedolion a'i fod yn cael cefnogaeth gan Swyddog Cefnogi Teulu.
- Mae'r gefnogaeth gymunedol wedi dod i ben gan ei fod bellach yn gallu gwneud mwy dros ei hun.



## Astudiaeth Achos 2: DementiaGo

Mae Mr a Mrs Jones yn byw yn ardal Arfon yng Ngwynedd. Mae gan Mr Jones ddementia, a Mrs Jones yw ei brif ofalwr. Ers dwy flynedd, mae Mr a Mrs Jones wedi bod yn aelodau brwd o ddosbarth DementiaGo yn Byw'n Iach Arfon. Bu i Mr Jones hefyd fwynhau'r sesiynau Pêl-droed Cerdded, a mynychodd chwe sesiwn ddiwylliannol a chelfyddydol yn Amgueddfa Lechi Llanberis.

Oherwydd Covid-19 gohiriwyd yr holl weithgareddau wyneb yn wyneb a'r unig gyswllt a gawsant â thîm Dementia Actif Gwynedd oedd galwadau ffôn wythnosol rheolaidd. Yn ystod rhai o'r galwadau cyswllt hyn dechreuodd yr hyfforddwr wneud ymarfer corff ysgafn ar alwadau fideo WhatsApp gan fod Mr a Mrs Jones yn teimlo bod eu hiechyd corfforol wedi dirywio o ganlyniad i beidio â mynychu'r dosbarthiadau.

Ni fynychodd Mr a Mrs Jones y dosbarthiadau ar-lein oherwydd nad oedd ganddynt ddyfais digidol i wneud a nid oedd ganddynt yr hyder na'r wybodath ddigidol i ymuno. Ym mis Medi, cwblhaodd Mr a Mrs Jones Holiadur Dementia Actif Gwynedd yn seiliedig ar y 'Camau Nesaf'. Dywedasant y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn dosbarthiadau ar-lein ond y byddai angen cefnogaeth arnynt.

Ym mis Hydref, llwyddodd Dementia Actif Gwynedd i gael mynediad at nifer o Dabledi gan brosiect lleol Y Dref Werdd. Ym mis Tachwedd, danfonodd aelod o dîm Dementia Actif Gwynedd y dabled i gartref Mr a Mrs Jones. Roedd y dabled wedi'i gosod yn barod gyda chyfeiriad e-bost Google newydd a'r ap Zoom yn barod i'w defnyddio. Cawsant hefyd set o gyfarwyddiadau syml a ddyfeisiwyd i'w helpu i ddechrau.

Yna sefydlodd y tîm gyfarfod ymarfer ar Zoom, lle roeddent yn gallu eu siarad trwy'r broses a sicrhau bod popeth yn gweithio'n gywir a'u bod yn teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r dabled. Ers hynny, mae Mr a Mrs Jones wedi ymuno â'r dosbarthiadau ymarfer corff ar-lein yn ogystal â'r cyfarfodydd Atgofion Chwaraeon.

**Adborth gan Mrs Jones:**

*"Roedd fy ngŵr wrth ei fodd yn mynd i'r dosbarthiadau ymarfer corff yn y ganolfan hamdden. Roedd am i ni fynd yn gynnar er mwyn iddo allu eistedd yn y caffi a chael paned cyn mynd i'r dosbarth. Roedd yn bwysig iddo gael y cyswllt cymdeithasol hwnnw a gweld pobl. Felly, ers i'r dosbarthiadau ddod i ben oherwydd COVID 19, mae o wedi eu colli yn fawr a chredaf fod ei ffitrwydd a'i gryfder wedi dirywio a'i fod wedi colli pob cymhelliant.*

*Rydym ni wedi bod yn cael cefnogaeth wych gan y tîm, mae'r galwadau ffôn a'r sylw rydym ni wedi'i gael gan yr hyfforddwr wedi bod yn wych, mae hi hyd yn oed wedi cael fy ngŵr i ymarfer ar un adeg drwy alwad fideo WhatsApp. Mae o'n meddwl y byd ohoni ac yn cofio pryd i ddisgwyl ei galwad ffôn."*



## Astudiaeth Achos 3: Y Gymraeg yn y Gweithle

Am flynyddoedd, bu'n her dod o hyd i drefniant sefydlog ac effeithiol ar gyfer rheolwr gwasanaeth yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Oherwydd natur ei waith, roedd amser yn brin, ac roedd mynychu cwrs rheolaidd, megis cwrs wythnosol neu ryddhau amser ar gyfer cwrs dwys yn amhosib. Nid tasg hawdd oedd dod o hyd i diwtor fyddai'n gallu ymweld â'r gweithle i gynnal sesiynau 1:1 iddo chwaith.

Bellach, diolch i'r cyfleoedd newydd sydd wedi codi yn sgil y pandemig, mae'n derbyn gwersi 1:1 wythnosol gyda thiwtor ac yn gwneud cynnydd arbennig. Mae'r ffaith y gellir teilwra'r cwrs i'w anghenion yn fuddiol iawn ac yn golygu y gall ddefnyddio'r hyn mae'n ei ddysgu yn ei waith bob-dydd, ac mae hyblygrwydd yr amser cyfarfod yn gweddu ei amserlen yn berffaith.

Derbynia ganmoliaeth uchel gan ei diwtor, o safbwynt ei ymroddiad i ddysgu Cymraeg a'i gynnydd cyffredinol: "Mae o bellach yn rhoi brawddegau llawn at ei gilydd yn Gymraeg gan ddefnyddio gwahanol batrymau, yn cynyddu ei eirfa ac yn goron ar y cwbl mae o bellach yn rhoi adroddiad byr i'r Tîm Rheoli ddwywaith yr wythnos yn Gymraeg erbyn hyn - WAW!"

Mae'n braf nodi i'w reolwyr a'i gydweithwyr weld ei gynnydd ar waith hefyd, er enghraifft, nid yw'r Pennaeth Adran yn anfon e-byst dwyieithog i'r Tîm Rheoli mwyach, a hyd yn oed yn derbyn rhai e-byst yn ôl yn Gymraeg. Meddai'r Pennaeth Adran: *"Mae o yn cyfrannu i'r Tîm Rheoli drwy gyfrwng y Gymraeg ers rhai wythnosau – a heddiw gwnaeth hynny mor naturiol fel ei fod yn defnyddio ein geirfa dydd i ddydd yn hytrach na geirfa ffurfiol".*

# ATODIAD 3: Mesurau Perfformiad

| | Mesur/Data | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Nifer y defnyddwyr gwasanaethau oedolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol** | **142** | **132** | **159** | |
| 2 | **Canran o bobl hŷn a phobl sydd ag anableddau corfforol neu synhwyraidd sydd wedi adrodd ein bod wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn llawn neu'n rhannol** | | **96%** | **94%** | Mae'r ffigwr wedi dirywio eleni o ganlyniad i Covid-19, a hynny am nifer o resymau yn cynnwys gwasanaethau yn cael eu cyfyngu neu eu hatal dros dro, nifer o bobl yn cysgodi ac yn methu mynd allan, gweithgareddau cymdeithasol wedi eu hatal dros dro, a rhestrau aros am ofal. |
| 3 | **Canran o bobl sydd ag anableddau dysgu sydd wedi adrodd ein bod wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn llawn neu'n rhannol** | | **99%** | **100%** | |
| 4 | **Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd** | **5.23** | **3.8** | **dim ar gael** | Oherwydd Covid-19, ni fu'r mesur hwn yn cael ei gofnodi'n rheolaidd eleni. |
| 5 | **Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli** | **91.50%** | **93.50%** | **92.07%** | Nid oes modd rheoli'r risg ym mhob achos diogelu gan fod rhaid i'r unigolyn benderfynu derbyn y gefnogaeth neu'r ymyrraeth yn y lle cyntaf. |
| 6 | **O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli (gan eithrio'r rhai sydd wedi gwrthod ymyrraeth)** | **93.10%** | **100%** | **98.0%** | Nid yw'r data yn cael ei adrodd yn gywir ar ein ffurflenni cyfredol, felly rydym yn y broses o ddiweddaru'r ffurflenni adrodd er mwyn ei symleiddio. |
| 7 | **Y canran o ymholiadau diogelu caiff eu cwblhau o fewn 7 diwrnod gwaith** | **90.3%** | **95.1%** | **93.2%** | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | **Nifer y bobl a dderbyniodd gymorth gan yr Uned Ddigartrefedd** | **768** | **745** | **945** | O ganlyniad i'r gofyn statudol arnom i sicrhau nad oedd unigolion yn cysgu ar y stryd yn ystod y pandemig, derbyniwyd arian ychwanegol o gronfa newydd gan Lywodraeth Cymru er mwyn gallu darparu llety i bawb sydd yn cael eu cyfeirio atom. |
| | **Mesur/Data** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21 Hyd at Chwarter 3** | **Sylwadau** |
| D | **Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn** | **5.9%** | **8%** | **2%** | Mae nifer y plant sydd wedi symud yn isel oherwydd amgylchiadau COVID-19. |
| 10 | **Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth** | **16.70%** | **14.20%** | **9%** | Mae ysgolion wedi bod ar gau oherwydd COVID-19 felly mae'r ffigwr yn isel ar gyfer 2020/21. |
| 11 | **Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn** | **85%** | **84%** | **86%** | |
| 12 | **Canran yr adolygiadau amddiffyn plant wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn** | **94%** | **80%** | **91%** | |
| 13 | **Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau** | **93%** | **90%** | **Heb ei gwblhau** | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 14 | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd wedi cael cynghorydd personol wedi'i ddyrannu iddynt | 100% | 100% | 100% | |
| 15 | Canran o gynadleddau achos lle bu clywed llais/barn y plentyn (ac eithrio plant o dan 5 oed) | 99% | 94% | 86% | |
| 16 | Cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed arwyddocaol (a'r ateb wedi ei gofnodi) | 100% | 100% | 100% | |
| 17 | Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau | 99% | 99% | 95% | |
| 18 | Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant a hynny o fewn terfynau amser statudol | 87% | 86% | 80% | Asesiadau'r Tîm Derbyn yn unig. |
| 19 | Canran y plant sy'n cael eu cynorthwyo i barhau i fyw gyda'r teulu | 63% | 61% | 78% | |
| 20 | Canran y plant a ddychwelodd adref o ofal yn ystod y flwyddyn | 5.80% | 8% | 6% | |
| 21 | Nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth | 253 | 291 | 281 | |

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Cyngor** |
| **Dyddiad** | **13 Mai 2021** |
| **Pwnc** | **Ymestyn penodiad aelod lleyg o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** |
| **Aelod Cabinet** | **Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid** |
| **Awdur** | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

Yn y Cyngor llawn ar 15 Mehefin 2017, penodwyd Mrs Sharon Warnes fel aelod lleyg ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am gyfnod o 4 blynedd.

Wrth i'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ddod i rym, bydd angen i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ail edrych ar gyfundrefnau ehangach y Cyngor yng nghyswllt y Ddeddf.

Deallaf fod Adran 116, y rhan sy'n ymdrin ag aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, angen Gorchymyn Cychwyn cyn daw i rym, a bydd y newid yma'n digwydd ar amser etholiad llywodraeth leol ym Mai 2022.

Yn y cyfamser, bydd angen cynllunio a gweithredu ar agweddau fel y gofyn i benodi aelodau lleyg yn draean o aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o Fai 2022.

Felly, gan fod y cyfnod llywodraeth leol presennol yn dod i ben yn 2022, a gyda newidiadau cyfansoddiadol yn golygu bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn newid ar gyfer y tymor newydd, mae'n gwneud synnwyr i'r Cyngor llawn ymestyn penodiad Mrs Warnes am flwyddyn ychwanegol.

**Argymhelliad**

**Ymestyn penodiad Mrs Sharon Warnes fel aelod lleyg o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am flwyddyn ychwanegol, hyd at etholiad Mai 2022.**

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn fater lleol

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro:**
Gallaf gadarnhau fod newidiadau eithaf sylweddol i aelodaeth y Pwyllgor yn dod yn weithredol yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r argymhelliad yn synhwyrol yn yr amgylchiadau.

**Pennaeth Cyllid:**
Awdur yr adroddiad

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **13eg Mai 2021** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adolygiad blynyddol o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol)** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cyngor:

- fabwysiadu'r rhestr o bwyllgorau ac is-bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol fel a nodir yn **Atodiad A**, ynghyd â mabwysiadu'r dyraniad seddau a nodir yn yr atodiad.

- ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol

- mabwysiadu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | Grŵp Annibynnol |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | Grŵp Plaid Cymru |
| Pwyllgor Craffu Gofal | Grŵp Annibynnol |

### 2. CEFNDIR A RHESYMEG

### 2.1. CYFLWYNIAD

2.1.1 Yn unol â gofynion statudol, mae'n ofynol cynnal adolygiad blynyddol o gydbwysedd y Cyngor, a gwneir hyn yn y cyfarfod blynyddol.

2.1.2 Adroddwyd yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor llawn ar **y 1af o Hydref, 2020** fod cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 40 |
| Annibynnol | 21 |
| Llais Gwynedd | 6 |
| Grwp Annibynnol Unedig Gwynedd | 3 |
| Aelod Unigol | 3 |
| Y Blaid Genedlaethol | 2 |
| **Cyfanswm** | **75** |

2.1.3 Ers hynny, mae newidiadau wedi bod fel a ganlyn:

- Cynhaliwyd is-etholiad yn ward Llanrug yn sgil marwolaeth y Cynghorydd Charles Wyn Jones, grŵp Plaid Cymru.
- Etholwyd y Cynghorydd Beca Brown yn ward Llanrug, grŵp Plaid Cymru.
- Mae Grŵp Plaid Cymru wedi penderfynu atal un cynghorydd o'r grŵp. Bydd y Cynghorydd yn cael ei gyfrif fel aelod unigol ar gyfer yr adolygiad hwn.
- Mae'r grŵp oedd yn cael ei adnabod fel "Y Blaid Genedlaethol" wedi newid ei enw i grŵp "Propel"

2.1.4 Bellach, felly, mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 39 |
| Annibynnol | 21 |
| Llais Gwynedd | 6 |
| Grŵp Annibynnol Unedig Gwynedd | 3 |
| Grŵp Propel | 2 |
| Aelod Unigol | 4 |
| **Cyfanswm** | **75** |

## 2.2 DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

(a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.2.2 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2.1 uchod hefyd.

## 2.3 NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.3.1 Mae'r tabl yn **Atodiad A** yn cadarnhau pa bwyllgorau sydd i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol. Mae'r tabl hefyd yn cadarnhau'r uwch-gyflogau sydd i'w talu.

2.3.2 Mae'r newidiadau i'r cydbwysedd gwleidyddol fel a ganlyn:

- Mae Aelod Unigol yn ennill un sedd ar y Pwyllgor Craffu Gofal ar draul Grŵp Annibynnol Unedig Gwynedd.
- Mae Aelod Unigol yn ennill un sedd ar y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ar draul Grŵp Llais Gwynedd.
- Mae Aelod Unigol yn ennill un sedd ar Bwyllgor CYSAG ar draul y Grŵp Annibynnol.

2.3.3 Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r dyraniad seddau yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol fel a nodir yn **Atodiad A**.

**2.4 CADEIRYDDIAETHAU AC IS-GADEIRYDDIAETHAU**

2.4.1 Er mwyn ymateb i ofynion Mesur Llywodraeth Leol (2011) o ran dyrannu'r cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau, rhennir y pwyllgorau i flociau ar wahân.

2.4.2 Yn unol â gofynion adrannau 66-75 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'n ofynnol dyrannu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod cydbwysedd gwleidyddol yn cael ei adlewyrchu yn y cadeiryddiaethau hynny, a bod y grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y weithrediaeth yn cael cyfran deg o'r cadeiryddiaethau.

2.4.3 Yr unig bwyllgorau y mae eu cadeiriau i'w dyrannu ar sail cydbwysedd gwleidyddol yw'r Pwyllgorau Craffu. Mae'r adolygiad blynyddol yn cadarnhau fod Cadeiryddiaeth dau o'r pwyllgorau craffu i'w dynodi i'r Grŵp Annibynnol ac un o'r Cadeiryddiaethau i Grŵp Plaid Cymru.

2.4.4 Er mwyn sicrhau dilyniant, mae Grŵp Busnes y Cyngor yn awgrymu y dylid dyranu'r cadeiryddiaethau fel a ganlyn er mwyn sicrhau dilyniant posib o'r is-gadeiryddiaeth i'r Gadair:

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | Grwp Annibynnol |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | Grwp Plaid Cymru |
| Pwyllgor Craffu Gofal | Grwp Annibynnol |

2.4.5 Yn unol ag adran 83 o'r Mesur, ni chaiff cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fod yn aelod o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y weithrediaeth.

2.4.6 Nid oes unrhyw ddarpariaeth statudol na chyfansoddiadol yn rheoli'r penodiadau i'r is-gadeiryddiaethau nac i gadeiryddiaethau gweddill y pwyllgorau (heblaw na chaiff aelod o'r weithrediaeth gadeirio'r Pwyllgor Trwyddedu).

2.4.7 Y pwyllgorau eu hunain fydd yn ethol eu cadeirydd yn yr achosion hyn yn amodol ar y rheolau gweithdrefn sy'n cyfyngu tymor Cadeirydd i 2 flynedd.

## 3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 Fel a nodwyd uchod, ymgynghorwyd â Grŵp Busnes y Cyngor.

**3.2 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**

Rwyf wedi  cynghori ar yr adroddiad ,  dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

**ATODIAD A – DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU**

| A | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Y Blaid Genedlaethol | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 10 | 5 | 1 | 1 | 1 | 0 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 10 | 5 | 2 | | 0 | 1 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Gofal | 10 | 5 | 1 | 1 | 0 (i lawr o 1) | 1 ( i fyny o 0) | 18 |
| Archwilio a Llywodraethu | 10 | 5 | 1 | | 1 | 1 | 18 |

| B | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Y Blaid Genedlaethol | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democrataidd | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | | 15 |
| Cynllunio | 8 | 4 | 1 | | 1 | 1 | 15 |
| Trwyddedu Canolog | 8 | 4 | 1 | | 0 | 2 | 15 |
| Iaith | 8 | 5 | 1 | | 1 | | 15 |
| Penodi Prif Swyddogion | 8 | 4 | 1 (i lawr o 2) | 1 | 0 | 1 (i fyny o 0) | 15 |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 2 | 1 | | 0 | | 7 |
| **Nifer y seddau** | **84** | **43** | **11** | **4** | **5** | **7** | **154** |

| C | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Y Blaid Genedlaethol | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 4 | 2 | 0 | | 0 | 1 | 7 |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 3 | 1 | | 1 | | 11 |
| CYSAG | 4 | 1 (i lawr o 2) | 0 | 1 | 0 | 1 (i fyny o 0) | 7 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd | 5 | 2 | 1 | | 0 | | 8 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y seddau** | **103** | **51** | **13** | **5** | **6** | **9** | **187** |

Yn unol â phenderfyniad blaenorol y Cyngor telir yr uwch gyflogau a ganlyn:

- Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- 8 aelod arall o'r Cabinet
- Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf
- Cadeiryddion Pwyllgorau
    - Pwyllgor Craffu ( x3 )
    - Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
    - Pwyllgor Cynllunio
    - Pwyllgor Trwyddedu (Canolog a Chyffredinol yn cael ei gyfrif fel un Pwyllgor)
    - Pwyllgor Pensiynau

Cyswllt · Contact Emyr Williams
Ffôn ·Telephone
Ein cyf · Our ref EW/JO
Eich cyf ·Your ref DS/SEW
Dyddiad · Date 26 Tachwedd, 2020
e-bost · e-mail Emyr.Williams@eryri.llyw.cymru

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
lle i enaid gael llonydd
SNOWDONIA NATIONAL PARK
one of Britain's breathing spaces

Y Cyng. D. Siencyn
Arweinydd Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd, LL55 1SH.

Annwyl Dyfrig,

Nid oes amheuaeth bod y mater hwn wedi dod i'r amlwg yn dilyn yr amgylchiadau rhyfeddol yr ydym wedi canfod ein hunain ynddo yn ystod y pandemig Cofid 19. Un o'r canlyniadau oedd y nifer uwch o ymwelwyr yn dilyn y cyfnod clo. Ynghyd a hyn gwelwyd ymddygiad cyhoeddus gwael yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf poblogaidd, yn Eryri ac yn ehangach.

**Materion Cyfreithiol:**
Ar hyn o bryd, mae'r darpariaethau mynediad i fynd ar yr Wyddfa ar ffurf chwe Hawl Tramwy Cyhoeddus, thir mynediad agored a chytundebau Mynediad:

1. Mae tri llwybr march (ar droed, beic a cheffyl) - Llwybrau Cwellyn, Rhyd Ddu a Llanberis ac mae'r tri sy'n weddill yn Llwybrau Troed Cyhoeddus - Llwybr Watkin, Llwybr PYG a Llwybr y Mwynwyr.
2. Yn ogystal, mae'r Wyddfa bron i gyd yn `dir mynediad ' sydd wedi'i ddynodi a'i fapio felly o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.
3. Mae canran uchel o'r tir yma hefyd yn destun i gytundebau mynediad agored fesul fferm (deddfwriaeth 1949) a wnaed gan yr hen Gyngor Gwynedd mewn cydweithrediad gyda'r Swyddfa Gymreig yn 80'r ganrif ddiwethaf. Ni ellid tynnu allan o'r cytundebau yma, ac mae taliad i'r tirfeddianwyr i adlewyrchu'r difrod bosib i'w tir/anifeiliaid oherwydd pwysau pobol.

Byddai ceisio gosod tariffau yn codi nifer o bwyntiau: Byddai gosod unrhyw fath o 'system godi tâl' ar gyfer cael mynediad ar yr Wyddfa yn gosod cynsail ar gyfer Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac fe fyddai'n mynd yn groes i ethos y Ddeddf Priffyrdd. Byddai hyn, heb os, yn destun her gyfreithiol sylweddol a llym ar lefel genedlaethol. Gellir dadlau y buasai hyn yn groes i ethos Deddf Parciau Cenedlaethol a'r holl ddeddfwriaeth sydd wedi ei sefydlu ers yr ail ryfel byd.

Mae cwestiwn ymarferol hefyd yn codi, sef pwy ddylai cael bendith allan o unrhyw incwm a fuasai yn cael ei godi, e.e.

- Perchennog y tir - gan y buasai yn ffordd i gael gwerth o'r ased.
- Y ffermwr neu'r tenant - sydd efallai yn dioddef oherwydd pwysau pobol,
- Awdurdod Priffyrdd - sydd gyda chyfrifoldebau statudol i gynnal y llwybrau,



Swyddfa'r Parc Cenedlaethol · National Park Office, Penrhyndeudraeth. Gwynedd LL48 6LF
☎ 01766 770274 🖷 01766 771211 parc@eryri.llyw.cymru www.eryri.llyw.cymru
Am Faterion Cynllunio / For Planning Matters: cynllunio@eryri.llyw.cymru
Croesawir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / Correspondence welcomed in Welsh and English

- Awdurdod y Parc Cenedlaethol - sydd yn rheoli rhan helaeth o’r agweddau ynglŷn â defnydd gan y cyhoedd,
- Cymunedau - effaith tymhorol oherwydd pobol.

Un peth sydd yn sicr mae diffyg adnoddau ar gyfer ymateb i’r heriau sydd yn codi.

**Goblygiadau gweithredol:**
Mi fyddai gweithredu unrhyw reoliadau ar gyfyngiadau i fynediad ar y ddaear yn anodd iawn. Fydd rhaid ymchwilio i botensial o leiaf dau opsiwn o’i weithredu. Giatiau a rhwystrau ffisegol ar y ddaear ble mae defnyddwyr yn talu er mwyn cael mynediad i’r mynydd. Yn amlwg, fydd rhaid penderfynu pa fynyddoedd fydd o fewn y ffin yma. Gall fod yn gymhleth ac yn gostus ei sefydlu. Opsiwn arall fyddai ffiniau anweladwy gyda system talu ar-lein. Costau is i’w sefydlu ond anodd ei rheoli.

Fyddai unrhyw opsiwn o weithredu angen elfen o orfodaeth a rheoli. Er mwyn gwneud hyn fydd angen adnodd staff ar y ddaear. Fe fuasai rhaid creu swyddogaeth benodol ar gyfer hyn gan fod rôl staff y Cyngor a  Wardeniaid yr Awdurdod yn ymwneud a datblygu'r berthynas sydd gennym gyda’r cyhoedd, tirfeddianwyr a phartneriaid yn hytrach na gorfodaeth.

**Treth Twristiaeth - Gwaith Blaenorol:**
Comisiynodd tîm twristiaeth Cyngor Gwynedd ddarn sylweddol o waith i edrych ar opsiynau o dan y faner ‘Elwa o Dwristiaeth’, gyda mewnbwn gan swyddogion o’r Awdurdod yma ynghyd a mudiadau eraill.

Daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod pedwar prif opsiwn ar gyfer cynhyrchu refeniw:
Cynllun Rhodd Ymwelwyr (adeiladu ar Rodd Eryri), Ardal Gwella Busnes Twristiaeth (TBID), Treth Twristiaeth a masnacheiddio mewn sawl ffordd. Roedd gan bob un cryfder a gwendid gwahanol. Roedd eu potensial i godi refeniw hefyd yn amrywio.

Daethpwyd i'r casgliad mai'r ateb tymor hir mwyaf cynaliadwy oedd Ardal Gwella Busnes Twristiaeth (TBID) neu Dreth Twristiaeth.  Mae'r adroddiad yn amlinellu y byddai treth twristiaeth yn gofyn am yr angen am bwerau a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru i allu cael ei weithredu.

Gobeithio bod y sylwadau uchod o gymorth i chi yn adrodd yn ôl i'r Cyngor.

Yn gywir,

**Emyr Williams.**
**Prif Weithredwr.**